Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS

# DATGANIAD O GYFRIFON GRŴP




AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU
31 MAWRTH 2021

COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

## Cynnwys


**Adroddiad Naratif** .......... 4

**Datganiad o Gyfrifoldebau** .......... 41

**Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys** .......... 42

**Dadansoddiad o Wariant a Chyllid** .......... 46

**Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** .......... 48

**Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn** .......... 50

**Mantolen** .......... 52

**Datganiad Llif Arian Parod** .......... 53

**Cronfa Bensiwn yr Heddlu** .......... 54

**Nodiadau i Gyfrifon Cronfa Bensiwn yr Heddlu** .......... 55

**Nodiadau i'r Cyfrifon** .......... 55

1. Polisïau cyfrifyddu .......... 55
2. Addasiadau cyfnod blaenorol .......... 64
3. Safonau cyfrifyddu sydd wedi cael eu cyhoeddi ond nad ydynt wedi'u mabwysiadu eto 64
4. Dyfarniadau hollbwysig wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu .......... 64
5. Rhagdybiaethau a ffynonellau mawr eraill o ansicrwydd amcangyfrif .......... 64
6. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd .......... 65
7. Nodyn i'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllid .......... 66
8. Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Gyllido o dan y Rheoliadau .......... 68
9. Trosglwyddiadau i/o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd .......... 73
10. Incwm a gwariant gweithredu arall .......... 76
11. Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi .......... 77
12. Trethiant ac incwm grant amhenodol .......... 77
13. Eiddo, offer a chyfarpar .......... 78
14. Eiddo buddsoddi .......... 81
15. Ymrwymiadau Cyfalaf .......... 81
16. Offerynnau Ariannol .......... 82
17. Dyledwyr Byrdymor .......... 85
18. Arian Parod a'r hyn sy'n Cyfateb i Arian Parod .......... 85
19. Asedau a ddelir i'w gwerthu .......... 85
20. Credydwyr Byrdymor .......... 85
21. Darpariaethau .......... 86
22. Cronfeydd wrth gefn annefnyddiadwy .......... 87

23. Datganiad llif arian parod – gweithgareddau gweithredu ... 90

24. Datganiad llif arian parod – gweithgareddau buddsoddi ... 91

25. Datganiad llif arian parod – gweithgareddau ariannu ... 91

26. Gwasanaethau Asiantaeth ... 91

27. Trefniadau Cydweithio ... 92

28. Cydnabyddiaeth swyddogion ... 97

29. Costau archwilio allanol ... 101

30. Incwm Grant ... 102

31. Partïon cysylltiedig ... 103

32. Gwariant cyfalaf ac ariannu cyfalaf ... 104

33. Prydlesau ... 105

34. Buddiannau terfynu ... 106

35. Cynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig ... 106

36. Rhwymedigaethau Digwyddiadol ... 114

37. Natur a graddau'r risgiau sy'n deillio o offerynnau ariannol ... 115

38. Cronfeydd Ymddiriedolaeth ... 118

Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y Cyd 2020/21 ... 119

# Adroddiad Naratif

## 1. Cyflwyniad

1.1 Nod yr adroddiad naratif hwn yw rhoi gwybodaeth am y materion pwysicaf a nodwyd o fewn cyfrifon y Grŵp ar gyfer y gwasanaethau a ddarparwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu (y Comisiynydd) a Phrif Gwnstabl Dyfed-Powys a hefyd roi cyd-destun sefydliadol ehangach.

1.2 Creodd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 ddwy gorfforaeth undyn o fewn pob ardal heddlu, sef y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Mae gan bob unigolyn gylch gwaith statudol clir ac ar wahân. Caiff y Comisiynydd ei ethol gan y cyhoedd ac, felly, mae'n cynrychioli llais y cyhoedd ar faterion plismona.

1.3 Fel rhan o ystod o fesurau, gohiriodd Deddf y Coronafeirws 2020 etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, a oedd i fod i gael eu cynnal ym mis Mai 2020, am flwyddyn i 6 Mai 2021. Mae’r Ddeddf ym ymestyn cyfnod swydd y deiliad presennol am un flwyddyn ac yn lleihau cyfnod y swydd ar gyfer y deiliad nesaf o un flwyddyn.

1.4 Etholwyd Mr Dafydd Llywelyn gyntaf yn Gomisiynydd ym mis Mai 2016 ac yna cafodd fe’i ail-etholwyd yn Gomisiynydd y trydydd tymor ym mis Mai 2021. Penodwyd Mr Mark Collins yn Brif Gwnstabl Dyfed-Powys gan y Comisiynydd ym mis Rhagfyr 2016 ac yn dilyn cyhoeddiad ganol fis Rhagfyr 2020, ymddeolodd ym mis Mawrth 2021. O ystyried agosrwydd hyn at etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a phwysigrwydd y berthynas rhwng y ddwy gorfforaeth undyn, penderfynodd y Comisiynydd beidio â symud ymlaen gyda'r broses benodi ar gyfer Prif Gwnstabl newydd parhaol ar yr adeg honno a dyrchafwyd Mrs Claire Parmenter dros dro i fod yn Brif Gwnstabl Dros Dro ym mis Chwefror 2021

1.5 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif amcanion, strategaethau a'r prif risgiau y mae'r Comisiynydd a Phrif Gwnstabl Dyfed-Powys yn eu hwynebu. Mae'n rhoi sylwadau ynglŷn â sut mae adnoddau wedi cael eu defnyddio er mwyn cyflawni canlyniadau a ddymunir yn unol â'r amcanion a'r strategaethau hyn.

1.6 Mae'n ceisio rhoi dadansoddiad teg, cytbwys a dealladwy o berfformiad ariannol a gweithredol, y gellir ei ddefnyddio i roi cyd-destun i'r wybodaeth ariannol a geir yn y datganiadau ariannol er mwyn gwella dealltwriaeth y darllenwr. Bydd yr adroddiad naratif yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Trosolwg o'r Sefydliad ac Amgylchedd Allanol
- Llywodraethu a Pherfformiad Gweithredol
- Model Sefydliadol
- Perfformiad Ariannol
- Risgiau, cyfleoedd a'r Rhagolwg Ariannol Tymor Canolig
- Ymateb a Goblygiadau Pandemig y Coronafeirws
- Sail gwaith paratoi a chyflwyno

## 2. Trosolwg o'r Sefydliad ac Amgylchedd Allanol

2.1 Gan rychwantu 4,188 o filltiroedd sgwâr, ardal Heddlu Dyfed-Powys yw'r mwyaf yng Nghymru a Lloegr. Gyda 13,842 milltir o ffyrdd, 2 borthladd mawr, 350 milltir o arfordir ac ardaloedd mawr o gefn gwlad, mae'r ddaearyddiaeth yn creu galw sylweddol a heriau o ran adnoddau.




2.2 Mae'r boblogaeth breswyl o 518,062 wedi'i gwasgaru dros ardaloedd gwledig helaeth, trefi marchnad a gwyliau, yn ogystal ag ardaloedd mwy poblog. Mae twristiaeth yn creu galw unigryw, gyda nifer fawr o dwristiaid yn ymweld â threfi allweddol. Mae i hyn ei oblygiadau ei hun o ran plismona'r ffyrdd, trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

2.3 Mae 40.9% o breswylwyr Dyfed-Powys yn siarad Cymraeg o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 28.4%. Mae'r Comisiyndd a'r Prif Gwnstabl yn ymrwymedig i sicrhau bod y gweithlu yn gynrychioliadol o'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu fel bod y cyhoedd, lle bo hynny'n bosibl, yn cael y cyfle i gyfathrebu â ni yn Gymraeg.

2.4 Mae sgiliau'r gweithlu a lefelau adnoddau yn hollbwysig o ran delio â'r galw a'r ddeddfwriaeth sy'n newid ac yn datblygu o hyd. Mae'r Prif Gwnstabl yn rheoli'r Heddlu drwy drefniadau llywodraethu mewnol, gyda'r Comisiynydd yn goruchwylio ac yn craffu ar ran y cyhoedd.

2.5 Yn groes i dueddiadau cenedlaethol, mae niferoedd Swyddogion Heddlu Dyfed Powys wedi aros yn gymharol sefydlog dros y 10 mlynedd diwethaf, er i 2018/19 weld gostyngiad bwriadol bach o ganlyniad i gynllun diswyddo cynnar gwirfoddol ar gyfer Swyddogion yr Heddlu. Cyfrannodd y cynllun £1.2 miliwn o ostyngiadau mewn costau a hwylusodd waith cynllunio ar gyfer olyniaeth er mwyn sicrhau cymysgedd sgiliau effeithiol a da. O ganlyniad, mae nifer y swyddi Staff Cymorth yr Heddlu sydd wedi'u cyllidebu wedi codi ers hynny i 744. Mae'r gweithlu hefyd yn cynnwys 148 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH), 78 o gwnstabliaid arbennig a 47 o staff heddlu gwirfoddol. Bydd goblygiadau ymrwymiad y Llywodraeth i'r Rhaglen Uplift i recriwtio 20,000 o swyddogion heddlu ychwanegol ledled Cymru a Lloegr erbyn Mawrth 2023 yn cael effaith nawr ar y niferoedd hyn, gyda'r gyfran gychwynnol o 6,000 o swyddogion yn cael eu recriwtio cyn 31 Mawrth 2021. Darperir gwybodaeth bellach yn Adran 4 a 6.

| | Ystadegau Gweithlu Heddlu'r Swyddfa Gartref (Cyfwerth ag Amser Llawn) | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth | | | | | | | | | | | 30 Medi |
| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2020 |
| Swyddogion Heddlu | 1,195 | 1,157 | 1,131 | 1,112 | 1,123 | 1,176 | 1,149 | 1,160 | 1,186 | 1,145 | 1,165 | 1,183 |
| SCCH | 83 | 80 | 97 | 143 | 150 | 147 | 135 | 143 | 145 | 146 | 143 | 143 |
| Staff Heddlu | 720 | 673 | 606 | 606 | 600 | 536 | 584 | 622 | 633 | 651 | 674 | 697 |
| **Cyfanswm** | **1,998** | **1,910** | **1,834** | **1,861** | **1,873** | **1,859** | **1,868** | **1,925** | **1,964** | **1,942** | **1,982** | **2,023** |

2.6 Mae'r hinsawdd ariannol parhau i fod yn heriol ac mae Heddlu Dyfed-Powys wedi gweld gostyngiadau o 21% neu £13 miliwn mewn arian grant canolog rhwng Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2010 a 2019/20 er ei fod wedi gweld codiadau dilynol i gefnogi'r Rhaglen Uplift. Bu'n rhaid i'r Heddlu arbed £30.7 miliwn ers 2010/11 ac mae ganddo gynllun effeithlonrwydd ac arbedion helaeth i'r dyfodol, ond bydd hefyd yn ofynnol arbed mwy er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys, o ystyried y pwysau o ran costau a ddisgwylir yn arbennig mewn perthynas â chostau pensiwn a'r adolygiad posibl o fformiwla ariannu pensiwn yr heddlu.

2.7 Yn y cyd-destun hwn, bu buddsoddiad parhaus mewn seilwaith cyfalaf sy'n hanfodol i ddarparu gwasanaethau plismona effeithiol. Mae llawer o waith wedi'i wneud i ystyried gofynion dros y deng mlynedd nesaf mewn perthynas â gofynion yr ystâd, y fflyd cerbydau a'r system TGCh, yn ogystal â gwaith cynnal a chadw parhaus hanfodol ac adnewyddu offer.

2.8 Mynegwyd llawer o sylwadau annibynnol dros y blynyddoedd diwethaf mewn perthynas â chynaliadwyedd, cyllid a chadernid yr Heddlu yn ogystal â'r baich ariannol cynyddol sydd arno a waethygwyd gan setliadau grant blwyddyn sy'n rhwystro cynllunio tymor canolig effeithiol yn sylweddol. Mae pwysau yn parhau i ddeillio o'r newid yn natur troseddu ac, yn fwy diweddar, yr amrywiaeth gymhleth o oblygiadau a chanlyniadau ariannol ac economaidd pellgyrhaeddol sy'n codi o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws. Mae'r rhain yn amlygu'r sefyllfa ddifrifol ac ansicr iawn y mae Dyfed-Powys, gwasanaeth yr heddlu, gwasanaethau cyhoeddus a'r wlad gyfan yn ei hwynebu.

2.9 Mae effaith diffyg eglurder tymor hwy parhaus ac ansicrwydd ynghylch cyllid grant craidd a phenodol yn golygu bod cynllunio tymor byr a thymor canolig yn anodd. Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn parhau i fynegi pryderon yn uniongyrchol a thrwy eu priod rwydweithiau. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2021/22 yn manylu ymhellach ar yr amrywiaeth o ystyriaethau ariannol:

https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/10559/2122-mtfp-and-precept-report-for-panel-submitted-003.docx

2.10 Ochr yn ochr â'r cyd-destun ariannol anodd hwn, mae'r galw yn parhau i gynyddu ac yn dod yn fwyfwy cymhleth. Mae'r Heddlu wedi profi cynnydd o flwyddyn i flwyddyn mewn troseddau cofnodedig gyda digwyddiadau sy'n ymwneud ag afiechyd meddwl ac ymholiadau mwy cymhleth i ecsbloetio plant yn rhywiol a seiberdroseddu. Mae newidiadau i'r ffordd y mae troseddau'n cael eu cofnodi'n genedlaethol wedi effeithio ar lefelau troseddau cyhoeddedig ac yn cyfrif am rywfaint o'r cynnydd. Mae gwaith yn parhau i wella cywirdeb data troseddau ac mae ffocws yr Heddlu ar fregusrwydd dros y flwyddyn ddiwethaf wedi arwain at gynnydd positif o ran riportio a chofnodi troseddau.

2.11 Gofynnir i swyddogion a staff yr heddlu ddelio ag ystod eang o faterion pwysig sy'n effeithio ar y cyhoedd.

| | | |
|---|---|---|
| Antisocial Behaviour | Fraud | Property crime |
| Brexit | Governance | Resources |
| CCTV | Justice | Roads policing |
| Children and young people | Mental health | Sexual crime |
| Crime investigation | Modern Day Slavery | Specialist capabilities |
| Cyber crime | Neighbourhood policing | Stop and search |
| Digital technology | Organised Crime | Terrorism |
| Domestic abuse | Police Effectiveness | Violent crime |
| Drugs and alcohol | Police legitimacy | Workforce |
| Firearms | 999 Response | Youth and Policing |

2.12 Mae'r gwasanaeth yn parhau i ddatblygu'n gyflym er mwyn ymateb i risgiau newydd, bygythiadau a newidiadau mewn technoleg, y mae llawer ohonynt wedi gofyn am ffyrdd newydd o weithio.

2.13 Datblygodd yr Heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu gynllun cyflenwi ar gyfer 2017-21 i ategu Cynllun yr Heddlu a Throseddu a chrëwyd Gweledigaeth ar gyfer 2025. Yna datblygwyd cynlluniau cyflenwi manwl i ategu'r dogfennau strategol lefel uchel hyn. Mae'r cynlluniau'n cydnabod yr amgylchedd gweithredol ac ariannol anodd, yr angen i barhau i fuddsoddi er mwyn sicrhau gwasanaethau cynaliadwy a'r angen i sicrhau bod gan yr Heddlu adnoddau ac asedau cyfatebol i ateb y galw'n briodol.

2.14 Gyda chefnogaeth y Comisiynydd, mae'r Heddlu wedi buddsoddi'n sylweddol mewn plismona digidol, gan sicrhau y gall swyddogion rheng flaen a SCCH ddefnyddio systemau'r heddlu drwy ddyfeisiau data symudol a chamerâu fideo a gaiff eu gwisgo ar y corff, yn ogystal â chyflwyno systemau telemateg mewn cerbydau er mwyn ymateb yn well i ddigwyddiadau. Mae systemau teledu cylch cyfyng wedi parhau i gael eu cyflwyno'n eang ar draws yr ardal, gan weithio fel ataliad yn ogystal ag arf gwerthfawr ac effeithiol i'w ddefnyddio mewn ymchwiliadau troseddol.

2.15 Nid yw plismona yn wasanaeth sydd wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru, ond mae cryn dipyn o'r gwaith a wneir ledled y pedair Sir yn cael ei wneud wrth gwrs mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol, Awdurdodau Tân, Byrddau Iechyd Lleol a llawer o bartneriaid eraill, gan gynnwys y trydydd sector. Hefyd, caiff nifer o wasanaethau pwysig, fel Ymateb Arfog ac ymateb i'r bygythiad o Droseddau Cyfundrefnol a Therfysgaeth, eu darparu ar y cyd â heddluoedd eraill.

2.16 Roedd y cyfyngiadau sylweddol a gyflwynwyd o ganlyniad i bandemig COVID-19, yn golygu bod llai o weithgareddau plismona cenedlaethol yn 2020/21 o gymharu â blynyddoedd eraill. Er gwaethaf hynny, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi helpu gyda nifer o ddigwyddiadau plismona proffil uchel yn ystod y flwyddyn, fel gwaith a gafodd ei ad-dalu, gan gynnwys:

- Ymgyrch Feather - trinwyr cŵn heddlu wedi'u gyrru i orllewin Mercia i gynorthwyo gydag ymchwiliad troseddol mawr - Awst 2020
- Ymgyrch Blythe - cyd-gymorth i Heddlu Caint a'u rheolaeth ar dagfeydd traffig y porthladdoedd arfordirol o ganlyniad i'r oedi gweinyddol a achoswyd gan Brexit - Chwefror 2021

- Ymgyrch Coltman - Protestiadau Kill The Bill ym Mryste lle darparodd HDP uned wrth gefn yr heddlu (PSU) a fyddai'n gallu cael ei defnyddio'n gyflym dros nifer o wythnosau - Mawrth 2021
- Yn fwy lleol, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi ymdrin â nifer o ymgyrchoedd a digwyddiadau mawr, wedi'u cynllunio a heb eu cynllunio, gan gynnwys: Ymgyrch Carlston - Llofruddiaeth
- Canolfan Ceiswyr Lloches - Penalun - Protestiadau / Protestiadau Mae Bywydau Du o Bwys
- Llwyddiant o ran mynd i'r afael â chyffuriau a reolir yn ystod Pandemig COVID-19
- Cyfyngiadau COVID - gorfodi
- Cynnydd mewn adroddiadau o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Nifer o ddigwyddiadau trasig eraill a oedd wedi cyflwyno heriau gweithredol sylweddol a gofynion anghyffredin o ran adnoddau

2.17 Hefyd, ddechrau 2020 gwelwyd argyfwng yr datblygu yn sgil pandemig COVID-19, gyda Sefydliad Iechyd y Byd yn datgan ei fod yn bandemig COVID-19 ar 12 Mawrth 2020. Bu'r effaith a'r ymateb i hyn yn ddigynsail yn y sector cyhoeddus yn gyffredinol, yn fwyaf sylweddol mewn perthynas â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ond hefyd o ran plismona'n benodol.

2.18 Cymerodd Dyfed-Powys ystod o gamau cynnar er mwyn sicrhau ei fod yn barod i ymateb ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Roedd y trefniadau llywodraethu a sefydlwyd yn sylweddol er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar berfformiad gweithredol a sefydliadol a darparu gwasanaethau yn optimaidd ac yn ddeinamig er mwyn ymateb yn briodol i'r sefyllfa a oedd yn datblygu'n gyflym, gydag iechyd a lles y gweithlu yn gwbl hanfodol. Mae'r trefniadau hyn wedi'u hamlinellu ymhellach yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS) ac mae adran ychwanegol wedi'i chynnwys yn rhan 7 yr adroddiad naratif hwn i dynnu sylw at rai o'r materion ehangach o ran y sefydliad a darparu gwasanaethau, ynghyd â'r goblygiadau ariannol.

## 3.0 Llywodraethu a Pherfformiad

3.1 Mae trefniadau Llywodraethu'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn gymhleth. Cawsant eu hadolygu'n feirniadol yn ystod 2018/19 ac maent yn parhau i ddatblygu er mwyn sicrhau gwaith rheoli, goruchwylio a chraffu effeithiol gan y sefydliad, gyda rhai newidiadau pellach yn cael eu gwneud yn gynnar yn 2021. Mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn rhan o'r Datganiad o Gyfrifon hwn, sy'n manylu ar y trefniadau sydd ar waith i sicrhau gwaith craffu ac atebolrwydd cadarn gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Mae'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ar y Cyd yn nodi'r egwyddorion, y strwythurau a'r prosesau ar gyfer llywodraethu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Dyfed-Powys, ar y cyd ac ar wahân, a chaiff hyn ei adolygu a'i ddiweddaru'n flynyddol.

3.2 Mae gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl gylch gwaith statudol clir ac ar wahân. Diogelir annibyniaeth weithredol y Prif Gwnstabl mewn deddfwriaeth. Mae ganddo gyfrifoldeb statudol am reolaeth, cyfeiriad a darpariaeth gwasanaethau plismona gweithredol Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r Prif Gwnstabl yn atebol o dan y gyfraith am arfer pwerau'r heddlu ac i'r Comisiynydd am ddarparu gwasanaeth plismona effeithlon ac effeithiol a rheoli adnoddau a gwariant yr heddlu. Mae'r Prif Gwnstabl yn dal ei Swydd o dan y Goron ac mae'n gyfrifol am gadw Heddwch y Frenhines.

3.3 Mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu gyfrifoldeb statudol am sicrhau bod yr heddlu yn effeithlon ac yn effeithiol a dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am gyflawni ei swyddogaethau. Y

Comisiynydd sy'n gyfrifol am bennu cyllideb flynyddol yr heddlu (gan gynnwys y praesept) a sicrhau y rhoddir cyfrif am arian cyhoeddus a'i fod yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol.

3.4 Y Comisiynydd sydd hefyd yn gyfrifol am bennu blaenoriaethau strategol Heddlu Dyfed-Powys drwy lunio'r Cynllun Heddlu a Throseddu, sicrhau bod materion busnes yn cael eu cyflawni yn unol â'r gyfraith a bod safonau priodol yn cael eu cyrraedd a'u cynnal.

3.5 Mae Cynllun Heddlu a Throseddu'r Comisiynydd yn ddogfen bwysig sy'n nodi pedair blaenoriaeth a phum egwyddor gyflawni allweddol, sef:

| Blaenoriaethau | Egwyddorion Cyflawni |
|---|---|
| Cadw Cymunedau'n Ddiogel | Sicrhau Gwerth am Arian |
| Diogelu'r Rhai Agored i Niwed | Ymgysylltu â'r Cyhoedd |
| Amddiffyn ein cymunedau rhag bygythiadau difrifol | Gweithio gyda'n Gilydd |
| Cysylltu â chymunedau | Cefnogi Dioddefwyr |
| | Cydraddoldeb a Thegwch |

3.6 Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi parhau i atgyfnerthu'r gydberthynas gadarn a phroffesiynol rhwng y ddwy swyddogaeth ond maent yn rhannu'r un weledigaeth ar gyfer gwella Heddlu Dyfed-Powys a'r gwasanaeth y mae'n ei roi i'r cyhoedd.

3.7 Ariannodd y Comisiynydd nifer o wasanaethau yn ystod 2020/21 i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn ei Gynllun Heddlu a Throseddu:

- Parhaodd y Comisiynydd i ariannu gwasanaeth pwynt cyswllt cyntaf hanfodol ar gyfer dioddefwyr troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r gwasanaeth hwn yn sicrhau bod pawb sy'n dioddef troseddau, a rhai sy'n agored i niwed neu sydd mewn mwy o berygl o ddioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn cael gwasanaeth cymorth i'w helpu i ymdopi ac ymadfer yn sgil eu profiadau. Adolygwyd y gwasanaeth hwn yn annibynnol yn ystod 2019 ac ynghyd ag ymarfer craffu dwys a gynhaliwyd gan dîm y Comisiynydd, ysgogodd hyn adolygiad gan yr Heddlu sydd wedi arwain at nifer o welliannau i'r gwasanaethau a ddarperir i ddioddefwyr yn ardal Dyfed-Powys. Bydd prosesau a darpariaeth gwasanaeth yn parhau i gael eu hadolygu yn nhymor tri i sicrhau bod dioddefwyr wrth galon prosesau darparu gwasanaeth.
- Mae gwerthusiadau yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd i asesu effaith cyflwyno canolfan ar gyfer pobl fregus a nifer o brosesau amlasiantaeth i wella asesiad risg a darpariaeth gwasanaeth i rai sy'n dioddef cam-drin domestig. Defnyddir hyn ochr yn ochr ag adolygiad parhaus o effaith a darpariaeth y gwasanaeth cynghori annibynnol (IDVA) i ddioddefwyr cam-drin domestig yr asesir eu bod yn wynebu risg uchel, er mwyn llywio cynlluniau yn y dyfodol ar gyfer cyd-gomisiynu gwasanaethau gydag asiantaethau partner ar gyfer 2022 ymlaen
- Parhaodd y Comisiynydd i weithio gydag asiantaethau partner ar lefel Cymru gyfan i wella'r ymateb i ddioddefwyr cam-drin rhywiol. Roedd hyn yn cynnwys adolygu galw a gofynion gwasanaeth y gwasanaethau cymorth yn y gymuned a fydd yn galluogi'r Heddlu ac Iechyd i gyd-gomisiynu pecynnau cymorth lleol gan sicrhau bod dioddefwyr yn gallu cyrchu 'siop un stop'. Mae New Pathways yn parhau i ddarparu gwasanaeth cymorth

mewn argyfwng sy’n gweithio'n agos gyda'r heddlu i ddarparu archwiliadau meddygol fforensig a mynediad ar unwaith i ofal iechyd ar ôl digwyddiad. Llwyddodd swyddfa'r Comisiynydd i sicrhau arian ychwanegol ar gyfer 2021/22 gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a fydd yn darparu capasiti ychwanegol i’r tîm Cynghori ar Drais Rhywiol Annibynnol. Disgwylir cyhoeddiadau pellach am swyddi i gefnogi dioddefwyr sydd â nodweddion gwarchodedig.

- Mae'r Comisiynydd yn bartner hanfodol o fewn y Byrddau Cynllunio Ardal, sy'n gyfrifol am ddarparu atebolrwydd, llywodraethu a chraffu ar waith cynllunio strategol, perfformiad a rheolaeth ariannol ym maes camddefnyddio sylweddau. Mae gan Fyrddau Cynllunio Ardal yr un ôl troed â Byrddau Iechyd a'r aelodau yw'r awdurdodau cyfrifol o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Mae'r Comisiynydd wedi ymrwymo i barhau i fuddsoddi mewn gwasanaeth Haen 2 a gomisiynir ar y cyd, ond gyda'r gofyniad am werthusiad cynhwysfawr o'r canlyniadau a gyflawnwyd ynghyd â thystiolaeth bod gwerth y contract yn briodol ac yn seiliedig ar dystiolaeth gyda fformiwla ariannu/rhesymeg gysylltiedig ar gyfer gwerth a dosraniad rhwng partneriaid. Mae datblygiadau ar y gweill ym Mhowys i ddarparu asesiad o anghenion a fydd yn sail i'r dystiolaeth ar gyfer ail-gomisiynu'r gwasanaeth Haen 2 a ariennir ar y cyd sy'n ymgorffori llwybrau cyfiawnder troseddol.
- Mae’r Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr bellach wedi bod yn weithredol ar draws holl ardal yr heddlu ers dros flwyddyn. Mae'r gwerthusiad cychwynnol yn gadarnhaol, gyda lefelau uchel o ymgysylltiad gan droseddwyr a chanlyniadau cadarnhaol yn cael eu dangos. Mae ymarfer gwireddu buddion wedi'i drefnu ar gyfer 2021/22 i lywio datblygiad y cynllun yn y dyfodol.
- Roedd Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru wedi parhau i ddarparu gwasanaeth cyfiawnder adferol a arweinir gan ddioddefwyr a gweithio'n agos gyda Goleudy i sicrhau bod pob dioddefwr yn ymwybodol o'r opsiynau sydd ar gael iddo o ran ymarfer adferol. Mae ymyriad Cyfiawnder Adferol yn broses lle mae'r dioddefwr a'r troseddwr yn dod ynghyd i benderfynu sut y dylid ymdrin â'r hyn sydd wedi digwydd ar ôl trosedd. Mae cynlluniau yn y dyfodol ar gyfer comisiynu'r gwasanaeth hwn ar y cyd â phartneriaid gan gynnwys y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn cael eu datblygu, er mwyn darparu cynnig gwasanaeth cyson i ddioddefwyr ar draws ardaloedd Heddluoedd Cymru.
- Parhaodd Llamau i ddarparu cymorth ôl-drafod a chyfryngu annibynnol i blant a phobl ifanc sy’n cael eu cofnodi fel rhai sydd ar goll ac sydd mewn perygl o gamfanteisio neu fod yn ddioddefwyr. Mae effaith y gwasanaeth presennol i'w weld yn amlwg yn y gostyngiad yn nifer yr achosion o bobl ifanc y rhoddir gwybod eu bod ar goll. Bydd y gwasanaeth yn cael ei werthuso ymhellach yn ystod 2021/22 i lywio estyniadau i'r contract yn y dyfodol.
- Parhaodd y Comisiynydd i ariannu gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar hanfodol i bobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu. 2020/21 oedd blwyddyn olaf cytundeb pedair blynedd gyda'r Gwasanaethau Troseddu ac Atal Ieuenctid ac mae gwerthusiad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd gan Brifysgol Aberystwyth i ddangos yr effaith a'r canlyniadau a ddarperir gan y cyllid hwn ac i lywio penderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol.

3.8 Mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am helpu'r Comisiynydd i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae ei drefniadau cyflawni gweithredol, ei fframweithiau monitro perfformiad a'i benderfyniadau ariannu yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau hyn. Adroddir ar hynt y cynllun bob chwarter yng nghyfarfodydd y Bwrdd Atebolrwydd Plismona;

cyfarfod cyhoeddus yw hwn lle mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn dwyn y Prif Gwnstabl a'i uwch dîm i gyfrif. Mae'r Adroddiad diweddaraf ar Berfformiad ar gael yn yr agenda ar gyfer y cyfarfod diwethaf yn:

http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/en/accountability/policing-accountability-board

3.9 Mae nifer o fetrigau maint ac allbwn yn cael eu monitro fel rhan o'r trefniadau sicrwydd a llywodraethu. Mae'r dadansoddiad hwn yn rhoi dangosyddion o gynnydd a pherfformiad yn erbyn y blaenoriaethau yn y Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae Byrddau priodol o fewn y strwythur Llywodraethu'n monitro perfformiad ac yn craffu arno gan ganolbwyntio'n benodol ar welliant.

3.10 Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi parhau i ateb galwadau 999 o fewn y targed o 10 eiliad a osodir gan y Cod Ymarfer ar gyfer y Gwasanaeth Galwadau Brys Cyhoeddus (PECS). Mae cyflymder cyfartalog ateb galwadau (ASA) yn parhau rhwng 1.7 eiliad - 6.3 eiliad, yn aml yn dilyn patrwm tymhorol (cynnydd yn yr ASA yn ystod misoedd yr haf a gostyngiad yn ystod y gaeaf).

3.11 Mae perfformiad o ran cyflymder cyfartalog ateb galwadau 101, yn ogystal â'r galwadau nas atebir wedi parhau'n gymharol sefydlog dros amser. Mae'r galw trwy Ganolfan Gyswllt yr Heddlu (CGH) hefyd wedi aros yn weddol gyson gyda chynnydd amlwg yn y galwadau am wasanaeth yn ystod mis Mawrth a mis Awst 2020 ac yn fwy diweddar ym mis Mawrth 2021. Newidiodd lefelau'r galw trwy Ganolfan Gyswllt yr Heddlu yn dilyn gosod a llacio cyfyngiadau.


3.12 Mae amseroedd ymateb i alwadau am wasanaeth, yn unol â'r flaenoriaeth a roddir iddynt, yn dda iawn. Mae rhai heriau daearyddol i'w hwynebu mewn lleoedd fel Llanbedr Pont Steffan a Sir Faesyfed ond mae'r amseroedd ymateb yn llawer gwell o gymharu â heddluoedd eraill.

3.13 Yn gyffredinol, mae ymgysylltiad digidol â chymunedau wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r ffaith bod yr Heddlu wedi mabwysiadu'r platfform Single Online Home (SOH), gwefan a gynhelir yn genedlaethol a ddisodlodd ein gwefan, yn galluogi'r cyhoedd i riportio amrywiaeth o ddigwyddiadau ar-lein neu geisio gwybodaeth am faterion mwy cyffredinol. Disgwylir y bydd twf o ran riportio ar-lein yn cynyddu'r galw gan fod llawer o'r rhai sydd hyd yma wedi riportio trwy SOH wedi nodi na fyddent wedi gwneud hynny pe na bai cyfrwng digidol ar gael iddynt.

3.14 At hynny, mae sefydlu Desg Ddigidol wedi golygu bod modd rheoli'r holl ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol yn ganolog gan arwain at ymateb cyflym i unrhyw faterion yr adroddir arnynt trwy Face Book, Twitter neu Instagram. Mae'r mesurau hyn yn sicrhau gwell hygyrchedd i'r rhai sy'n dymuno ymgysylltu â'r gwasanaeth ar-lein, a hefyd yn hwyluso ymatebion corfforaethol amserol a chyson lle bo hynny'n briodol.

3.15 Mae'r siart canlynol yn dangos cyfanswm y troseddau cofnodedig dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd cyfyngiadau lleol a chenedlaethol yn dylanwadu i raddau helaeth ar batrwm troseddau, ynghyd â'r mathau o droseddau gafodd eu riportio. Yn ystod cyfnodau clo, cynyddodd adroddiadau o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn sylweddol, ond yn dilyn llacio cyfyngiadau cynyddodd Trais yn erbyn y Person a throseddau Trefn Gyhoeddus.


*Cyfanswm y troseddau cofnodedig dros amser*




*Nodyn: Diweddarwyd ffigurau'r blynyddoedd diwethaf yn dilyn data ychwanegol/diwygiedig a dderbyniwyd*

3.16 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd y cynnydd mwyaf o ran troseddau cofnodedig mewn Troseddau Trefn Gyhoeddus. Nodwyd cynnydd hefyd mewn troseddau Meddu ar Arf er bod y niferoedd hyn yn fach, ond o ystyried difrifoldeb y troseddau ac, yn wir, y ffocws cenedlaethol ar droseddau'n ymwneud â chyllyll, mae'n bwysig bod yr heddlu'n parhau i gofnodi'r holl droseddau o'r fath a delio â nhw'n effeithiol. Bu gostyngiad sylweddol mewn llawer o droseddau lladrata a dwyn o gymharu â 2019/20, a briodolir i'r gorchymyn cenedlaethol i "aros gartref" a "gweithio gartref os gallwch chi".

*Cymharu categorïau troseddau 2019/2020 i 2020/21*




3.17 Bellach, mae ar y rhan fwyaf o droseddau cofnodedig angen elfen o ymchwiliadau digidol/ seiber. Wrth i nifer y dyfeisiadau gynyddu a dod yn fwy cymhleth, ac wrth i gyfaint y data gynyddu hefyd, mae'r sefyllfa yn dod yn fwy heriol i Uned Fforensig Digidol yr Heddlu. Fodd bynnag, mae datblygu model porthgadw cadarn i sicrhau bod archwilio dyfeisiau yn cael ei flaenoriaethu a'i amserlennu, wedi bod yn allweddol wrth reoli'r llwyth gwaith yn yr uned. Yn ogystal, mae cyflwyno labordy delweddu, ystafell wylio i swyddogion, a strategaethau fforensig cadarn i ymgorffori

meddalwedd brysbennu i negyddu'r angen am archwiliad manwl o nifer fawr o ddyfeisiau ar gyfer pob achos wedi caniatáu i'r uned wasanaethu'r galw sylweddol yn y maes hwn.

3.18 Mae Llinellau Cyffuriau yn parhau i fod yn fygythiad cenedlaethol gyda Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol o ddinasoedd mawr yn targedu cymunedau gwledig ac yn cymryd rheolaeth ar farchnadoedd cyffuriau lleol. Mae ymyrraeth gynnar gan Heddlu Dyfed-Powys i darfu ar weithgarwch wedi helpu i leihau'r effaith niweidiol o fewn ardal yr heddlu. Mae creu byrddau Trais Difrifol a Throseddu Cyfundrefnol ym mhob Sir wedi helpu i ddatblygu dull amlasiantaeth o ymdrin â'r bygythiad hwn ac amddiffyn y rhai sy'n agored i niwed sy'n cael eu targedu gan y grwpiau hyn. Yn fwyaf nodedig lansiad ein tîm ymyrraeth gynnar ac atal INTACT i weithio ym maes Trais Difrifol a Throsedd Cyfundrefnol, gyda dull Paratoi, Amddiffyn, Atal wedi'i ymgorffori yn y tîm. Bydd Llinellau Sirol, sy'n fygythiad ac yn risg sy'n achosi niwed difrifol i'n cymunedau, yn un o brif ganolbwyntiau ymrwymiad INTACT.

3.19 Ar gyfer 2019/20, penderfynwyd bod Safonau Ymchwilio, Plismona yn y Gymdogaeth a Cham-drin Domestig yn feysydd â blaenoriaeth y mae'r tîm Prif Swyddogion yn canolbwyntio arnynt er mwyn ysgogi gwelliannau i ddiogelu ein cymunedau ymhellach.

3.20 Mae Heddlu Dyfed-Powys hefyd wedi rhoi blaenoriaeth i godi safonau ymchwiliadau ar gyfer yr holl droseddau a reportiwyd, gan roi pwyslais penodol ar droseddau mwy difrifol lle gall ymchwiliadau barhau am gyfnodau estynedig. Arweiniwyd y gwaith hwn gan y Pennaeth Troseddu ac mae wedi arwain at leihad sylweddol mewn achosion byw sydd dros 12 mis oed. Rhoddwyd sylw arbennig i Drais a Throseddau Rhywiol Difrifol (RASSO) oherwydd y trawma a brofir gan ddioddefwyr. Rheolir yr ymchwiliadau hyn yn effeithiol gan uwch-arweinwyr a chynhelir cyfarfodydd RASSO rheolaidd gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron er mwyn adolygu unrhyw achosion sydd wedi methu ac i graffu ar benderfyniadau'r heddlu ynghylch unrhyw achosion "dim gweithredu pellach (NFA)".

3.21 Er mwyn adeiladu ymhellach ar y mesurau a roddwyd ar waith er mwyn gwella'r gwasanaeth a ddarperir i ddioddefwyr troseddau, a oedd yn cynnwys sefydlu Desg Fregusrwydd, mae Uned Asesu Risg Eilaidd (SRAU) wedi'i datblygu er mwyn ymateb yn effeithiol i'r cynnydd mewn achosion o gam-drin domestig ac achosion a gyfeirir at y Pwyllgor Asesu Risg Amlasiantaeth. Mae'r SRAU yn cynnig dull cyson o raddio digwyddiadau domestig ac yn darparu cynllun rheoli risg amserol ac effeithiol drwy drafodaethau amlasiantaeth dyddiol. At hynny, caiff staff eu hyfforddi i gwblhau Asesiad Sgrinio ar gyfer Stelcian ac Aflonyddu.

3.22 Mae'r Ganolfan Fregusrwydd yn dwyn ynghyd swyddogaethau allweddol gan gynnwys yr Uned Atgyfeirio Ganolog, yr SRAU, yr Uned Rheoli Troseddwyr a'r Uned Lleihau Niwed. Rhagwelir y bydd hyn yn gwella ein hymateb i'r holl ddioddefwyr bregus. Drwy ddatblygu uned Brysbennu ac Asesu, bydd yr heddlu'n gallu adolygu pob Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaeth gan ddarparu asesiad cyson o fygythiad, risg a niwed. Mae cyflwyno'r Tîm Cymunedau mwy Diogel wedi darparu llwybr sy'n galluogi ymyrraeth gynnar er mwyn mynd i'r afael â bregusrwydd lefel is gan fabwysiadu dull sy'n gweithio drwy lens Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod. Mae gweithio gyda phartneriaid yn y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol wedi ysgogi diddordeb i ffurfio llwybrau cymorth cynnar clir ac i broses Brysbennu ac Asesu ar lefel Awdurdod Lleol. Gellir gwneud hyn yn gorfforol neu drwy ddulliau rhithwir gan ddefnyddio'r feddalwedd a brynwyd yn ddiweddar ac sydd o'r radd flaenaf, gan liniaru rhai o'r heriau daearyddol sy'n berthnasol i ardal Dyfed-Powys.

3.23 Yn ystod 2020/21, mae'r cyfraddau collfarnu yn Nyfed Powys ar gyfer llys y Goron (2 allan o 4 chwarter) a'r llys Ynadon (4 allan o 4 chwarter) wedi parhau'n gyson uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Er bod y cyfraddau collfarnu wedi amrywio'n chwarterol, mae'r tueddiadau wedi aros yn sefydlog yn ystod 2 fis olaf 2020/21 h.y. 64.7% i 89.3% yn Llys y Goron a 87.8%

i 91.8% yn y Llys Ynadon (mae ffigurau mis Mawrth yw yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol a chyfartaledd Cymru). Oherwydd y nifer isel o achosion, mae'r ffigurau'n agored i amrywiad.

3.24 Rydym yn defnyddio dwy ffynhonnell o wybodaeth allweddol i ganfod barn y cyhoedd ar blismona lleol. Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr sy'n rhoi safbwynt y cyhoedd ar blismona a'r Arolwg o Foddhad Dioddefwyr sy'n rhoi gwybod am brofiad dioddefwyr o blismona. Caiff yr Arolwg Troseddu ei gynnal gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a chaiff yr Arolwg o Foddhad Dioddefwyr ei gynnal gan staff yr heddlu o fewn Heddlu Dyfed-Powys, gwasanaeth a gomisiynir gan ein Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Fodd bynnag, yn ystod 2020/21, roedd y swyddogaeth hon wedi'i hatal dros dro a'i diwygio i sicrhau diogelwch dioddefwyr a gafodd eu harolygu a hefyd i foderneiddio'r dull ymgysylltu.

a. <u>Canlyniadau Troseddau</u>

O ystyried troseddau a gafodd eu dwyn i'n sylw ac y pennwyd canlyniad (terfynol) iddynt yn 2020/21, pennwyd canlyniad i 68.3% (20,648) ohonynt o fewn 30 diwrnod i ni gael gwybod amdanynt. Mae hyn yn gynnydd o 3.7% o gymharu â 2019/20. Mae nifer y troseddau y pennir canlyniad iddynt o fewn 30 diwrnod yn dibynnu'n fawr ar y math o drosedd, a'i natur. Y tebyg yw y bydd yn cymryd mwy o amser i bennu canlyniad ar gyfer troseddau mwy cymhleth, megis troseddau rhyw (42.5%), na throseddau a ystyrir yn llai cymhleth, megis tanau bwriadol a difrod troseddol a throseddau sy'n ymwneud â threfn gyhoeddus (77.4% a 69.8%, yn y drefn honno).

b. <u>Boddhad Dioddefwyr</u>


Oherwydd cyfyngiadau COVID, ataliwyd yr holl arolygu Cam-drin Domestig oherwydd y risg uwch i ddioddefwyr a oedd yn ynysu gyda thramgwyddwyr. At hynny, ataliwyd arolygon boddhad dioddefwyr ar gyfer pob math arall o droseddau ac yn lle hynny sefydlwyd gweithgor bach i ystyried gweithredu arolygon troseddau awtomataidd ar gyfer yr Heddlu. Y nod oedd casglu adborth gan fwy o ddioddefwyr troseddau ar draws yr ystod lawn o fathau o droseddau (gyda rhai eithriadau yn unol â'r protocolau cenedlaethol).

Mae arolygon awtomataidd trwy e-bost wedi'u sefydlu wedi hynny. Derbynnir awgrymiadau gan y System Rheoli Troseddau sy'n nodi meini prawf penodol ac yn hwyluso arolwg awtomataidd i'r dioddefwyr hynny, a anfonir trwy e-bost. Mae hyn yn digwydd yn awtomatig 9 wythnos ar ôl i'r drosedd gael ei chofnodi. Ar ôl cwblhau'r arolygon, mae'r canlyniadau'n llywio adferiad gwasanaeth ac adnabod a lledaenu arfer da, sy'n gysylltiedig â Phroffiliau Datblygu ac Asesu swyddogion. Bydd y themâu yn cael eu monitro mewn cyfarfodydd Perfformiad Adrannol i sicrhau bod y gwasanaeth gorau posibl yn cael ei gynnig yn gyson i ddioddefwyr troseddau bob amser.

3.25 Er gwaethaf nifer o newidiadau o ran personél yn nhîm Prif Swyddogion yr Heddlu dros y flwyddyn, mae'r Comisiynydd a'r Heddlu’n dal i weithio'n galed gyda'i gilydd i oresgyn heriau parhaus a gwnaed cynnydd mewn nifer o feysydd pwysig. Mae ffocws ar ymgysylltu â'r cyhoedd a chydweithio i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed wedi arwain at newid mewn ffocws, i'r hyn sy'n ofal eithriadol i ddioddefwyr fel y'i cydnabuwyd yn genedlaethol bellach.

3.26 Mae canfyddiadau'r cyhoedd yn parhau i fod yn uchel o gymharu â mannau eraill yn y wlad gyda 63.8% yn barnu bod gwaith Heddlu Dyfed-Powys yn dda neu'n ardderchog (Data CSEW Mawrth 2020):

*Canfyddiadau’r Cyhoedd - Da neu Ardderchog*




3.27 Yn ystod mis Hydref 2018, cynhaliodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (yr Arolygiaeth) yr arolygiad PEEL integredig blynyddol cyntaf o'r heddlu. Cafodd y canfyddiadau eu cyhoeddi ddiwedd mis Ebrill 2019 gyda'r graddau canlynol:

| Adran | Prawf | Canlyniad |
|---|---|---|
| Effeithiolrwydd | Pa mor effeithiol yw’r Heddlu wrth leihau troseddau a chadw pobl yn ddiogel? | Da |
| Effeithlonrwydd | Pa mor effeithlon y mae'r Heddlu'n gweithredu a pha mor gynaliadwy yw’r gwasanaethau mae’n eu darparu i'r cyhoedd? | Angen Gwella |
| Dilysrwydd | Pa mor ddilys yw’r ffordd y mae'r Heddlu yn trin y cyhoedd a'i weithlu? | Angen Gwella |

3.28 Er bod y graddau'n siomedig, mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth plismona o'r radd flaenaf i gymunedau Dyfed-Powys. Mae'r Heddlu wedi buddsoddi llawer o amser i geisio sicrhau dealltwriaeth well o'r materion y tynnwyd sylw atynt ac mae'n parhau i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â nhw. Oherwydd dyfodiad COVID, ataliodd yr Arolygiaeth yr holl weithgaredd arolygu yn ystod 2020. Derbyniodd yr Heddlu wahoddiad gan yr Arolygiaeth i fod yn heddlu peilot ar gyfer eu fframwaith Asesu Parhaus PEEL newydd. Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn gynnar yn 2021 ond ni ddisgwylir yr adroddiad tan ddiwedd haf 2021.

3.29 Mae’r Arolygiaeth wedi cydnabod y cynnydd sylweddol y mae'r Heddlu'n ei wneud wrth ailstrwythuro gwasanaethau er mwyn cynnig cymorth arbenigol i gymunedau. Mae hefyd yn galonogol clywed canmoliaeth i waith y staff yng Nghanolfan Gyswllt yr Heddlu, sy'n llwyddo i adnabod pobl agored i niwed yn gyson. Mae’r Arolygiaeth hefyd wedi darparu adborth cadarnhaol ar y cynnydd a wnaed o ran y cyfeiriad strategol newydd a'r model ar gyfer

Plismona yn y Gymdogaeth. Dyfarnwyd bod yr Heddlu'n dda wrth drin y cyhoedd yn deg sy'n dyst i'r gwaith a wneir bob dydd i gefnogi a diogelu cymunedau Dyfed-Powys. Mae rhaglen newid eisoes ar waith a fydd yn sicrhau newid proses a diwylliannol sylweddol gydag elfennau'n ceisio gwella gallu'r heddlu i reoli galw, cefnogi dioddefwyr, gwella prydlondeb ac ansawdd ymchwiliadau a goruchwylio troseddau.

3.30 Fel rhan o'r arolygiad Asesiad Parhaus PEEL newydd a gynhaliwyd yn 2021, cyhoeddodd yr Arolygiaeth achos pryder mewn perthynas â chywirdeb data troseddu. Mae'r Prif Gwnstabl wedi cychwyn Grŵp Aur a fydd yn ceisio adolygu'r materion yn feirniadol a goruchwylio datblygiad a gweithrediad cynllun gweithredu priodol.

3.31 Yn Adroddiad Sbotolau PEEL Mai 2019, cydnabu'r Arolygiaeth fod heddluoedd yng Nghymru a Lloegr dan straen pwysau sylweddol wrth iddynt geisio ateb y galw cynyddol a chymhleth gydag adnoddau'n prinhau. Rhagwelir ymhellach y bydd tueddiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y dyfodol yn effeithio ar y galw am Wasanaethau'r Heddlu yn y chwe maes allweddol canlynol:

- Poblogaeth
- Iechyd
- Economi a seilwaith
- Newid yn yr hinsawdd
- Defnydd Tir ac Adnoddau Naturiol
- Cymdeithas a Diwylliant

3.32 Cyflwynodd y Prif Gwnstabl trydydd Datganiad Rheoli'r Heddlu (FMS) yn ystod 2020 fel hunanasesiad ar gyfer yr Arolygiaeth. Mae'r datganiad hwn yn esboniad o

- Y galw y mae'r Heddlu yn disgwyl ei wynebu yn ystod y pedair blynedd nesaf.
- Sut y bydd yr Heddlu'n newid ac yn gwella cyflwr, capasiti, gallu, defnyddioldeb, perfformiad a diogelwch cyflenwad ei weithlu ac asedau eraill i ymdopi â'r galw hwnnw.
- Sut y bydd yr Heddlu'n gwella i sicrhau bod y bwlch rhwng galw yn y dyfodol a chapasiti yn y dyfodol mor fach ag y gall fod
- Yr arian y mae'r Heddlu'n disgwyl y bydd yn ei gael i wneud yr uchod i gyd.

3.33 Mae'r Heddlu wedi diwygio ei ddull o gynhyrchu Datganiad Rheoli'r Heddlui fynd i'r afael ag argymhellion a wnaed yn flaenorol gan yr Arolygiaeth mewn perthynas â gwella'r ffordd y mae'n cynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae'r dull newydd o ymdrin â Datganiad Rheoli'r Heddlu wedi dod â dull canolog o gydlynu'r ddogfen, sef cynllun strategol yr Heddlu ar gyfer y flwyddyn nesaf, gyda'r galw wedi'i ragweld ar gyfer y 4 blynedd ac yn cyd-fynd â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

3.34 Gwneir y dadansoddiad o ddata galw cyfredol a rhagweledig yn ganolog ac mae'n ofynnol i arweinwyr busnes gymhwyso barn ac arbenigedd proffesiynol i'r sylfaen dystiolaeth. Rhagwelir y bydd y dull a ddefnyddir eleni yn sicrhau cynllunio strategol mwy effeithiol gan gryfhau'r cysylltiadau â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, y Strategaeth TGCh ac Ystadau a chynllunio Adnoddau ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf. Bydd bregusrwydd a nodir trwy'r broses hon yn cael ei fonitro trwy strwythur llywodraethu'r Heddlu ac adroddir ar gynnydd yn erbyn pob un o bryd i'w gilydd.

3.35 Mae Datganiad Rheoli'r Heddlu wedi nodi'r bylchau a'r heriau mwyaf arwyddocaol i wynebu'r Heddlu fel:

- Ansicrwydd ynghylch y sefyllfa ariannol hirdymor a gallu'r Heddlu i ddarparu gwasanaeth effeithiol i'n cymunedau o ystyried y cyfuniad o'r gostyngiad posibl mewn adnoddau a chynnydd sylweddol yn y galw.
- Mae salwch cyffredinol yn cynyddu ac Anhwylderau Seicolegol yw achos mwyaf absenoldeb.
- Galwadau am wasanaeth, yn enwedig y cynnydd mewn galwadau 999 a'r cynnydd o ran cymhlethdod.
- Graddfa'r galw digidol ac ar-lein a'r capasiti a'r gallu i fynd i'r afael ag ef.
- Mae maint y galw a'r effaith y mae COVID yn ei achosi yn golygu bod treialon wedi cronni, a hynny'n effeithio ar ganlyniadau ac yn creu galwadau ychwanegol am Wasanaethau Dioddefwyr.
- Rhagwelir y bydd y galw o ran troseddau rhywiol yn cynyddu a siâp y gweithlu a'n capasiti/gallu i fynd i'r afael â'r galw hwn gyda'r sgiliau sydd eu hangen.
- Galwadau cynyddol am TGCh a Rheoli Gwybodaeth i gynyddu cynhyrchiant a thryloywder

3.36 Mae'r Comisiynydd a Grŵp y Prif Swyddogion yn glir iawn eu bod am gael diwylliant lle mae pawb yn teimlo y gallant leisio eu barn a herio ond roedd yn amlwg bod gwaith i'w wneud mewn perthynas â phryderon am degwch canfyddedig. Cynhaliodd yr Heddlu arolwg staff yn ystod 2020 gyda chyfradd ymateb o 52.6%. Cafodd y canfyddiadau eu dadansoddi'n annibynnol gan Brifysgol Durham a nododd ganfyddiadau eithriadol o gadarnhaol. Mae'r rhain yn rhoi cyfle gwych i Brif Swyddogion ddysgu am farn y gweithlu a gweithredu yn sgil hynny. Ategir hyn yn aml gan Sioeau Teithiol y Prif Swyddogion ac ychwanegir atynt ymhellach gan waith ymgysylltu ar-lein gan Brif Swyddogion ar lwyfannau megis "Holi'r Prif Gwnstabl", "Dydd Gwener Ffilm", y cyfryngau cymdeithasol a "Blog Grŵp y Prif Swyddogion".

3.37 Braf iawn yw nodi y dyfarnwyd y Wobr Aur mawr ei bri i'r Heddlu gan Buddsoddwyr mewn Pobl yn Ebrill 2020. Mae'r broses hon yn golygu cael asesiad annibynnol o'r Heddlu yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys ei arferion gwaith, ei arweinyddiaeth a'i ddiwylliant. Llai na 7% o'r sefydliadau sy'n ymgeisio ar gyfer y lefel hon o achrediad sy'n llwyddo, felly mae hyn yn gyflawniad sylweddol ac mae'n amlygu'r gwelliannau a wnaed mewn perthynas â'r dull o arwain, lles y staff a'r prosesau rheoli pobl.

3.38 Bydd y Prif Swyddogion yn adolygu'r adborth gan Buddsoddwyr mewn Pobl ynghyd â chanlyniadau'r arolwg staff er mwyn nodi a mynd i'r afael â phob cyfle i wella ymhellach.

3.39 Mae'r Heddlu wedi parhau i ad-drefnu gwasanaethau er mwyn ateb y galw ac wedi mynd gryn dipyn o'r ffordd i gyflawni llawer o'r egwyddorion cyflawni sy'n sail i'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Heddlu Dyfed-Powys sydd ag un o'r lefelau isaf o droseddau cofnodedig ac mae felly'n un o'r lleoedd mwyaf diogel i fyw yng Nghymru a Lloegr gydag ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn parhau i fod yn uchel. Fodd bynnag, cydnabyddir bod tirwedd plismona yn newid drwy'r amser, a bod llawer o waith i'w wneud o hyd i ateb heriau yn y dyfodol yn ogystal â mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn Adroddiad diweddaraf yr Arolygiaeth.

## 4. Y Model Sefydliadol

4.1 Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi'i drefnu ar sail ddaearyddol a swyddogaethol. Cefnogir y Prif Gwnstabl gan Dîm o Brif Swyddogion sy'n cynnwys y Dirprwy Brif Gwnstabl, y Prif Gwnstabl

Cynorthwyol a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Dangosir prif gyfrifoldebau'r tair rôl sy'n cefnogi'r Prif Gwnstabl yn y tabl isod:

| Dirprwy Brif Gwnstabl | Prif Gwnstabl Cynorthwyol | Cyfarwyddwr Cyllid |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Pobl | Plismona Lleol | Cyllid Corfforaethol |
| Adran Gyfreithiol | Ymchwiliadau | Fflyd |
| Rheoli Gwybodaeth | Ymateb Arbenigol | Caffael |
| Cydweithredu ac Effeithlonrwydd | Canolfan Gyswllt | Systemau Gwybodaeth a Thechnoleg |
| Cyfathrebu Corfforaethol | Cefnogaeth Wyddonol | Uned Cymorth Busnes |
| Ymddeol Oherwydd Salwch | Cyfiawnder Troseddol | |
| Ymgyrchoedd Mawr | Partneriaethau | |
| Iechyd a Diogelwch | | |
| Safonau Proffesiynol | | |

4.2 Ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21, roedd gan Heddlu Dyfed-Powys 1,208 o swyddogion yr heddlu, 148 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a 744 o staff yr heddlu, wedi'u cyllidebu. Dangosir dadansoddiad o'r dosbarthiad staffio yn y tabl isod:

| | Swyddogion yr Heddlu | SCCH | Staff yr Heddlu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Swyddi wedi'u Cyllidebu 2020/21 | FTE | FTE | FTE | FTE |
| Plismona Lleol | 590 | 148 | 35 | 773 |
| Ymchwiliadau | 336 | 0 | 177 | 513 |
| Cymorth Gweithredol (gan gynnwys Ymdrin â Galwadau) | 167 | 0 | 134 | 301 |
| Cyfiawnder Troseddol | 1 | 0 | 54 | 55 |
| Cefnogaeth Wyddonol | 4 | 0 | 24 | 28 |
| Safonau Proffesiynol | 9 | 0 | 16 | 25 |
| Arall gan gynnwys Cymorth Busnes | 35 | 0 | 275 | 310 |
| Meysydd Secondiad ac wedi'u Hariannu | 66 | 0 | 29 | 95 |
| **Cyfanswm** | **1,208** | **148** | **744** | **2,100** |

4.3 Mae ymgyrchoedd recriwtio wedi cael eu cynllunio a'u rheoli'n ofalus yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau'r lefel orau bosibl o adnoddau, argaeledd sgiliau arbenigol a dosbarthu staff yn gymesur ar sail ddaearyddol. Mae trefniadau hyfforddi newydd wedi bod ar waith ers mis Mawrth 2019 o dan Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu sy'n golygu bod cwnstabliaid dan hyfforddiant yn parhau i gael eu recriwtio bob blwyddyn gyda darparwyr cyrsiau allanol yn darparu elfennau creiddiol o'u hyfforddiant.

4.4 Ym mis Ionawr 2020, croesawodd yr heddlu ei garfan gyntaf o 22 o recriwtiaid a benodwyd o dan raglen Ymgyrch Uplift y Swyddfa Gartref sydd â'r nod o gynyddu nifer y Swyddogion Heddlu a gyflogir yn genedlaethol o 20,000 erbyn Mawrth 2023. Mae angen i hyd at 6,000 o

Swyddogion fod wrth eu gwaith erbyn mis Mawrth 2021 ac mae'r Heddlu wedi cael dyraniad o 42 o swyddi cwnstabl o'r dyraniad cychwynnol a gyhoeddwyd wedi'i gefnogi gan elfennau o grant craidd a phenodol yn 2020/21. Mae rhaglen recriwtio gynhwysfawr ar waith nid yn unig i gefnogi'r swyddogion ychwanegol ond hefyd i gymryd lle swyddogion sy'n gadael y gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwn. Er gwaethaf yr heriau a achosir gan bandemig y Coronafeirws, cyflawnodd yr Heddlu ei darged erbyn diwedd y flwyddyn, gyda nifer y Swyddogion yn cynyddu i 1,182 cyfwerth ag amser llawn (ac eithrio secondiadau) erbyn mis Mawrth 2021 a chyfanswm o 1,209 yn erbyn targed o 1,205 o swyddogion. Roedd y setliad grant ar gyfer 2021/22 yn cynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer yr ail garfan o 6,000 o Swyddogion ar gyfer y Rhaglen Uplift. Mae dyraniad Dyfed-Powys yn cyfateb i 42 Swyddog pellach, gyda 2 yn cael eu neilltuo i gefnogi blaenoriaethau a gwaith yr Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol. Bydd hyn yn gweld nifer y Swyddogion yn y gwaith yn cynyddu i 1,247 (erbyn 31 Mawrth 2022).

4.5 Mae gan y Comisiynydd Swyddfa sy'n ei helpu i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol fel y'u nodwyd yng Ngorchymyn Protocol Plismona 2011. Yn ogystal â rolau statudol Swyddog Monitro a Phrif Swyddog Cyllid, mae gan y Comisiynydd dîm o weithwyr proffesiynol i'w gynghori ar faterion sy'n ymwneud ag ystadau, cyllid, polisi, perfformiad, ymgysylltu a phartneriaethau. Mae gan y Comisiynydd gyfanswm o 38.6 o staff cyfwerth ag amser llawn, sy'n cynnwys 20 o fewn y swyddogaeth Ystadau a gafodd eu trosglwyddo i'r Comisiynydd yn ystod 2017.

## 5. Perfformiad Ariannol

5.1 Mae Datganiad o Gyfrifon y Grŵp yn dangos perfformiad ariannol y Grŵp a chafodd ei baratoi ar sail arfer cyfrifyddu priodol sy'n bodloni gofynion Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Mae hyn ychydig yn wahanol i'r cyllidebau sy'n cael eu rheoli a'u monitro o ddydd i ddydd gan fod y rhain yn hepgor rhai elfennau megis dibrisiant a symudiadau ar rwymedigaethau pensiwn nad oes angen o dan statud eu cyllido'n llawn yn ystod y flwyddyn.

5.2 Mae cost gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn dangos bod £134.2 miliwn (2019/20: £129.4m) wedi cael ei wario ar ddarparu gwasanaethau plismona i gyhoedd Heddlu Dyfed-Powys yn 2020/21 cyn ystyried effaith dyfarniad McCloud / Sargeant ar gostau pensiwn gwasanaeth yn y gorffennol.

5.3 Mae'r Datganiad yn rhoi dadansoddiad o brif elfennau'r costau. Er enghraifft, gellir gweld mai ar Swyddogion yr Heddlu y gwariwyd yr elfen fwyaf, a oedd yn cyfrif am £68.427m (2019/20 : £64.472m) o'r cyfanswm yn 2020/21. Mae'r Tabl isod yn dangos y prif resymau dros amrywiadau yng nghost gwasanaethau rhwng y ddwy flynedd ar lefel uchel:

| Cost Cymhariaeth Gwasanaeth | 2019/20 £M | 2020/21 £M | Newid £M | Chwyddiant a Dyfarniadau Cyflog £M | Arall £M | Rheswm Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflog Swyddogion yr Heddlu | 64.5 | 68.4 | +3.9 | +1.6 | +2.3 | Absenoldebau cronedig ynghyd â recriwtio Swyddogion Uplift |
| Goramser Swyddogion yr Heddlu | 2.3 | 2.8 | +0.5 | +0.1 | +0.4 | Gorfodi COVID a Gwersyll Lloches Penalun (Ariannwyd â grant) |
| Pensiynau Swyddogion yr Heddlu (IFRS) | 16.3 | 16.3 | +0.0 | +0.2 | -0.2 | Newidiadau Lleiaf |
| Cyflog Staff yr Heddlu | 30.8 | 33.9 | +3.1 | +0.8 | +2.3 | Absenoldebau cronedig ynghyd â chynnydd mewn swyddi wedi'u cyllidebu |
| Goramser Staff yr Heddlu | 0.1 | 0.2 | +0.1 | +0.0 | +0.1 | Goramser cysylltiedig â COVID |
| Pensiynau Staff yr Heddlu (IFRS) | 5.0 | 4.3 | -0.7 | +0.1 | -0.8 | Prisiad asedau / Mwy o gyfraniadau cyflogwr |
| Costau Eraill sy'n Gysylltiedig â Gweithwyr | 1.2 | 0.9 | -0.3 | +0.0 | -0.3 | Llithriad mewn hyfforddiant allanol |
| Costau Adeiladau | 4.1 | 3.9 | -0.2 | +0.1 | -0.3 | Cyfleustodau - Gweithio o Gartref |
| Costau Trafnidiaeth | 1.9 | 1.7 | -0.2 | +0.0 | -0.2 | Llai o logi a thanwydd - yn gysylltiedig â COVID |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 10.4 | 10.1 | 0.3 | +0.2 | 0.5 | Absenoldebau cronedig yn lleihau ynghyd â chostau PPE ychwanegol / llai o arbedion heblaw tâl. |
| Gwasanaethau Asiantaeth a Chontract | 5.3 | 5.2 | -0.1 | +0.1 | -0.2 | Gostyngiadau cydweithredu |
| Costau Ariannu Cyfalaf | 4.4 | 4.9 | +0.5 | +0.0 | +0.5 | Dibrisiant / Ariannu |
| Grantiau | -7.5 | -11.1 | -3.6 | -0.0 | -3.6 | Grantiau Ychwanegol |
| Incwm Arall | -9.4 | -7.3 | +2.1 | -0.2 | +2.3 | Gostyngiadau incwm yn ystod Cyfnodau Clo |
| **Cyfanswm** | **129.4** | **134.2** | **+4.8** | **+3.0** | **+1.8** | |

5.4 Gellir gweld o'r uchod bod chwyddiant yn cyfrif am £3.0m o gyfanswm y cynnydd o £4.8m yng nghost gwasanaeth rhwng y ddwy flynedd ac mai dyfarniadau cyflog o 2.5% ar gyfer swyddogion a staff a ddyfarnwyd o fis Medi 2019 a 2020 yw'r prif gyfrannwr at hyn Ar wahân i hyn, mae plismona pandemig COVID-19, cyfnodau clo, gweithio gartref ochr yn ochr â recriwtio swyddogion a staff i gwrdd â bylchau gweithredol a thargedau rhaglen uplift y llywodraeth wedi cael effaith sylweddol ar wariant. Mae cynnydd sylweddol hefyd yng ngwerth gwyliau blynyddol cronedig heb eu cymryd sydd wedi'u cynnwys sydd eto i raddau helaeth oherwydd pandemig COVID-19.

5.5 Mae'r swm y bu angen ei ychwanegu at wariant i adlewyrchu costau gwasanaeth cyfredol pensiynau staff yr heddlu o dan arfer priodol wedi gostwng £700k oherwydd y cynnydd yng nghyfradd cyfraniadau'r cyflogwr o 13.2% i 17.8%. Mae gwerthoedd asedau a ddelir yn y cynllun hefyd wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn. Mae'n werth nodi, fodd bynnag, y bu angen ymgorffori colled net o £196.7m islaw llinell cost gwasanaeth o ganlyniad i newidiadau mewn rhagdybiaethau actiwaraidd sy'n ymwneud â chwyddiant (+0.6%) a dyfarniadau cyflog

(+0.6%) sy'n effeithio ar gyfnodau yn y dyfodol. Mae hyn yn bennaf yn gynnydd yng nghostau'r Cynllun Swyddogion Heddlu gyda'r cynnydd mewn costau yn cael ei ganslo yn fras gan enillion prisio asedau a chyfraniadau ar gyfer Cynllun Staff yr Heddlu.

5.6 Mae'r Fantolen yn rhoi cipolwg ar asedau a rhwymedigaethau'r Comisiynydd ar 31 Mawrth 2021.

5.7 Y swm mwyaf ar Fantolen y Grŵp yw'r rhwymedigaeth hirdymor o £1,676 miliwn (£1,442 miliwn yn flaenorol) mewn perthynas â rhwymedigaethau pensiwn yn y dyfodol i swyddogion a staff yr heddlu. Dyna'r swm y byddai angen ei neilltuo ar ddyddiad y fantolen ar gyfer taliadau pensiynau'r holl swyddogion a staff presennol ac ymddeoledig yn y dyfodol. Cyfrifwyd y ffigur hwn yn annibynnol ar sail actiwaraidd ac mae'n ystyried lefelau cyflog, chwyddiant, cyfraddau marwolaethau ac ati yn y dyfodol. Mae wedi cynyddu £233 miliwn yn ystod y flwyddyn yn bennaf oherwydd newidiadau mewn tybiaethau ariannol a demograffig. Cafodd y diffyg ychwanegol a ddeilliodd o achos McCloud / Sargeant ei gynnwys ym mhrisiannau 2019/20 ac nid yw'r actiwarïaid wedi diwygio'r rhain yn 2020/21 ar gyfer y naill gynllun na'r llall.  Ymgorfforwyd effaith pandemig COVID-19 ar brisiadau asedau cynllun staff yr heddlu yn y cyfrifon yn 2019/20 ac mae'r rhain wedi'u diweddaru gyda chynnydd yn y prisiad o £131.6m i £170.5m yn cael ei adlewyrchu.  Yn draddodiadol, cynhelir prisiad llawn cynhwysfawr bob tair blynedd gyda dull dwyn  ymlaen yn cael ei gymhwyso yn y blynyddoedd eraill.  Byddai prisiad newydd fel arfer wedi digwydd eleni. O ystyried yr ansicrwydd sy'n codi o achos McCloud sy'n effeithio ar yr holl gynlluniau pensiwn cyhoeddus diwygiedig, argymhellodd ein cynghorwyr actiwaraidd ymarfer dwyn ymlaen ar gyfer cyfrifon 2020/21, gydag ymarfer llawn yn cael ei gynnal y flwyddyn nesaf.  Erbyn hynny, credir y bydd llawer o'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag achos McCloud o ran rhwymedi yn glir a byddai arwydd gwell o rwymedigaethau'r cynllun yn cael eu darparu ar gyfer y cylch nesaf.

5.8 Yr eitem fwyaf nesaf ar y Fantolen yw'r £73.777 miliwn o eiddo, offer a chyfarpar sy'n eiddo i'r Comisiynydd.  Yn ogystal â'r asedau hirdymor hyn, daliodd y Comisiynydd £30.9 miliwn o asedau byrdymor, ar ffurf buddsoddiadau byrdymor yn bennaf.

5.9 Y gweddill arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn oedd £8.788 miliwn (2019/20; £4.829 miliwn), cynnydd o £3.959 miliwn.  Mae'r gweddill hwn yn cynrychioli £19 mil o arian parod a ddelir, arian parod yn y banc o £2.268 miliwn a buddsoddiadau cyfwerth ag arian parod o £6.501 miliwn.   Ymhellach, mae buddsoddiadau byrdymor wedi cynyddu £1.574 miliwn ers 2019/20.  Mae'r cynnydd mewn asedau cyfredol o £5.815 miliwn yn cael ei wrthbwyso â chynnydd mewn credydwyr tymor byr ar ddiwedd y flwyddyn o £5.518 miliwn ac felly mae'r cyfalaf gweithio yn debyg yn fras.

5.10 Mae manylion a dadansoddiadau pellach mewn perthynas ag eitemau'r Fantolen wedi'u cynnwys yn y nodiadau i'r cyfrifon.

Dadansoddiad o Berfformiad Ariannol ac Amrywiadau 2020/21

5.11 Pennodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu gyllideb o £112.909 miliwn fel Cyllideb Refeniw ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 a oedd yn ymgorffori defnydd o gronfeydd wrth gefn o £703 miliwn yn ogystal ag arbedion ariannol o £1.260 miliwn a dynnwyd o'r cyllidebau sylfaenol. Roedd yr arbedion hyn y gellir eu troi'n arian i'w cyflawni ar draws nifer o fentrau gan gynnwys strwythurau'r gweithlu, trefniadau cydweithio, datblygiadau TGCh, cynhyrchu incwm a gostyngiadau sylweddol mewn gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau a ddarparwyd drwy fentrau caffael a mentrau lleihau costau eraill.Roedd y gyllideb yn cynnwys tybiaeth o 2.5% ar gyfer dyfarniadau cyflog swyddogion a staff a chynnydd o 2.5% mewn chwyddiant cyffredinol ar gostau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau.

5.12 O'r gyllideb gyfan, pennwyd £107.415 miliwn fel y gyllideb ar gyfer y Prif Gwnstabl. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth nifer o grantiau penodol gan gynnwys £1.302 miliwn a dalwyd gan y Swyddfa Gartref i wrthbwyso'n rhannol gost codiadau blaenorol yng nghyfraddau cyfraniadau cyflogwr pensiwn Swyddogion yr Heddlu a £1.190m i gefnogi carfan gyntaf y Rhaglen Uplift.

5.13 Mae maint yr heriau ariannol yn cael eu deall yn dda yn yr Heddlu ac mae'r Prif Swyddog Cyllid a'r Cyfarwyddwr Cyllid gyda'r tîm cyllid yn cydweithio'n agos i adolygu'n feirniadol a datblygu trefniadau rheolaeth ariannol. Cydnabyddir y bydd effaith pandemig COVID-19 ar gyllid cyhoeddus a diffygion yn gwaethygu'r pwysau hyn ymhellach yn y blynyddoedd i ddod. Mae rheolaeth ariannol wedi'i hymgorffori'n llawn o fewn strwythurau llywodraethu a pharhawyd i gryfhau hyn yn ystod 2020. Mae'r tîm Cyllid Corfforaethol wedi cynnal cyfres o sesiynau hyfforddi allanol a ddarparwyd gan CIPFA i wella eu sgiliau partneru busnes cyllid a fydd yn cefnogi'r sefydliad yn well o berspectif strategol a gweithredol, gwella perthnasoedd â rheolwyr gwasanaeth a pharhau i ddatblygu ymwybyddiaeth ariannol a sgiliau rheoli ar draws y sefydliad. Bydd y tîm hefyd yn cefnogi'r ffocws sefydliadol ar gryfhau'r cysylltiadau hanfodol rhwng Datganiad Rheoli'r Heddlu a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gwireddu buddion busnes.

5.14 Roedd 2020/21 yn flwyddyn unigryw gyda'r argyfwng cenedlaethol yn deillio o bandemig COVID-19. Roedd yr ymateb o ran plismona yn ddigynsail gan iddo addasu'n gyflym i waith gorfodi deddfwriaeth newidiol y DU a Chymru a hynny wrth gynnal y gwasanaeth a diogelu ei weithlu.

5.15 5.15 Gweithiodd rhwydweithiau Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (APCC) a Phrif Gyngor Cenedlaethol yr Heddlu (NPCC) yn agos gyda'r Swyddfa Gartref ar oblygiadau ariannol pandemig COVID-19 gyda heddlu'n cyflwyno adroddiadau manwl yn fisol. O ganlyniad, cadarnhaodd y Gweinidog Plismona a'r Swyddfa Gartref grantiau penodol ychwanegol yn ystod y flwyddyn, y manylir arnynt yn adran 7.

5.16 Daeth galw ychwanegol am weithrediad o'r gofynion plismona annisgwyl a ddeilliodd o benderfyniad yr Ysgrifennydd Cartref i roi lle i geiswyr lloches ym Mhenalun. Oherwydd maint y costau a ragwelwyd, cyflwynodd y Comisiynydd gais am grant arbennig i'r Gweinidog Plismona ym mis Hydref 2020. Er bod y cais yn llwyddiannus, cadarnhaodd y Gweinidog na fyddai'r trothwy o 1% yn cael ei hepgor, a olygai y byddai'r £1.129m yn cael ei ysgwyddo'n lleol gyda dim ond costau dros y trothwy yn cael eu talu trwy grant arbennig. Adlewyrchwyd y pwysau ariannol sylweddol hwn o fewn cynllunio ariannol yn ystod y flwyddyn yn ogystal â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Penderfynwyd yn annisgwyl i gau Penalun ym mis Mawrth 2021 gyda cheiswyr lloches yn cael eu hadleoli i gyfleusterau eraill mewn rhannau eraill o'r DU. Cyfanswm cost ychwanegol y galw hwm am blismona oedd £440k, ac roedd yn braf cael gwybod bod y Gweinidog, er gwaethaf yr hysbysiad gwreiddiol, wedi penderfynu talu'r gost hon yn llawn.

5.17 Ar ôl cyflwyno llawer o geisiadau dros y blynyddoedd trwy Plismona yng Nghymru, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid grant ychwanegol ym mis Mawrth i fynd i'r afael â'r diffygion cylchol mewn cyllid grant ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH). O ganlyniad, derbyniwyd £358k yn ychwanegol ar gyfer 2020/21.

5.18 Mae'r tabl isod yn nodi'r sefyllfa alldro derfynol ar gyfer 2020/21 ac yn ei chymharu â'r gyllideb wreiddiol. Dangosir cyllideb ddiwygiedig hefyd yn y datganiad o amrywiad hwn sy'n adlewyrchu cyllidebau a symudiadau ychwanegol a broseswyd yn ystod y flwyddyn. Caiff trosglwyddiadau eu prosesu yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau bod y gyllideb yn cael ei diweddaru'n amserol. Cafodd y newidiadau i'r gyllideb y cyfeirir atynt isod eu diweddaru a'u cyhoeddi yng nghyfarfodydd misol y Bwrdd Plismona a'r Byrddau Atebolrwydd Plismona cyhoeddus chwarterol a gynhaliwyd drwy gydol y flwyddyn.

| Datganiad o Amrywiad<br>Deiliad y Gyllideb | Cyllideb Wreiddiol<br>£'000 | Cyllideb Ddiwygiedig<br>£'000 | Gwirioneddol<br>£'000 | Amrywiant (Cadarnhaol am Arbediad)<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu** | | | | |
| Costau'r Swyddfa a Chomisiynu | 2,098 | 2,098 | 1,935 | 163 |
| Costau Ystadau | 4,099 | 4,099 | 3,833 | 266 |
| **Cyfanswm Costau Cyllideb Refeniw'r Comisiynydd** | **6,197** | **6,197** | **5,768** | **429** |
| **Prif Gwnstabl** | | | | |
| Cyflogau a Lwfansau'r Heddlu | 65,697 | 65,725 | 64,928 | 797 |
| Goramser Swyddogion yr Heddlu | 1,690 | 1,608 | 1,915 | (307) |
| Gwyliau Banc | 681 | 691 | 763 | (72) |
| Cyflogau a Lwfansau'r Heddlu | 31,424 | 31,445 | 30,803 | 642 |
| Goramser Staff yr Heddllu | 202 | 173 | 163 | 10 |
| Costau Pensiynau | 1,644 | 1,644 | 1,588 | 56 |
| Recriwtio a Hyfforddi | 1,438 | 1,052 | 922 | 130 |
| Costau Eraill nad ydynt yn Ymwneud â Chyflog | 9,485 | 10,098 | 9,342 | 756 |
| Dadansoddi Galwadau a Gwaith Fforensig | 2,301 | 2,313 | 2,107 | 206 |
| Taliadau Cydweithredu | 3,546 | 3,292 | 2,690 | 602 |
| Grantiau | (8,874) | (9,356) | (11,335) | 1,979 |
| Incwm | (2,660) | (2,771) | (2,382) | (389) |
| Ariannu Cyfalaf | 1,031 | 1,091 | 1,240 | (149) |
| Ailgodiadau | (190) | (190) | (191) | 1 |
| **Cyfanswm Cyllidebau Adrannol - yr Heddlu** | **107,415** | **106,815** | **102,553** | **4,262** |
| Cronfeydd wrth Gefn i Ariannu Cyfalaf | 0 | 0 | (1,774) | 1,774 |
| Ariannu Refeniw Uniongyrchol i Leihau Benthyca | 0 | 0 | 1,774 | (1,774) |
| **Cyfanswm - yr Heddlu** | **107,415** | **106,815** | **102,553** | **4,262** |
| Cyfrif Dal - Gan Bwyll | 0 | 0 | (77) | 77 |
| Cyfrifon Dal Eraill | 0 | 0 | (42) | 42 |
| Gwariant o Gronfeydd Wrth Gefn ar Flaenoriaethau'r Comisiynydd | 0 | 0 | 191 | (191) |
| Cyfrifon Dal - Symudiadau i (-) O Gronfeydd wrth Gefn | 0 | 0 | (72) | 72 |
| **Gwariant Net gan yr Heddlu a'r Comisiynydd** | **113,612** | **113,012** | **108,321** | **4,691** |
| Symudiadau i Gronfeydd Refeniw wrth Gefn - PCC | 0 | 0 | 428 | (428) |
| Symudiadau mewn Cronfeydd Cyfalaf a Chronfeydd wrth Gefn Eraill | (703) | (103) | 4,160 | (4,263) |
| **Gwariant Net ar ôl Symudiadau o Refeniw i Gronfeydd wrth Gefn** | **112,909** | **112,909** | **112,909** | **0** |

5.19 Mae'r sefyllfa alldro derfynol a nodwyd yn y Datganiad o Amrywiant uchod yn dangos bod amrywiant cadarnhaol yng nghyllideb Refeniw'r Comisiynydd o £429k, gyda £266k o hyn yn ymwneud â'r adran Ystadau. O fewn y ffigurau hyn mae arbedion a wireddwyd o ganlyniad i drosiant staff, rheolaeth ariannol ddarbodus a nifer o arbedion canlyniadol yn codi o ganlyniad uniongyrchol i effaith ffyrdd newidiol o weithio a roddwyd ar waith oherwydd pandemig COVID-19. Roedd arbedion sylweddol yn deillio o gostau cyfleustodau is ar draws yr ystâd, incwm

ychwanegol wedi'i wireddu o drefniadau rhannu safle, gwariant is ar gynnal a chadw cynlluniedig ac adweithiol ond pwysau ychwanegol yn codi o'r gofynion glanhau. Gwnaeth trosglwyddiad net o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi o £191k gefnogi blaenoriaethau'r Comisiynydd yn ystod y flwyddyn.

5.20 Mae'r Datganiad o Amrywiad uchod yn dangos bod costau'r Prif Gwnstabl at ei gilydd £4,262 miliwn islaw'r gyllideb ddiwygiedig ar gyfer y flwyddyn. Rhoddir esboniad o'r prif resymau dros yr amrywiadau mwyaf sylweddol yn y gyllideb ar gyfer 2020/21 isod:

i. <u>Cyflogau a Lwfansau Swyddogion yr Heddlu:</u> At ei gilydd, roedd tanwariant o £797k yn y gyllideb hon ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd swyddi gwag, ymddeoliad cynharach, seibiannau gyrfa, diswyddiadau a throsglwyddiadau swyddogion heddlu yn uwch na'r disgwyl yn gynnar yn y flwyddyn ac mae hyn yn cyfrif am oddeutu £600k o'r arbediad hwn. Yn ogystal, achosodd pandemig COVID-19 1 mis o oedi rhwng Mehefin a Gorffennaf mewn perthynas â derbyn recriwtiaid newydd ac roedd trosglwyddwyr i mewn a oedd wedi'u cyllidebu i'w trosglwyddo yn ystod mis Tachwedd wedi dechrau yn gynnar yn 2021. Roedd dyfarniadau cyflog yn unol â'r gyllideb ac fe wnaeth yr Heddlu gyrraedd y targed Swyddogion Uplift erbyn diwedd y flwyddyn er gwaethaf y pwysau hyn.

ii. <u>Goramser Swyddogion yr Heddlu</u>: Roedd goramser Swyddogion yr Heddlu £307k dros y gyllideb gyda thaliadau mewn perthynas ag Ymgyrch Asper (Penalun) o £351k a £147k mewn perthynas ag ymateb a phlismona mesurau gorfodi pandemig COVID-19 yn cyfrif am hyn. Cafodd y gwariant hwn ei wrthbwyso i raddau helaeth gan grantiau a dderbyniwyd. Ar wahân i hynny, roedd y gwariant sylfaenol oddeutu £191k islaw'r gyllideb. Mae'r Gweithgor Goramser yn arfer llawer iawn o graffu a rheolaeth ar wariant goramser sydd, ynghyd â llai o droseddu yn ystod cyfnodau clo, wedi bod yn allweddol wrth gyflawni hyn.

iii. <u>Taliadau Gwyliau Banc Swyddogion yr Heddlu</u>: Roedd gorwariant o £72k o dan y pennawd hwn yn ystod y flwyddyn. Mae'r gorwariant wedi'i ddosbarthu'n weddol gyfartal ar draws swyddogaethau ac ardaloedd ac roedd hyn oherwydd yr angen i ddarparu presenoldeb gweithredol cynyddol ar wyliau banc o ganlyniad i blismona'r pandemig COVID-19 ac i gefnogi gweithgaredd gweithredol ychwanegol a digwyddiadau a godod yn gynnar yn y flwyddyn ariannol.

iv. <u>Cyflogau a Lwfansau Staff yr Heddlu</u>: Roedd tanwariant o £642k o dan y pennawd hwn yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i oedi wrth benodi staff yr heddlu newydd gan fod swyddi gwag wedi codi yn gynnar yn y flwyddyn ariannol o ganlyniad i'r cyfnodau clo a gweithio gartref. Roedd hyn yn effeithio'n bennaf ar swyddi mewn swyddfeydd. Wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi, gweithredwyd trefniadau amgen a oedd yn cynnwys cyfweliadau ar-lein ac ati. Roedd dyfarniadau cyflog o 2.5% o fis Medi 2020 yn gyson â'r rhai a gyllidebwyd.

v. <u>Goramser Staff yr Heddlu</u>: Roedd y costau hyn i raddau helaeth fel y'u cyllidebwyd gan ddangos tanwariant bach o £10k am y flwyddyn

vi. <u>Costau Pensiynau Swyddogion yr Heddlu</u>: Roedd taliadau pensiwn ychydig o dan y gyllideb o £56k o ganlyniad i benderfyniadau ynghylch dyfarniadau sefydlogrwydd ac anafiadau a gymerwyd ar sail feddygol ym mis Mawrth. Mae yna ôl-groniad o nifer fach o achosion y bydd angen barn feddygol ar eu cyfer ar ddiwedd y flwyddyn ac y

bydd angen eu hystyried o fewn y gyllideb ar gyfer ymddeoliadau ar sail afiechyd y flwyddyn nesaf.

vii. Recriwtio a Hyfforddi: Gostyngodd yr Heddlu gyllideb hyfforddi £386k yn ystod y flwyddyn gan ragweld sefyllfa o danwario o ganlyniad i atal llawer o gyrsiau hyfforddi allanol wyneb yn wyneb yn ystod cyfnodau clo. Fel rhan o'r broses gosod cyllideb, cafodd trosglwyddo hyfforddiant ychwanegol ar gyfer y swm hwn ei gynnwys ar gyfer 2021/22 yn dilyn proses blaenoriaethu hyfforddiant. Roedd gwariant hyfforddi a recriwtio tua £130k o fewn y cyfanswm is hwn. Mae'r Heddlu wedi gallu blaenoriaethu recriwtio, asesu a hyfforddi i gefnogi'r Rhaglen Operation Uplift yn ystod y flwyddyn. Recriwtiwyd carfan ychwanegol o 42 o swyddogion mewn dau grŵp yn ystod mis Gorffennaf 2021 a mis Ionawr 2021 i gefnogi'r fenter Genedlaethol i gynyddu niferoedd swyddogion o 20,000 erbyn Mawrth 2023 a 6,000 erbyn Mawrth 2021. Cafodd y costau ychwanegol hyn eu gwrthbwyso i ryw raddau gan Grant ychwanegol o £1.1 miliwn (gweler isod).

viii. Costau Eraill nad ydynt yn Ymwneud â Chyflog: Cofnodwyd arbediad o £756k yn erbyn y pennawd hwn. Gellir priodoli'r rhan fwyaf o'r amrywiant i gostau cyfreithiol / yswiriant ychwanegol ac arbedion sy'n deillio o newidiadau mewn ffyrdd o weithio a oedd eisoes yn cael eu hystyried ond a gyflymwyd oherwydd pandemig COVID-19. Mae'r tabl isod yn dangos y prif benawdau yr effeithir arnynt fel hyn. Mae Rhaglen Adfer, Newid a Thrawsnewid yn gweithio i ymgorffori'r newidiadau hyn a newidiadau eraill gyda thua chwarter yr arbedion a restrir wedi'u hymgorffori yn y gyllideb fel targed arbedion ar gyfer 2021/22.

| Datganiad Amrywiant Costau nad ydynt yn Ymwneud â Chyflog – Cysylltiedig â Phandemig COVID-19<br><br>Pennawd Gwariant Dethol | Cyllideb Wreiddiol<br><br>£'000 | Cyllideb Ddiwygiedig<br><br>£'000 | Gwirioneddol<br><br>£'000 | Amrywiant Arbediad / (Cost)<br><br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Arbedion yn Erbyn Cyllidebau** | | | | |
| Hawliadau Llogi Cerbydau a Milltiroedd | 308 | 324 | 161 | 163 |
| Tanwydd | 877 | 829 | 694 | 135 |
| Penawdau Llety a Chynhaliaeth | 342 | 373 | 145 | 228 |
| Costau Llungopïo a Phapur | 270 | 270 | 205 | 65 |
| TGCh Gan gynnwys Ffonau Symudol | 3,920 | 3,995 | 3,729 | 266 |
| Taliadau Amrywiol Eraill | 303 | 285 | 118 | 167 |
| Tanwydd Morol | 73 | 73 | 16 | 57 |
| | **6,093** | **6,149** | **5,068** | **1,081** |
| **Costau Ychwanegol** | | | | |
| Offer Amddiffynnol | 13 | 351 | 571 | (220) |
| Costau Cyfreithiol ac Yswiriant (Ddim yn gysylltiedig â Phandemig COVID-19) | 26 | 26 | 131 | (105) |
| **Cyfanswm y Penawdau a Ddetholwyd** | **6,132** | **6,526** | **5,770** | **756** |

ix. Dadansoddi Galwadau a Gwaith Fforensig: Mae cyfyngiadau mewn perthynas â chaffael gwaith Fforensig Digidol a maes Cymorth Gwyddonol Fforensig wedi arwain at arbedion o £268k yn erbyn y pennawd hyn, ond mae costau ychwanegol yn gysylltiedig â phenawdau eraill fel datganiadau tyst arbenigol a chostau dadansoddi ffôn wedi gostwng hyn i £206k ar ddiwedd y flwyddyn.

x. Taliadau Asiantaethau a Chydweithredu: Roedd y pennawd hwn yn dangos tanwariant o £602k ac mae hyn yn ymgorffori taliadau i asiantaethau allanol gan gynnwys Unedau Cydweithredol Rhanbarthol a Chenedlaethol. Roedd y tâl i'r Uned Arfau Saethu Rhanbarthol yn is na'r disgwyl oherwydd swyddi gwag ledled De Cymru a chyflwynwyd yn raddol y newidiadau a ddisgwyliwyd mewn perthynas â newid y sail ddyrannu ar gyfer Prosiectau a Thimau Cenedlaethol. Roedd tanwariant mewn perthynas â'r Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol o £200k o ganlyniad i newidiadau staffio a chyfraniadau ychwanegol y Ddeddf Elw Troseddau ar ddiwedd y flwyddyn.

xi. Grantiau: Derbyniodd y Comisiynydd fwy o grantiau na'r disgwyl ar amser gosod y gyllideb, ac ni roddwyd gwybod am lawer o'r rhain tan fis Mawrth 2021. Roedd y Tabl isod yn dangos y prif grantiau a dderbyniwyd yn erbyn y gyllideb ynghyd ag amrywiannau. Mae mwy o fanylion am y grantiau sy'n gysylltiedig â COVID yn adran 7.9 isod.

| Dadansoddiad Amrywiant Grant | Cyllideb Wreiddiol £'000 | Cyllideb Ddiwygiedig £'000 | Gwirioneddol £'000 | Amrywiant (cadarnhaol am arbediad) £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Grantiau Cysylltiedig â COVID | | | | |
| Swyddfa Gartref - Grant Colli Incwm | 0 | 0 | (319) | (319) |
| Swyddfa Gartref - Grant Gorfodi | 0 | 0 | (411) | (411) |
| Swyddfa Gartref - Cyllid Ymchwydd | 0 | 0 | (98) | (98) |
| Swyddfa Gartref - Adfer Costau PPE | (350) | (350) | (350) | 0 |
| Grantiau Llywodraeth cymru | | | | |
| LIC - Grant SCCH | (2,479) | (2,479) | (2,837) | (358) |
| LIC - Cyllid Pontio yr UE | 0 | 0 | (150) | (150) |
| Grantiau Swyddfa Gartref | | | | |
| Ymgyrch Asper (Gwersyll Ceiswyr Lloches Penalun) | 0 | 0 | (440) | (440) |
| Grant Pensiwn | (1,302) | (1,302) | (1,302) | 0 |
| Grant Uplift Cenedlaethol | (1,190) | (1,190) | (1,190) | 0 |
| Amrywiol Eraill | | | | |
| Grantiau Eraill (Amrywiol) | (4,035) | (4,035) | (4,238) | (203) |
| | **(9,356)** | **(9,356)** | **(11,335)** | **(1,979)** |

xii. Incwm:Derbyniodd yr Heddlu lai o incwm na'r disgwyl yn ystod y flwyddyn ac arweiniodd hyn at orwariant o £389k yn erbyn y pennawd hwn yn ei gyfanrwydd. Unwaith eto, mae hyn i raddau helaeth oherwydd effaith pandemig COVID-19 gyda phenawdau fel Gwerthu Cerbydau (£68k), Incwm Hyfforddiant Allanol (£208k) Cymorth Cydfuddiannol (£158k), Gwasanaethau Plismona Arbennig digwyddiadau ac ati (£92k), Trwyddedu Arfau Saethu (£56k), adfer cerbydau (£72k) ac incwm/adferiadau eraill (£142k) sy'n cyfrif am fwyafrif y golled. Ariannwyd darparu PPE gan yr Adran Iechyd o fis Mehefin 2020 ymlaen ac mae'r Heddlu wedi cydnabod cost a rhodd ychwanegol o £330k sydd hefyd yn effeithio ar y pennawd hwn.

xiii. Ariannu Cyfalaf: Mae'r Tabl uchod yn dangos tanwariant net o £149k yn erbyn taliadau cyllido cyfalaf ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Dyma ganlyniad y

penderfyniad a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf i beidio â benthyca at ddibenion cyfalaf yn y flwyddyn honno.

xiv. Trosglwyddiad o'r Cronfeydd Wrth Gefn: Oherwydd y cymhlethdodau ariannol a gododd yn ystod 2020/21, cymeradwywyd sawl addasiad yn ystod y flwyddyn i'r symudiadau arfaethedig mewn cronfeydd wrth gefn gan y Comisiynydd. Gweithredodd yr Adran Gyllid drosglwyddiadau o gronfeydd wrth gefn ar gyfer gweithgareddau cyfalaf a refeniw cymeradwy ynghyd â sawl trosglwyddiad i gronfeydd wrth gefn presennol ynghyd â chreu cronfeydd wrth gefn newydd i liniaru pwysau yn y dyfodol a chefnogi amrywiol brosiectau a mentrau. £2.434 miliwn oedd cyfanswm y trosglwyddiad o'r cronfeydd wrth gefn ac mae manylion pellach yn adran 5.22.

5.21 Mae cyllideb yr heddlu hefyd yn cynnwys cyfrifon dal sy'n hunan-gydbwyso mewn perthynas â Gan Bwyll, Ailhyfforddi Gyrwyr, swyddi a ariennir ar y cyd a Secondiadau. Effeithiwyd ar weithgareddau Go Safe ac Ailhyfforddi Gyrwyr o ganlyniad i bandemig COVID-19, ond roeddent yn agos i'w lle i gryn raddau o'u cymharu â'r gyllideb. Trosglwyddwyd £77k i gronfeydd wrth gefn gan y Bartneriaeth Gan Bwyll i gefnogi ei gweithgareddau yn y dyfodol mewn perthynas â chyfalaf a refeniw.

5.22 Oherwydd graddfa a chymhlethdod y materion a gododd yn ystod y flwyddyn, roedd llunio asesiad cywir o'r canlyniad terfynol yn heriol ond mae'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn gadarnhaol iawn ac yn rhoi Dyfed-Powys mewn sefyllfa gryfach i ddelio â heriau ariannol yn y dyfodol. Mae'r Heddlu wedi arfer cryn reolaeth ariannol a gofal yn ystod y flwyddyn er gwaethaf heriau gweithredol ac ariannol sylweddol yn ogystal â'r holl ansicrwydd a welwyd yn ystod 2020/21.

5.23 Mae adran olaf ym mharagraff 5.18 uchod yn dangos y symudiadau net ar gronfeydd wrth gefn a chyllid cyfalaf o gymharu â'r gyllideb. Roedd gwariant cyfalaf yn is na'r proffil yn gyffredinol a oedd yn golygu bod y trosglwyddiad o'r Gronfa Gyfalaf a glustnodwyd yn £1.774 miliwn a oedd tua £1.559 miliwn yn is na'r disgwyl adeg gosod y gyllideb.

5.24 Trafodwyd y sefyllfa alldro derfynol yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona a gynhaliwyd ar 20 Mai 2021. Yn y cyfarfod, cymeradwyodd y Comisiynydd sawl symudiad o gronfeydd wrth gefn:

- Cronfa'r Comisiynydd i gefnogi blaenoriaethau Tymor 3 Cynllun yr Heddlu a Throseddu o £428k.
- Cronfa Wrth Gefn Prosiectau Trawsnewidiol i dreialu prosesu robotig a darparu cyllid ar gyfer Cronfa Wrth Gefn Prosiect O'r Dechrau i'r Diwedd ar gyfer dull system gyfan o adeg cofnodi trosedd i'r ymchwiliad o £572k.
- Trosglwyddo £3.052m i'r Gronfa Gyfalaf i leihau gofynion benthyca yn y dyfodol ar gyfer seilwaith cyfalaf TG a fydd yn sicrhau arbedion refeniw blynyddol o ganlyniad i daliadau dyled is.
- £14k ychwanegol i adfer cronfa weithredol y Prif Gwnstabliaid i gyfanswm o £499k.
- £450k ychwanegol i greu cronfa yswiriant a fydd yn cynorthwyo i liniaru effeithiau ariannol newidiadau i lefelau hunan-yswiriant o ganlyniad i godiadau mewn premiymau yswiriant.

- Cronfa wrth gefn o £92k i gynorthwyo i gwrdd ag ôl-groniadau gwasanaeth a oedd wedi codi, o ganlyniad i bandemig COVID-19, yn Goleudy i gefnogi gwasanaethau i Ddioddefwyr.

5.25 Mae'r symudiadau net ar gronfeydd wrth gefn i'w gweld yn y tabl canlynol. Gellir gweld bod cyfanswm y cronfeydd wrth gefn wedi cynyddu o £14.575 miliwn i £17.009 miliwn yn ystod y flwyddyn.

| Cronfa wrth Gefn | Balans Agoriadol 1 Ebrill 2020 £'000 | Balans terfynol 31 Mawrth 2021 £'000 | Sumudiadau Net £'000 | |
|---|---|---|---|---|
| Cronfeydd Cyffredinol | -4,032 | -4,032 | 0 | Dim angen eu defnyddio |
| **Total General Reserve** | **-4,032** | **-4,032** | **0** | |
| Cronfa Yswiriant ac Ymgyfreitha | 0 | -450 | -450 | sefydlwyd y gronfa i liniaru hawliadau ac achosion cyfreithiol |
| Cronfa Refeniw wedi'i Chlustnodi | -774 | 0 | 774 | ailgategoreiddiwyd i fodloni pwysau eraill |
| Cronfa Ymgyrch Talla / COVID-19 | -650 | -411 | 239 | cynyddwyd y gronfa i ymdrin a materion etifeddol ac ol-groniadau |
| Cronfa Weithredol y Prif Gwnstabl | -485 | -499 | -14 | adferwyd i'r lefel optimaidd il liniaru yn erbyn adegau prysur o ran gofynion gweithredol |
| Cronfa Refeniw ar gyfer Prosiectau Trawsnewid | 0 | -572 | -572 | sefydlwyd y gronfa i hwyluso prosiectau trawsnewid sefydliadol |
| Cronfa Goleudy / Gwasanaethau Dioddefwyr | 0 | -92 | -92 | sefydlwyd y gronfa i fodloni ol-groniaudau'r gwasanaeth |
| Cronfa Gynaliadwyedd | -494 | -494 | 0 | dim symudiad |
| Cronfa Refeniw ar gyfer Cymell (poca) | -162 | -136 | 26 | enillion troseddau ychwanegol a dderbyniwyd |
| Cronfa'r Comisiynydd | 0 | -428 | -428 | cronfa newydd i ariannu blaenoriaethau'r Comisiynydd |
| Cronfa Fforffedu | 0 | -37 | -37 | defnydd net |
| Cronfa Gwerthiant Eiddo a Ganfyddir | 0 | -34 | -34 | ychwanegolrwydd net |
| Cronfa'r Cynllun Ailhyfforddi Gyrwyr | -870 | -536 | 334 | defnyddir y gronfa i gefnogi ystod o brosiectau a mentrau cymunedol |
| Cronfa'r Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau | -135 | -95 | 40 | defnyddir y gronfa I ariannu pecynnau profi ar gyfer cyffuriau |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Refeniw Penodol wedi'u Clustnodi** | **-3,570** | **-3,784** | **-214** | |
| Cronfeydd Cyfalaf Eraill wedi'u Clustnodi | -4,964 | -7,414 | -2,450 | trosglwyddiad net i mewn i gefnogi prosiectau cyfalaf TG I negyddu benthyciadau yn y dyfodol |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Cyfalaf wedi'u Clustnodi** | **-4,964** | **-7,414** | **-2,450** | |
| Cronfa Refeniw Cydweithredu | -262 | -262 | 0 | |
| Cronfa Refeniw 'Gan Bwyll' | -313 | -375 | -62 | symudiad net partneriaeth 'Gan Bwyll' |
| Cronfa Gyfalaf 'Gan Bwyll' | -1,008 | -1,023 | -15 | symudiad net partneriaeth 'Gan Bwyll' |
| **Total Ring-Fenced Revenue & Capital Reserves** | **-1,583** | **-1,660** | **-77** | |
| **Is-gyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddadwy (Nodyn 9)** | **-14,149** | **-16,890** | **-2,741** | |
| Grantiau Cyfalaf Heb Gymhwyso | -426 | -119 | 307 | trosglwyddiad net i danategu prosiectau cyfalaf TG I negyddu gofyniad benthyca yn y dyfodol |
| **Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddadwy (Mantolen)** | **-14,575** | **-17,009** | **-2,434** | |

5.26 Mae sefyllfa derfynol y cronfeydd wrth gefn ar gyfer y Comisiynydd yn dangos ffigur o £17.009 miliwn a ddaliwyd ar 31 Mawrth 2021. Mae hyn yn cynnwys swm o £7.533 miliwn i gefnogi ymrwymiadau'r gyllideb gyfalaf yn y dyfodol a chronfa gyffredinol wrth gefn o £4.032 miliwn. Mae hyn yn cynnwys balans o £1.398 miliwn a ddelir ar ran partneriaeth diogelwch ffyrdd "Gan Bwyll" a £262k a ddelir ar gyfer trefniadau cydweithio rhanbarthol.

5.27 O ran Gwariant Cyfalaf, pennodd y Comisiynydd gyllideb wreiddiol o £16.224 miliwn ym mis Chwefror 2020 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21 ac fe'i gostyngwyd i £8.160 miliwn (ynghyd â £616k ar gyfer cynlluniau hunangyllidol) ym mis Chwefror 2021 oherwydd oedi mewn perthynas â nifer o gynlluniau ystadau mawr.

5.28 Ariannwyd y gyllideb gyda grantiau, derbyniadau cyfalaf (drwy werthu asedau), cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a benthyca darbodus. Gwariwyd cyfanswm o £6.240 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae crynodeb o'r sefyllfa gwariant a chyllid derfynol yn erbyn y gyllideb i'w weld yn y tabl isod:

| | Cyllideb Wreiddiol 2020/21 | Cyllideb Ddiwygiedig 2020/21 | Gwariant Gwirioneddol 2020/21 | Amrywiant | Rheswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | |
| **Gwariant Cyfalaf** | | | | | |
| Rhaglen Ystadau | 10,774 | 3,674 | **2,870** | 804 | Pryniant tir wedi'i ohirio ar gyfer Maes tanio (£370k) a llithiradau mewn cynlluniau - Adran Gŵn Pen-bre £238k, cyfrif Canolfan Cyswllt yr Heddlu £138k |
| Cerbydau | 1,085 | 1,201 | **684** | 517 | Gohiriwyd y broses o ddanfon rhai cerbydau i mewn i 2021/22 |
| Prosiectau Mawr TGCh | 2,117 | 1,094 | **560** | 534 | System Rheoli Cofnodion (£192k), Prosiect Agile (£242k) a'r Gronfa Arloesi Technegol (£100k) |
| Amnewidiadau Cylchol ar gyfer Dyfeisiau TGCh | 1,881 | 1,680 | **1,288** | 392 | Rhwydwaith Gwasanaethau'r Heddlu (£149k), Recordio Galwadau'r Pencadlys (£150k), Adfer wedi Trychinebau (£60k) ac eraill (£33k) |
| Amnewidiadau Eraill ar gyfer Offer Cyfalaf | 367 | 511 | **241** | 270 | ANPR (£108k), Seiberdroseddu (£62k) ac Offer Gweithredol arall (£100k) |
| | 16,224 | 8,160 | **5,643** | 2,517 | |
| Prosiect Hunanariannu / Ariannu â'ch Refeniw eich Hun | | 616 | **597** | 19 | |
| **Cyfanswm y Gwariant** | **16,224** | **8,776** | **6,240** | **2,536** | |
| **Ariannu** | | | | | |
| Grant Cyfalaf | (268) | (511) | **(393)** | (118) | Grant wedi'i ddwyn drosodd i 2021/22 |
| Ariannu â Refeniw Uniongyrchol | (850) | (850) | **(791)** | (59) | Llai o ariannu â refeniw uniongyrchol oherwydd llithriadau mewn cylluniau |
| Derbyniadau Cyfalaf - Adeiladau a Cherbydau | | | **(24)** | 24 | Derbyniadau cyfalaf yn sgil gwerthu cerbydau |
| Cronfa Gyfalaf a Ddefnyddiwyd | (4,162) | (3,333) | **(1,774)** | (1,559) | Llai o ddefnydd o gronfeydd oherwydd llithriadau mewn cynlluniau |
| Cronfa Gynaliadwyedd | (170) | (170) | **-** | (170) | Cynllun yn yr arfaeth ar gyfer 2021/22 |
| Benthyca Darbodus | (10,774) | (3,296) | **(2,643)** | (653) | Llai o fenthyca oherwydd llithriadau mewn cynlluniau |
| **Isgyfanswm yr Ariannu** | **(16,224)** | **(8,160)** | **(5,625)** | **(2,535)** | |
| Prosiect Hunanariannu / Ariannu â'ch Refeniw eich Hun | | (616) | **(615)** | (1) | Ar y trywydd iawn |
| **Cyfanswm yr Ariannu** | **(16,224)** | **(8,776)** | **(6,240)** | **(2,536)** | |

5.29 Mae'r Tabl uchod yn dangos y prif amrywiadau yn erbyn y Rhaglen Gyfalaf dros y flwyddyn. Mae anawsterau mewn perthynas ag addasrwydd y safle arfaethedig ar gyfer Prosiect Dalfa Sir Gaerfyrddin wedi arwain at oedi yn y flwyddyn ddiwethaf. Prynwyd safle newydd ym mis Mai 2021 gyda chamau dylunio a chynllunio manwl yn cael eu datblygu trwy gydol 2020/21. Bu

rhywfaint o lithriad hefyd yn erbyn nifer o fân brosiectau sy'n cael eu goruchwylio gan y Grŵp Ystadau Strategol, a bydd angen i'r cyllid hwnnw gael ei gario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf.

5.30 Cafwyd tanwariant o £517k yn erbyn cyllidebau ar gyfer prynu cerbydau ar ddiwedd y flwyddyn, i'w briodoli i amseroedd aros hirach yn gysylltiedig â'u darparu. Mae'r Heddlu'n disodli ei System Rheoli Cofnodion a phrofwyd llithriad yn erbyn y pennawd cyllideb hwn, gydag anawsterau mewn perthynas â gallu symud ymlaen â'r prosiect hwn yn ystod cyfnodau clo. Roedd llithriad hefyd mewn perthynas â'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys a sawl mân brosiect TGCh ac offer newydd, a hynny unwaith eto'n gysylltiedig â phandemig COVID-19.

5.31 O ran cyllid cyfalaf, mae'r llithriant mewn gwariant wedi golygu nad oes angen i'r Comisiynydd fenthyca cymaint â'r disgwyl yn y flwyddyn ariannol gyfredol fel y rhagwelwyd, gyda £2.643m o fenthyca darbodus ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd y trosglwyddiad o'r cronfeydd wrth gefn hefyd yn is o ganlyniad. Mae'r trosglwyddiad o'r gronfa gyfalaf a glustnodwyd yn £1.774 miliwn yn erbyn cyllideb o £3.333 miliwn, sy'n adlewyrchu penderfyniad doeth y Comisiynydd i ategu'r Gronfa Gyfalaf ar ddiwedd y flwyddyn i liniaru benthyca yn y dyfodol a chostau dyledion refeniw canlyniadol.

5.32 Bydd angen gwneud rhagor o waith maes o law i benderfynu a gaiff unrhyw gyllidebau sydd heb eu gwario eu cario drosodd ynghyd â chyllid priodol i flwyddyn ariannol 2021/22.

## 6. Risgiau, Cyfleoedd a'r Rhagolwg Ariannol Tymor Canolig.

6.1 Caiff risgiau eu rheoli ar bob lefel yn y sefydliadau drwy'r Strwythur Llywodraethu a defnyddir Cofrestr Rheoli Risg i gofnodi, rheoli a lliniaru'r prif risgiau a allai effeithio ar y gwaith o gyflawni canlyniadau'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae'r Gofrestr Risg yn ddogfen fyw a gaiff ei diweddaru o leiaf unwaith yr wythnos. Ymhlith y prif risgiau sy'n parhau i'n hwynebu ar ddiwedd 2020/21 mae:

- Cofnodi Troseddau a'r Arolygiaeth yn peri pryder
- Samplau Tocsicoleg Traffig Ffyrdd a gwaith achos Cyffuriau yn agos at allu'r Gwasanaeth Gwyddoniaeth Fforensig i ymdopi;
- Safle wrth gefn Canolfan Rheoli'r Heddlu;
- Ansicrwydd mewn perthynas ag Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2021 ac effaith COVID ar setliadau ariannol;
- Cronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu ac Asedau Gwybodaeth – anghysondeb o ran setiau data;
- Pandemig COVID-19;
- Ystadau - pryderon mewn perthynas â rheoli contractau, adnoddau, rheoli prosiectau, llywodraethu a rheoli ariannol.

6.2 Caiff y Gofrestr Risg ei monitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod risgiau yn cael eu dyrannu i berchennog sy'n gyfrifol am gymryd camau lliniaru priodol. Ceir rhagor o fanylion am reoli risg yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y Cyd a gynhwysir fel rhan o'r ddogfen hon.

6.3 O ran y Rhagolwg Ariannol Tymor Canolig, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi wynebu heriau ariannol sylweddol ers 2010 oherwydd gostyngiadau yn y cyllid gan lywodraeth ganolog ynghyd â phwysau costau a newidiadau parhaus yn y galw am wasanaethau plismona.

6.4 Ym mis Medi 2019, datganodd y Llywodraeth ei bod wedi "troi'r ddalen ar gyni" gyda'r Canghellor yn cyhoeddi ymrwymiad i daclo trosedd a chadw pobl yn ddiogel gyda chynlluniau am 20,000 o swyddogion heddlu ychwanegol.

6.5 Ym mis Gorffennaf 2020, lansiodd y Canghellor yr Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr hir-ddisgwyliedig ond yng nghanol yr ansicrwydd economaidd a achoswyd gan bandemig COVID-19, cafwyd cyhoeddiad ym mis Hydref mai dim ond setliad dros dro am flwyddyn a fyddai'n cael ei nodi ddiwedd mis Tachwedd. Dywedodd y Canghellor "yn yr amgylchedd presennol mae'n hanfodol ein bod yn darparu sicrwydd …… gyda ffocws llwyr ar fynd i'r afael â COVID a chyflawni ein Cynllun ar gyfer Swyddi".

6.6 Nododd y Canghellor y CSR2020 ar 25 Tachwedd a oedd yn cynnwys:

- Rhewi cyflogau sector cyhoeddus (ac eithrio'r GIG) ond gyda diogelwch incwm is i'r rheini sy'n ennill llai na £24,000;
- Mae'r Llywodraeth yn parhau i fod yn ymrwymedig i darged Rhaglen Uplift yr Heddlu gyda 6,000 o swyddogion eraill i'w recriwtio yn 2021/22.

6.7 Yn amlwg mae effaith y diffyg parhaus o eglurder tymor hwy ac ansicrwydd ynghylch cyllid grant craidd a phenodol yn ei gwneud yn anodd iawn cynllunio yn y tymor byr a chanolig ac mae'r APCC a'r NPCC cenedlaethol ynghyd â'u gweithgorau priodol yn parhau i weithio'n agos gyda'r Swyddfa Gartref i gyflwyno sylwadau lle bynnag y bo modd.

6.8 Wrth amlinellu'r setliadau, cydnabu'r Ysgrifennydd Cartref a'r Gweinidog Plismona yr ymgysylltiad cynhyrchiol a gawsant â'r gwasanaeth, a oedd wedi rhoi darlun cliriach o natur newidiol y galwadau a'r galluoedd sydd eu hangen er mwyn ymateb yn gadarn i'r heriau. Talwyd teyrnged ganddynt hefyd i heddluoedd a staff yr heddlu ledled y wlad am eu dewrder, eu hymroddiad a'u gwaith caled eithriadol, ac amlinellwyd bwriad i ddarparu'r adnoddau yr oedd ar y gwasanaeth eu hangen er mwyn mynd i'r afael â throseddu, delio'n gadarn â'r troseddwyr sy'n ecsbloetio pobl fregus a gwella canlyniadau i ddioddefwyr troseddau.

6.9 Nododd yr Ysgrifennydd Cartref a'r Gweinidog Plismona grant dros dro yr heddlu ar 17 Rhagfyr 2020 gan gydnabod dewrder rhagorol yr heddlu, eu hymrwymiad i wasanaeth cyhoeddus a chyflymder a hyblygrwydd yr oedd swyddogion a staff yr heddlu wedi ymateb i'r heriau digynsail a ddaeth yn sgil pandemig COVID-19. Fe wnaethant hefyd gydnabod y cynnydd sylweddol wrth gyflawni blwyddyn gyntaf Rhaglen Uplift yr Heddlu gyda 5,824 o swyddogion ychwanegol eisoes wedi'u recriwtio erbyn diwedd mis Medi gyda disgwyliad am fomentwm parhaus.

6.10 Mae setliad 2021/22 yn darparu cyfanswm o hyd at £15.8 biliwn ar gyfer plismona, gyda chyllid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn cynyddu hyd at £703m yn ychwanegol, gan gynnwys y rhagdybiaeth ynghylch hyblygrwydd lleol i gynyddu praesept y dreth gyngor.

6.11 Y setliad grant ar gyfer Dyfed-Powys yn 2021/22 yw £59.529m, sef £2.921 m (5.2%) yn uwch na 2020/21. Mae'r setliad hwn yn cynnwys parhau â'r grant penodol o £1.302m a gyflwynwyd yn 2019/20 i liniaru'n rhannol y pwysau a ddeilliai o'r newidiadau i gyfradd cyfraniadau cyflogwyr ar gyfer pensiynau Swyddogion yr Heddlu. Mae setliad 2021/22 yn cynnwys o fewn ei waelodlin, y cyllid ychwanegol i gefnogi cyfran gyntaf y Rhaglen Uplift ynghyd â grant penodol wedi'i glustnodi o £700k i gefnogi costau recriwtio swyddogion ychwanegol fel rhan o'r ail garfan a fydd yn cael ei dalu yn amodol ar berfformiad recriwtio. I Heddlu Dyfed-Powys, mae hyn yn cyfateb i 42 Swyddog pellach, gyda 2 yn cael eu neilltuo i gefnogi blaenoriaethau a gwaith yr Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol. Mae'r setliad hefyd yn adlewyrchu bod y gostyngiad blaenorol i'r grant Cyfalaf yn cael ei gynnal ar £85k (2019/20: £325k).

6.12 Cyhoeddodd setliad grant yr heddlu hefyd hyblygrwydd praesept ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn Lloegr o £15 fesul eiddo band D, ac mae'r prif ffigurau a gyhoeddwyd yn

natganiad y Llywodraeth i'r wasg wedi tybio y bydd pob Comisiynydd yng Nghymru a Lloegr yn manteisio i'r eithaf ar yr hyblygrwydd hwn.

6.13 Wrth amlinellu eu disgwyliadau ar gyfer canlyniadau ac effeithlonrwydd, mae'r Llywodraeth wedi adlewyrchu £120m o arbedion i'w cyflawni trwy gyfuniad o arferion caffael gwell, gan gynnwys darparu £20m trwy'r Bwrdd Masnachol Cenedlaethol yn ogystal ag arbedion mewn meysydd fel ystadau, gweithio ystwyth. a gwasanaethau a rennir/galluogi. Disgwylir y bydd sefydlu Bwrdd Effeithlonrwydd mewn Plismona newydd yn gwella'r sylfaen tystiolaeth effeithlonrwydd ac yn nodi cyfleoedd pellach ar gyfer enillion yn y dyfodol.

6.14 Yn dilyn proses graffu fanwl a thrafodaethau ynglŷn â thybiaethau ariannol, risgiau sy'n parhau i fygwth y cymunedau a blaenoriaethau o ran buddsoddi, cyflwynodd y Comisiynydd ei gynnig praesept ar gyfer 2021/22 a Chynllun Ariannol Tymor Canolig 2025/26 i Banel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys ar 5 Chwefror 2021. Roedd y broses hon yn cynnwys nifer o seminarau a chyflwyniadau i'r Comisiynydd, ei staff, y Cydbwyllgor Archwilio, Aelodau'r Panel Heddlu a Throseddu a staff o Archwilio Cymru.

6.15 Cefnogwyd cynnig y Comisiynydd gan y Panel Heddlu a Throseddau, a oedd yn codi'r praesept cyfartalog ar gyfer eiddo band D o £15 i £275.56, cynnydd o 5.76% sy'n codi cyfanswm praesept o £62.307m. Bydd hyn yn rhoi cyfanswm cyllid canolog a lleol o £119.834m sy'n cynrychioli cynnydd o 6.13% ar lefelau ariannu yn 2020/21.

6.16 Mae hyn, unwaith eto, yn golygu mai praesept y dreth gyngor Heddlu Dyfed-Powys, sef £275.56, yw'r isaf yng Nghymru o gymharu â £287.71 yn Ne Cymru, £287.96 yng Ngwent a £303.91 yng Ngogledd Cymru. Mae'n werth tynnu sylw hefyd at y ffaith bod Dyfed-Powys wedi cael y cynnydd isaf ond pedwar ym mhraesept y dreth gyngor ledled Cymru a Lloegr ers 2012/13.

6.17 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys cynnydd tybiedig o 5% yn y praesept o flwyddyn i flwyddyn ac yn ymgorffori twf tybiedig o 2% mewn cyflogau a phwysau chwyddiant o 2022/23 ymlaen. Mae'n modelu pwysau twf a chostau uwch hysbys a grantiau penodol a allai gael eu colli ac mae'n cynnwys cynnydd cynyddol mewn cyfraniad at gyllido cyfalaf chostau benthyca i gefnogi'r Blaenraglen Gyfalaf. Mae gwariant ychwanegol pellach ar nifer o flaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, ynghyd â'r costau ychwanegol sy'n deillio o newidiadau i bensiynau'r heddlu, wedi cael eu cynnwys.

6.18 Mae'r heddlu'n parhau i nodi mesurau effeithlonrwydd ac mae ganddo gynllun lleihau costau sy'n anelu at fanteisio ar fentrau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol gan gynnwys y Bwrdd Masnachol Cenedlaethol, Cwmni TGCh yr Heddlu a gweithgarwch cydweithio drwy Gymru gyfan. Mae'r cynllun hwn yn tybio y caiff y gweithlu a'r sylfaen costau eu had-drefnu drwy effeithlonrwydd a chynhyrchiant ond bydd rhaid parhau i ddatblygu hyn i alluogi'r Comisiynydd a'r Heddlu i bennu sefyllfa ariannol tymor canolig gytbwys a chynaliadwy a ariennir ar gyfer refeniw a chyfalaf gan warchod safon y gwasanaeth a roddir i gymunedau Dyfed Powys.

| Cynllun Ariannol Tymor Canolig - Refeniw | 2021/22 £'000 | 2022/23 £'000 | 2023/24 £'000 | 2024/25 £'000 | 2025/26 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllid Canolog a Lleol | | | | | |
| Cyllid Canolog Rhagweledig | (57,527) | (57,527) | (57,527) | (58,390) | (59,266) |
| Praesept Lleol | (62,307) | (66,142) | (69,935) | (73,946) | (78,186) |
| **Cyfanswm y Cyllid** | **(119,834)** | **(123,669)** | **(127,462)** | **(132,336)** | **(137,452)** |
| Gwariant Refeniw | 121,428 | 124,844 | 129,021 | 133,221 | 138,147 |
| **Gwariant Refeniw** | **121,428** | **124,844** | **129,021** | **133,221** | **138,147** |
| Cynllun Lleihau Costau yn y Dyfodol | | | | | |
| Prosiect o'r Dechrau i'r Diwedd | 0 | (100) | (125) | (50) | 0 |
| Canolfan Cyswllt yr Heddlu - Rhaglenni Newid | (110) | (155) | (105) | 0 | 0 |
| Adran Newid Busnes - Targed Effeithlonrwydd y Gellir ei Droi'n Arian | (70) | (70) | (70) | (70) | (70) |
| Prosiect Datblygu a Thrawsnewid | (50) | (50) | (50) | (50) | (50) |
| Rhaglen TGCh | (60) | (50) | (400) | 100 | 0 |
| Targed Cynaliadwyedd | (220) | (175) | (144) | (60) | (60) |
| Cynhyrchu Incwm | (50) | (100) | (25) | (25) | (25) |
| Rhannu Gwasanaeth / Her Cefn Swyddfa | (547) | (275) | (250) | (250) | (250) |
| Adferiad Agile / Talla | (237) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arbedion y Gweithlu | (250) | (200) | (390) | (480) | (240) |
| **Gostyngiadau Blynyddol Arfaethedig** | **(1,594)** | **(1,175)** | **(1,559)** | **(885)** | **(695)** |
| **Cyllideb Refeniw Net** | **119,834** | **123,669** | **127,462** | **132,336** | **137,452** |
| **Diffygion yn y Dyfodol** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |

6.19 Pennodd y Comisiynydd raglen gyfalaf o £86.803 miliwn ar gyfer 2021/22 i 2025/26 sy'n cynnwys buddsoddiad yn yr Ystadau, y Fflyd a seilwaith TGCh ar gyfer prosiectau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r buddsoddiad hwn wedi cael ei flaenoriaethu tuag at flaenoriaethau strategol, gwariant na ellir ei osgoi, meysydd sy'n lleihau gwariant refeniw yn y dyfodol ac mae'n cydnabod yr angen i baratoi'n ddigonol er mwyn wynebu gofynion newidiol plismona yn yr unfed ganrif ar hugain.

6.20 Fel yr aminellwyd uchod, bu lleihad sylweddol yn y cyllid cyfalaf craidd a ddyrennir gan y Swyddfa Gartref dros y blynyddoedd diwethaf sef i £85k yn unig. Mae'r rhaglen gyfalaf yn gweld y bydd y cronfeydd cyfalaf wrth gefn yn cael eu disbyddu ac mae'n cynnwys gofynion benthyca allanol o £64.879m. Bydd y rhan fwyaf o'r benthyca hwn yn ariannu adeiladu dalfa newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin, yn cynnig datrysiad ar gyfer y cyfleuster heddlu sydd angen ei moderneiddio yn Aberhonddu, ac yn ariannu'r cyfleuster hyfforddi newydd ar gyfer y Cyd-Uned Arfau Saethu. Er mwyn bodloni gofynion buddsoddi cyfalaf yn y dyfodol a lliniaru'r lleihad mewn arian grant cyfalaf, mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r rhaglen gyfalaf yn cynnwys cynyddu cyfraniadau refeniw i gyfalaf.

6.21 Mae'r Comisiynydd yn ystyried ei Strategaeth Gyfalaf bob blwyddyn ac mae hefyd yn asesu ei ofynion benthyca bob blwyddyn er mwyn sicrhau eu bod yn ddarbodus, yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy. Mae'r dogfennau hyn ar gael ar wefan Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/10754/capital-strategy-2122.pdf

6.22 Caiff y Rhaglen Gyfalaf ei diwygio i adlewyrchu'r sefyllfa alldro derfynol ar gyfer 2020/21 a chaiff ei hadolygu'n rheolaidd fel rhan o'r gwaith parhaus ar gyfer ailasesu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

6.23 Mae'r Comisiynydd yn ystyried ac yn cyhoeddi strategaeth flynyddol ynglŷn â chronfeydd wrth gefn sy'n ategu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'i asesiad o'r amlygiad i risg a mesurau lliniaru. Mae'r strategaeth cronfeydd wrth gefn yn ystyried digonolrwydd cronfeydd cyffredinol wrth gefn ac yn ystyried y risgiau strategol, gweithredol ac ariannol sy'n wynebu Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r ystyriaethau hyn hefyd yn rhoi sylw i ganllawiau'r Swyddfa Gartref ar Gronfeydd wrth Gefn yr Heddlu. Mae'r sefyllfa alldro terfynol ar gyfer 2020/21 yn adlewyrchu sawl trosglwyddiad i gronfeydd wrth gefn sydd, heb os, yn cryfhau gwytnwch ariannol Dyfed-Powys.

https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/10623/reserves-strategy-english.pdf

6.24 Fel yr amlinellwyd yn Adran 3, cyflwynodd Heddlu Dyfed-Powys ei drydydd Datganiad Rheoli Heddlu i Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi sy'n rhoi disgrifiad cynhwysfawr o'r prif heriau gweithredol a chymorth busnes y mae Heddlu Dyfed-Powys yn eu hwynebu. Mae hwn yn ystyried gallu ac adnoddau Heddlu Dyfed-Powys yng nghyd-destun ymdrin â'r galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Yn gryno, mae'r ddogfen yn nodi heriau sy'n adlewyrchu'r meysydd hynny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Risg i raddau helaeth ond mae hefyd yn tynnu sylw at heriau mewn perthynas â phobl sy'n agored i niwed, cam-drin domestig a throseddau rhyw / treisgar fel meysydd lle y rhagwelir y bydd galw'n cynyddu yn y dyfodol.

6.25 Gwnaed ymdrechion sylweddol i gryfhau'r ffocws a'r cysylltiad rhwng Datganiad Rheoli'r Heddlu a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Gweithiodd Cyllid Corfforaethol gyda'r arweinwyr gwasanaeth i gostio risgiau a nodwyd yn Natganiad Rheoli'r Heddlu, gyda Phrif Swyddogion yn cynnal Diwrnod Blaenoriaethu ym mis Tachwedd 2020 i adolygu a herio ymhellach y blaenoriaethau a aseswyd ar gyfer risg. Ar hyn o bryd, bwriedir cyflwyno'r Datganiad Rheoli Heddlu nesaf yn hydref 2021 gyda chryfhau pellach ar y gweill.

6.26 Mae'r Comisiynydd a Heddlu Dyfed-Powys hefyd yn wynebu nifer o ymrwymiadau ariannol anhysbys posibl yn y dyfodol y cyfeirir atynt ymhellach yn y nodyn ar rwymedigaethau digwyddiadol a'r nodyn ar bensiynau, gan gynnwys:

- Her Gyfreithiol Pensiwn yr Heddlu – Enillion Gyrfa Cyfartalog a Ailbrisiwyd
- Ymchwiliad i Blismona Cudd
- Hawliadau Lwfans Ar Alw Uned Ymdrin Ffynhonnell Benodedig
- Hawliad yn ymwneud â Lwfansau Staff yr Heddlu sy'n ymwneud â materion cydredol

6.27 Mae'r rhwymedigaeth pensiwn a ddangosir yn y Fantolen a'r symudiad costau ar gyfer y flwyddyn a gynhwysir yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant hwn yn ystyried goblygiadau posibl dyfarniad McCloud a Sargeant ym mhenderfyniad y Llys Apêl bod Diwygiadau Pensiynau Sector Cyhoeddus 2015 y Llywodraeth wedi trin pobl yn wahanol yn anghyfreithlon ar sail oedran, ers 1 Ebrill 2012. Mae hyn yn effeithio ar gynlluniau pensiwn Swyddogion a Staff yr Heddlu (Llywodraeth Leol). Cyhoeddwyd y rhwymedi olaf ym mis Chwefror 2021, ac mae cryn dipyn o waith ar y gweill i weithio trwy'r goblygiadau. Mae amcangyfrif actiwaraidd o'r effaith ariannol wedi'i gynnwys fel cost gwasanaeth yn y gorffennol. O ran Cynlluniau Pensiwn Llywodraethau Lleol, cynyddwyd Cyfradd Cyfraniad y cyflogwr 1.2% o fis Ebrill 2020 er mwyn ystyried y costau ychwanegol rhagamcanol fel rhan o

brisiad pensiynau 2019. O ran Swyddogion yr Heddlu, ni fydd newidiadau i gyfradd cyfraniadau pensiwn cyflogwyr Swyddogion yr Heddlu yn cael eu gweithredu tan 2023/24 neu'n wir 2024/25.

6.28 Erys ansicrwydd mewn perthynas ag Adolygiadau Gwariant yn y dyfodol. Mae goblygiadau ariannol pandemig COVID-19 a'i effaith ar yr economi ehangach yn helaeth ac mae'r Canghellor eisoes wedi nodi bod dewisiadau anodd o'u blaenau. Mae rhwydweithiau APCC a NPCC yn parhau i weithio'n agos gyda'r Swyddfa Gartref a phartneriaid plismona ehangach i ddatblygu cyflwyniadau gorfodaeth cyfraith cydgysylltiedig gyda'r nod o hwyluso ystyriaethau gwariant.

6.29 Mae'r sefyllfa o ran yr Adolygiad o'r Fformiwla Gyllido hefyd yn ansicr, fodd bynnag, deellir y gallai'r Swyddfa Gartref ail-fywiogi'r adolygiad hwn, yn enwedig os bydd setliad aml-flwyddyn. Byddai effaith yr adolygiad diwethaf na chafodd ei weithredu wedi arwain at £8 miliwn yn llai ar gyfer Dyfed-Powys.

6.30 Fel yr amlinellwyd o'r blaen, cafwyd llawer o sylwadau annibynnol dros y blynyddoedd diwethaf mewn perthynas â chynaliadwyedd, ariannu, gwytnwch a chynnydd o ran beichiau'r heddlu sy'n parhau i amlygu maint heriau i'r dyfodol.

6.31 Cyhoeddodd CIPFA ei God Rheolaeth Ariannol (FM) yn ystod 2020 sydd wedi'i gynllunio i gefnogi arfer da mewn rheolaeth ariannol ac i gynorthwyo i ddangos gwytnwch ariannol a chynaliadwyedd. Mae'r Cod FM yn seiliedig ar saith safon rheoli ariannol sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth, atebolrwydd, tryloywder, safonau, sicrwydd a chynaliadwyedd a phob un â nifer o agweddau sylfaenol. Er mwyn dangos bod gofynion y cod yn cael eu bodloni, cynhaliwyd yr hunanasesiad cyntaf yn ystod 2020/21. Dangosodd hyn lefel uchel o gydymffurfiaeth ond tynnodd sylw at ychydig o feysydd i'w gwella yn benodol o ran dangosyddion gwytnwch ariannol a dadansoddiad sensitifrwydd mewn perthynas â newidiadau i'r galw am wasanaethau. Manylir ar y meysydd gwella hyn yn y cynllun gweithredu sydd wedi'i gynnwys yn yr AGS.

## 7. Ymateb a Goblygiadau Pandemig y Coronafeirws

7.1 Fel yr amlinellwyd eisoes, yn gynnar yn 2020 gwelwyd yr argyfwng cenedlaethol a ddatblygodd yn sgil pandemig y Coronafeirws. Cafwyd ymateb digynsail i hyn ymhlith y sector cyhoeddus yn gyffredinol ac yn benodol ym maes plismona wrth iddo addasu'n gyflym i orfodi deddfwriaeth newydd y DU a Chymru, gan hefyd gynnal y gwaith o ddarparu gwasanaeth a diogelu ei weithlu.

7.2 Cymerodd Dyfed-Powys ystod o gamau cynnar er mwyn sicrhau ei fod yn barod i ymateb ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Roedd y trefniadau llywodraethu a sefydlwyd yn sylweddol a phellgyrhaeddol er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar berfformiad gweithredol a sefydliadol a darpariaeth gwasanaethau yn optimaidd ac yn ddeinamig er mwyn ymateb yn briodol i'r sefyllfa a oedd yn datblygu, gydag iechyd a llesiant y gweithlu y pwysicaf oll. Mae'r strwythurau Trefn Reoli Aur, Arian ac Efydd yn gweithio ar y cyd â Grŵp Trefn Reoli Strategol, Grŵp Trefn Reoli Tactegol a'r Fforwm Lleol Cymru Gydnerth; amlinellir y trefniadau llywodraethu ymhellach yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae grwpiau llywodraethu priodol wedi cyflwyno achosion gan gynnwys Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu i barhau i hwyluso gwaith goruchwylio a chraffu.

7.3 Mae diogelwch a llesiant y gweithlu wedi bod yn hollbwysig yn yr ymateb plismona, a defnyddiwyd gwahanol gamau ar gyfer defnyddio'r gweithlu wrth i'r argyfwng ddatblygu.

Cymerwyd nifer sylweddol o gamau cychwynnol i sicrhau parhad busnes, gwytnwch a'r broses o ddarparu gwasanaethau allweddol gan weithredu ffyrdd newydd ac arloesol o weithio mewn sawl maes ynghyd â gweithio ystwyth i bron pob aelod o staff anweithredol.

7.4 Roedd goresgyn yr heriau y mae pob sector ledled y DU yn eu hwynebu o ran cyflenwad Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) wedi ei gwneud yn ofynnol i'r heddlu fabwysiadu gweithdrefnau caffael brys er mwyn cyrchu cyfarpar o'r fath mewn modd amserol. Mae'r Heddlu wedi gallu cynnal lefelau priodol ar gyfer sicrhau diogelwch y gweithlu. Mae gweithwyr caffael proffesiynol wedi parhau i weithio gydag arweinwyr gwasanaethau i asesu a monitro'r cadwyni cyflenwi a sefyllfa'r cyflenwyr sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar ddarparu gwasanaethau yn llwyddiannus. Ar ôl llawer o bwysau cenedlaethol ac adrodd misol manwl ar gostau, cyhoeddodd y Gweinidog Plismona y byddai'r Swyddfa Gartref yn darparu cyllid grant ar gyfer yr holl PPE gradd feddygol, gyda chyflenwadau yn y dyfodol yn cael eu cyrchu trwy drefniadau caffael canolog heb unrhyw gost i'r Heddlu.

7.5 O ran y galw, ac yn unol â'r holl heddluoedd eraill, mae Dyfed-Powys wedi gweld gostyngiad ystadegol arwyddocaol yn nifer y troseddau y rhoddir gwybod amdanynt. Fodd bynnag, mae adroddiadau am achosion o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol wedi cynyddu'n aruthrol, yn bennaf o ganlyniad i adroddiadau am dorri rheolau'r cyfyngiadau clo. Mae'r Heddlu wedi bod yn rhagweithiol wrth ymdrin â materion yn ymwneud â theithio nad yw'n hanfodol gan bobl sy'n dymuno teithio i fwynhau ardal yr heddlu a'r rhai sy'n dymuno ymweld ag ail gartrefi yn yr ardal. Cafodd ymgyrch benodol ei chynnal hefyd i rybuddio yn erbyn cynulliadau torfol posibl yn ystod y cyfnodau clo cenedlaethol a lleol.

7.6 Cafodd gweithred ei chynnwys yn AGS 2020/21 i sefydlu a monitro cynllun adfer i nodi trefniadau darparu gwasanaeth sefydliadol a gweithredol newydd a gwell i ddeall gwersi a ddysgwyd o'n hymateb i bandemig COVID-19. Mae Adferiad Ymgyrch Talla yn cael ei ailintegreiddio i strwythur llywodraethu'r Heddlu gyda nifer o ffrydiau gwaith penodol yn cael eu dwyn ymlaen gan y Grŵp Adfer, Newid a Thrawsnewid sydd newydd ei ail-lunio, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Brif Gwnstabl. Bydd y cynllun adfer yn gysylltiedig yn gynhenid â rhaglen rheoli newid newydd yr Heddlu, a bydd yn elwa o'r gwaith sylweddol a wneir gan y timau Dysgu Sefydliadol a Gwireddu Buddion a'r adran Llywodraethu a Newid yn y drefn honno.

7.7 Mae buddion newidiadau i arferion gwaith, cyflwyno TG ac offer i hwyluso gweithio o bell a rheoli lles y gweithlu yn effeithiol yn allweddol i ddeall sut y bydd y sefydliad yn darparu gwasanaethau'n gynaliadwy i'r cyhoedd, yn y dyfodol.

7.8 Effeithiodd goblygiadau pandemig COVID-19 ar draws nifer sylweddol o gyllidebau o ganlyniad i'r newidiadau i drefniadau gweithio, galw gweithredol a gofynion darparu gwasanaeth gydag arbedion o ganlyniad i hynny mewn rhai meysydd ond pwysau costau a cholli ffrydiau incwm mewn meysydd eraill. Cafodd yr effeithiau ariannol eu monitro trwy adrodd yn aml i'r Bwrdd Plismona a'r Bwrdd Atebolrwydd Plismona trwy gydol y flwyddyn. Ar ben hynny, roedd y Swyddfa Gartref yn adrodd yn fisol am gostau a cholledion incwm.

7.9 Gweithiodd rhwydweithiau APCC a NPCC yn agos gyda'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â goblygiadau ariannol pandemig COVID-19 gydag adroddiadau manwl yn cael eu gwneud yn fisol. O ganlyniad, cadarnhaodd y Gweinidog Plismona a'r Swyddfa Gartref grantiau ychwanegol yn ystod y flwyddyn:

- Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn talu holl gostau PPE gradd feddygol, ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys sy'n cyfateb i £347k gyda chyflenwadau PPE yn y dyfodol yn cael eu cyrchu trwy drefniadau caffael canolog heb unrhyw gost i'r Heddlu.

- Dwy gyfran o Gyllid Gorfodi/Ymchwydd ar gyfer mwy o orfodaeth/costau COVID gyda'r disgwyliad y byddai pawb yn gweld ar unwaith mwy o orfodaeth gan yr heddlu o ran cyfyngiadau COVID. Dyrannwyd £212k a £410k i Heddlu Dyfed-Powys.

- Cynllun adfer colledion incwm ar gyfer Comisiynwyr ar gyfer 2020/21 a oedd yn cydnabod yr incwm a gollwyd ar werthiannau, ffioedd a thaliadau disgwyliedig o ganlyniad i bandemig COVID-19. Fe wnaeth y cynllun hwn alluogi heddluoedd i adennill 75c ym mhob £1 o incwm coll cymwys unwaith y byddai PCC wedi amsugno 5% y gellir ei ddidynnu. Collodd Heddlu Dyfed-Powys £488k o incwm yn y cyfnod rhwng Rhagfyr 2020 a Mawrth 2021 ac roedd yn gymwys i hawlio grant o £319k,

7.10 Cynhaliwyd Prisiad y Cynlluniau Pensiwn ar gyfer Swyddogion a Staff gan Mercer ac mae hwn yn darparu asesiad arbenigol annibynnol o werth presennol rhwymedigaethau ac asedau pensiwn yn y dyfodol, fel y'u haseswyd ar 31 Mawrth 2021. Adlewyrchir y newidiadau yn y prisiadau dros y flwyddyn yng nghost y gwasanaeth, a adroddir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ôl arferion cyfrifyddu priodol.

7.11 Mewn cylchlythyr dyddiedig 31 Mawrth 2020, cadarnhaodd Mercer fod rhagdybiaethau actiwaraidd wedi eu pennu yn fuan ar ôl diwedd y flwyddyn – a olygai fod effaith y cythrwfl yn y farchnad a ddaeth yn sgil pandemig Covid-19 wedi ei hymgorffori. Ym mis Mawrth 2020, cafwyd gostyngiadau sylweddol mewn marchnadoedd ecwiti sydd wedi effeithio ar werth Asedau a ddelir o dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a ariennir. Fel cynllun heb ei ariannu, nid yw hyn yn effeithio ar Gynllun Pensiwn yr Heddlu.

7.12 Roedd Cyngor Sir Gâr (gweinyddwyr ein pensiwn) wedi adrodd o'r blaen fod effaith pandemig COVID-19 ar werthoedd asedau ar gyfer ei gynlluniau wedi gostwng tua 14% rhwng mis Rhagfyr 2019 a mis Mawrth 2020. Fodd bynnag, erbyn diwedd mis Mawrth 2021, mae cynnydd. mewn marchnadoedd stoc wedi gweld adferiad graddol a pharhaus dros y chwech i naw mis blaenorol gyda'r mwyafrif o ddosbarthiadau asedau yn perfformio'n dda ar wahân i eiddo a oedd wedi perfformio'n wael dros y deuddeg mis gyda gostyngiad o 1.8%.

7.13 Yn y cylchlythyr cyfatebol dyddiedig Mawrth 2021 cyfeiriodd yr actiwarïaid eto at gythrwfl parhaus ond mae'n werth nodi bod gwerthoedd asedau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Heddlu Dyfed Powys wedi cynyddu o £131.6m ym mis Mawrth 2020 i £170.5m ym mis Mawrth 2021.

7.14 Mae'r cylchlythyr hefyd yn cyfeirio at newidiadau sylfaenol Cyfrifiadau Chwyddiant Prisiau Manwerthu (RPI), yn rhannol oherwydd bod Awdurdod Ystadegau'r DU a Thrysorlys Ei Mawrhydi yn cadarnhau newid i'r fformiwla RPI sydd wedi golygu bod angen newid rhagdybiaethau. Y canlyniad net yw bod dyfarniad cyflog yn y dyfodol, codiadau pensiwn a thybiaethau chwyddiant wedi cynyddu 0.6% ar draws y Cynlluniau Swyddogion Heddlu a Staff yr Heddlu. Mae hyn ynghyd â newid bach yn y gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir fel rhan o'r cyfrifiad wedi cyfrannu at gynnydd o £271.6m yn y rhwymedigaeth pensiwn amcangyfrifedig ar draws y ddau gynllun ar ddiwedd y flwyddyn.

7.15 Ar gyfer Cynllun Pensiwn Staff yr Heddlu, mae abrisiant prisio asedau yn gwrthbwyso hyn i raddau helaeth, fodd bynnag, ar gyfer Cynllun Pensiwn yr Heddlu nad oes ganddo unrhyw

asedau fel cynllun talu wrth fynd ymlaen heb ei ariannu, mae hwn yn gynnydd sy'n disgyn yn llawn ar y fantolen ac fe'i cofnodir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr o dan cost net y gwasanaeth.

7.16 Cyfeirir at y rhagdybiaethau hyn yn fanylach yn y nodyn pensiwn manwl.

7.17 Mae'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd ill dau wedi parhau i ymgysylltu'n rhagweithiol â Llywodraeth Cymru a'r DU. Ar ben hynny, mae cyswllt agos wedi cael ei gynnal drwyddo gydag Aelodau lleol y Senedd ac Aelodau Seneddol gyda sesiynau briffio a chyfarfodydd yn cael eu cynnal gan y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd ar gyfer cynrychiolwyr etholedig. Roedd y trafodaethau'n cynnwys tensiynau cymunedol ynghylch ail gartrefi, a'r hyn sy'n gyfystyr â theithio hanfodol. Rhoddodd hyn gyfle i'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd ddarparu arweiniad clir ar sut roedd swyddogion yn gorfodi'r ddeddfwriaeth.

7.18 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2021/22 a'i gynlluniau a'i strategaethau cysylltiedig, a gymeradwywyd ym mis Chwefror 2021, yn adlewyrchu nifer o dybiaethau. Bydd gwaith yn parhau i asesu'r goblygiadau ariannol ar gyfer 2021/22 a thu hwnt, ond gall y rhain gymryd amser i grisialu o ran y materion lleol a'u heffaith ond hefyd o fewn y dirwedd economaidd ehangach. Mae graddfa ymyriadau economaidd y Llywodraeth wedi bod yn enfawr, a heb os, bydd gan hyn oblygiadau sylweddol i wasanaethau cyhoeddus a chyllid yn y dyfodol. Erys cryn ansicrwydd mewn perthynas ag effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol pandemig COVID-19 ar lefelau cyllid y llywodraeth yn y dyfodol, grantiau penodol, adolygiad gwariant cynhwysfawr, adolygiad fformiwla ariannu, effeithiau ar sylfaen y dreth gyngor, amodau'r farchnad ar gyfer cyflenwi nwyddau a gwasanaethau, y gallu i gyflawni cynlluniau effeithlonrwydd a'r effaith ar brosiectau lleol a chenedlaethol.

7.19 Sefydlodd y Comisiynydd gronfa COVID wrth gefn newydd ar ddiwedd 2019/20 i gynorthwyo i liniaru pwysau ariannol ac er bod rhan o hyn wedi'i hail-gategoreiddio yn ystod y flwyddyn, bydd £411k yn cael ei ddal i gwrdd â chostau cysylltiedig yn y dyfodol a chynorthwyo i liniaru materion etifeddiaeth o ganlyniad i bandemig COVID-19, gan gynnwys oedi wrth ddarparu hyfforddiant hanfodol.

7.20 Cyhoeddodd yr Arolygiaeth adroddiad *Policing in the COVID-19 Pandemic* a roddodd gipolwg ar blismona rhwng Mawrth a Thachwedd 2020, er nad oedd Dyfed-Powys yn ymwneud yn uniongyrchol â'r arolygiad, cyflwynwyd ymateb.

Policing in the COVID-19 pandemic: The police response to the coronavirus pandemic during 2020 (justiceinspectorates.gov.uk)

7.21 Mae'r adroddiad cynhwysfawr yn tynnu sylw at ymroddiad ac ymrwymiad y Swyddogion a'r staff ym mhob agwedd ar Blismona. Mae hyn yn cynnwys Swyddogion yn agored i fwy fyth o risg nag arfer a bod yn hyblyg wrth addasu i newidiadau sylweddol yn eu ffyrdd o weithio a mabwysiadu rolau a chyfrifoldebau newydd. Fe wnaeth y mwyafrif o heddluoedd wella eu defnydd o dechnoleg, gyda rhai ohonynt yn cynnig buddion tymor hir i effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd. At ei gilydd, roedd y canfyddiadau'n gadarnhaol a bod yr heddlu wedi ymateb yn dda i'r amgylchiadau anodd a gyflwynwyd gan bandemig COVID-19, ond mae'r adroddiad hefyd yn gwneud sawl argymhelliad a fydd yn cael eu hystyried a'u gweithredu fel y bo'n briodol.

## 8 Sail Gwaith Paratoi a Chyflwyno

8.1 Dyma'r nawfed set o gyfrifon statudol a baratowyd o dan y trefniadau llywodraethu newydd. Mae'n rhaid i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl fel endidau cyfreithiol ar wahân baratoi eu

Datganiadau o Gyfrifon eu hunain, gyda'r Comisiynydd yn gyfrifol hefyd am baratoi Cyfrifon y Grŵp, sy'n cynnwys cyfrifon y Comisiynydd.

8.2 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraeth leol baratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol ag arferion priodol. Ystyrir mai Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth sy'n cynrychioli arferion priodol.

8.3 Mae'r canlynol yn esbonio'r datganiadau sy'n dilyn, eu diben a'r gydberthynas rhyngddynt:

- **Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol** – mae hwn yn nodi barn yr archwilydd allanol, sef Archwilydd Cyffredinol Cymru, ynghylch p'un a yw cyfrifon y Grŵp yn rhoi 'darlun gwir a theg' o sefyllfa ariannol a gweithrediadau'r Comisiynydd ar gyfer 2020/21;
- **Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad o Gyfrifon** – mae'r datganiad hwn yn nodi cyfrifoldebau'r Comisiynydd a'i Brif Swyddog Cyllid;
- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** - mae'r datganiad craidd hwn yn crynhoi'r adnoddau a gynhyrchwyd ac a ddefnyddiwyd wrth ddarparu gwasanaethau plismona a gostwng troseddu yn ystod y flwyddyn. Mae'n cynnwys treuliau o ddydd i ddydd ac incwm cysylltiedig ar sail croniadau, yn ogystal â thrafodion yn mesur gwerth asedau sefydlog a ddefnyddiwyd mewn gwirionedd a gwerth amcangyfrifedig gwirioneddol buddiannau ymddeol a enillwyd gan gyflogeion yn ystod y flwyddyn;
- **Mantolen** – mae'r datganiad craidd hwn yn dangos gwerth asedau a rhwymedigaethau a gydnabyddir gan y Grŵp fel ag yr oeddent ar ddyddiad y Fantolen. Y Comisiynydd sy'n berchen ar y tir, yr adeiladau a'r asedau eraill a ddefnyddir gan Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r asedau net (asedau llai rhwymedigaeth) yn cael eu cyfateb i'r cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ac annefnyddiadwy;
- **Nodiadau i'r datganiadau ariannol** - mae'r rhain yn rhoi gwybodaeth ychwanegol sy'n esbonio ymhellach eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y prif ddatganiadau gyda'r nod o helpu'r darllenwyr i ddeall y prif ddatganiadau ariannol yn well ac maent yn nodi'r Polisïau Cyfrifyddu a ddefnyddiwyd fel sail dros baratoi'r datganiadau ariannol fel sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer;
- **Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn** - mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn ystod y flwyddyn yn y cronfeydd wrth gefn a ddelir gan y Grŵp, wedi'u dadansoddi'n "gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy" (arian y gellir ei ddefnyddio i ariannu gwariant cyfalaf neu leihau trethiant lleol) a chronfeydd wrth gefn annefnyddiadwy (arian na ellir ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau ac sy'n bodoli drwy gymhwyso safonau cyfrifyddu, er enghraifft, y gronfa bensiwn wrth gefn sy'n cyfateb i'r rhwymedigaeth pensiwn);
- **Datganiad Llif Arian Parod** - mae'r datganiad hwn yn crynhoi newidiadau i arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y cyfnod adrodd;
- **Dadansoddiad o Wariant a Chyllid** – mae'r datganiad hwn yn dangos sut y caiff gwariant blynyddol ei ddefnyddio a'i ariannu gan y Grŵp o adnoddau fel y'u nodir gan reolwyr, wedi'u rhannu yn ôl cyfarwyddiaeth a gwasanaeth ac adran o'u cymharu â'r adnoddau hynny sy'n cael eu defnyddio neu eu hennill gan y Grŵp a nodir yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol;
- **Cyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu** - datganiad sy'n dangos gwariant, incwm, asedau a rhwymedigaethau sy'n ymwneud â Phensiynau'r Heddlu yn ystod y flwyddyn. Mae'r cyfrif yn dangos y grant ychwanegol sy'n ddyledus o'r Grŵp i Gyfrif y Gronfa Bensiwn. Wedyn

mae'r Swyddfa Gartref yn ad-dalu'r Grŵp am arian a dalwyd i'r cyfrif ac yn tanysgrifennu'r diffyg i bob diben. Byddai'r arfer hwn yn gweithio i'r gwrthwyneb pe bai gan Gyfrif y Gronfa Bensiwn warged ar ddiwedd y flwyddyn'

- Mae **Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y Cyd** wedi'i gynnwys o fewn y Datganiad o Gyfrifon hwn sy'n nodi manylion ynglŷn â sut mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn llywodraethu eu materion. Mae'r Datganiad yn ddogfen statudol ar gyfer pob corfforaeth undyn, ond mae datganiad ar y cyd wedi cael ei lunio ar gyfer 2020/21 sy'n anelu at sicrhau tryloywder a gwella dealltwriaeth y darllenydd, gan ddangos yn glir ble mae trefniadau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn gyson a ble maent yn wahanol. Mae'r datganiad yn cynnwys adolygiad blynyddol o ddigonolrwydd y trefniadau llywodraethu, ac mae hefyd yn rhoi sicrwydd ar y systemau rheolaeth fewnol.

# Datganiad o Gyfrifoldebau

Diben y datganiad hwn yw nodi cyfrifoldebau'r Comisiynydd a'r Prif Swyddog Cyllid mewn perthynas â'r Datganiad o Gyfrifon.

Cyfrifoldebau'r Comisiynydd

Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd wneud y canlynol:

- gwneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn briodol a sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny, y Prif Swyddog Cyllid yw'r swyddog hwnnw;
- rheoli ei faterion er mwyn sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a diogelu ei asedau; a
- cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

Cymeradwyaf y Datganiad o Gyfrifon ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys** **Dyddiad: 28 Gorffennaf 2021**

Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid

Y Prif Swyddog Cyllid sy'n gyfrifol am baratoi'r Datganiad o Gyfrifon yn unol ag arferion priodol fel y'u nodwyd yng Nghod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA/LASAAC (y Cod).

Wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon hwn, mae'r Prif Swyddog Cyllid wedi:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna'u cymhwyso'n gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol ac yn ddoeth;
- cydymffurfio â'r Cod i awdurdodau lleol.

Mae'r Prif Swyddog Cyllid hefyd wedi gwneud y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a oedd yn gyfredol;
- cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac achosion eraill o afreoleidd-dra.

Ardystiaf fod y Datganiad o Gyfrifon yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y Grŵp/Comisiynydd ar y dyddiad adrodd ac o'i wariant a'i incwm ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021.

**Prif Swyddog Cyllid** **Dyddiad: 28 Gorffennaf 2021**

# Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio'r datganiadau ariannol canlynol:

- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys; a
- Cronfa Bensiwn Heddlu Dyfed Powys; a
- Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn cynnwys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Llif Arian Parod, a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net a nodiadau cysylltiedig.

Mae datganiadau ariannol Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn cynnwys Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Grŵp, Mantolen y Grŵp, y Datganiad Symud i Gronfeydd Wrth Gefn y Grŵp, Datganiad Llif Arian y Grŵp a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd a'u haddasu gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys ar 31 Mawrth 2021 ac o'i hincwm a'i gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd a'u haddasu gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21.

## Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol o Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio adran datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gafwyd gennyf yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i'm barn.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i barhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol

o gyfrifyddu am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol mewn perthynas â phryder gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

### Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol ar wahân i'r datganiadau ariannol ac adroddiad fy archwilydd ar hynny. Y Swyddog Ariannol Cyfrifol sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arno. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson iawn â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu fel arall mae'n ymddangos ei bod wedi'i cham-ddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod y wybodaeth arall hon yn cael ei chamddatgan yn sylweddol, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

### *Adroddiad ar ofynion eraill*

### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoir y datganiadau ariannol ar ei gyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol, a pharatowyd yr Adroddiad Naratif yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y cyd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoir y datganiadau ariannol ar ei gyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y cyd wedi'i baratoi yn unol â'r canllawiau.

### Materion yr adroddaf arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, Cronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys a Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y cyd.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol, a adroddaf ichi, os, yn fy marn i:

- nid yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw, neu ni dderbyniwyd ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â hwy;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer fy archwiliad.

### *Cyfrifoldebau*

### Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon a nodir ar dudalen 39, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad o gyfrifon, gan gynnwys datganiadau ariannol Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys, sy'n rhoi darlun cywir a theg, ac ar gyfer unrhyw reolaeth fewnol y mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol er mwyn

gallu paratoi datganiadau o gyfrifon sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad o gyfrifon, y swyddog ariannol cyfrifol sy'n gyfrifol am asesu gallu Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, Cronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys a Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n berthnasol, materion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu oni bai ei fod yn cael ei ystyried yn amhriodol.

### Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu wallau ac fe'u hystyrir yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyfansymiau, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- holi'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â Chomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, Cronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys a pholisïau a gweithdrefnau Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys sy'n ymwneud â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i beryglon twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, postio cylchgronau anarferol a rhagfarn wrth gyfrifo amcangyfrifon cyfrifyddu.
- cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr a'r Cyd-bwyllgor Archwilio am ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a darpar;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy ddiystyru rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wneir wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i'r cwrs busnes arferol.

Rwyf hefyd yn cyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i'r holl dîm archwilio ac yn parhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, Cronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys a Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilydd.

## Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Rwy'n ardystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, Cronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys a Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

| | |
|---|---|
| Adrian Crompton | 24 Heol y Gadeirlan |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | Caerdydd |
| 30 Gorffennaf 2021 | CF11 9LJ |

Ei gyfrifoldeb ef yw cynnal a chadw gwefan Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys a'i huniondeb; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac felly nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan i ddechrau.

# Dadansoddiad o Wariant a Chyllid

Dengys y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid sut y caiff gwariant blynyddol ei ddefnyddio a'i ariannu gan y Grŵp o adnoddau (grantiau'r llywodraeth, rhenti a'r dreth gyngor), o gymharu â'r adnoddau hynny a ddefnyddiwyd neu a enillwyd gan y Grŵp yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Caiff Incwm a Gwariant y cyfrifir amdanynt o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol eu cyflwyno'n llawnach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

| Dadansoddiad o Wariant a Chyllid 2020/21 | Gwariant Net y gellir ei godi ar y Gronfa Gyffredinol £'000 | Addasiadau (cyfeiriwch at Nodyn 7 i weld manylion) £'000 | Gwariant Net yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant £'000 |
|---|---|---|---|
| Cyflog Swyddogion yr Heddlu | 66,775 | 1,652 | 68,427 |
| Goramser Swyddogion yr Heddlu | 2,774 | 0 | 2,774 |
| Pensiynau Swyddogion yr Heddlu | 1,587 | 14,783 | 16,370 |
| Cyflog Staff yr Heddlu | 33,327 | 534 | 33,861 |
| Goramser Staff yr Heddllu | 176 | 0 | 176 |
| Pensiynau Staff yr Heddlu | 0 | 4,328 | 4,328 |
| Costau Eraill sy'n Gysylltiedig â Gweithwyr | 930 | 13 | 943 |
| Costau Adeiladau | 4,323 | (461) | 3,862 |
| Costau Trafnidiaeth | 1,727 | (12) | 1,715 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 10,241 | (134) | 10,107 |
| Gwasanaethau Asiantaeth a Chontract | 5,032 | 201 | 5,233 |
| Costau Ariannu Cyfalaf | 2,837 | 2,019 | 4,856 |
| Grantiau | (11,926) | 812 | (11,114) |
| Incwm Arall | (7,635) | 237 | (7,398) |
| **Cost Net Gwasanaethau (cyn McCloud)** | **110,168** | **23,972** | **134,140** |
| Pensiynau Swyddogion yr Heddlu - Effaith Bosibl Her Gyfreithiol Pensiynau'r Heddlu (McCloud) | 0 | 0 | 0 |
| Pensiynau Staff yr Heddlu - Effaith Bosibl Her Gyfreithiol (McCloud) | 0 | 0 | 0 |
| **Cost Net Gwasanaethau** | **110,168** | **23,972** | **134,140** |
| Incwm a Gwariant Arall | (112,909) | 16,488 | (96,421) |
| **Gwarged/(Diffyg) (Cyn Trosglwyddiadau Cronfeydd Wrth Gefn)** | **(2,741)** | **40,460** | **37,719** |
| **Trosglwyddiadau o Gronfeydd wedi'u Clustnodi** | 2,741 | | |
| **Gwarged neu Ddiffyg ar gyfer y Flwyddyn** | **0** | | |
| Balans Agoriadol y Gronfa Gyffredinol ar 1 Ebrill 2020 | (4,032) | | |
| Llai o Ddiffyg ar Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Flwyddyn | 0 | | |
| **Balans Olaf y Gronfa Gyffredinol ar 31 Mawrth 2021** | **(4,032)** | | |

| Dadansoddiad o Wariant a Chyllid 2019/20 | Gwariant Net y gellir ei godi ar y Gronfa Gyffredinol £'000 | Addasiadau (cyfeiriwch at Nodyn 7 i weld manylion) £'000 | Gwariant Net yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant £'000 |
|---|---|---|---|
| Cyflog Swyddogion yr Heddlu | 63,969 | 503 | 64,472 |
| Goramser Swyddogion yr Heddlu | 2,272 | 0 | 2,272 |
| Pensiynau Swyddogion yr Heddlu | 1,646 | 14,716 | 16,362 |
| Cyflog Staff yr Heddlu | 30,265 | 554 | 30,819 |
| Goramser Staff yr Hedddlu | 108 | 0 | 108 |
| Pensiynau Staff yr Heddlu | 0 | 4,977 | 4,977 |
| Costau Eraill sy'n Gysylltiedig â Gweithwyr | 1,271 | (31) | 1,240 |
| Costau Adeiladau | 4,427 | (320) | 4,107 |
| Costau Trafnidiaeth | 1,983 | (54) | 1,929 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 10,570 | (162) | 10,408 |
| Gwasanaethau Asiantaeth a Chontract | 5,387 | (110) | 5,277 |
| Costau Ariannu Cyfalaf | 2,504 | 1,893 | 4,397 |
| Grantiau | (8,270) | 737 | (7,533) |
| Incwm Arall | (8,896) | (531) | (9,427) |
| **Cost Net Gwasanaethau (cyn McCloud)** | **107,236** | **22,172** | **129,408** |
| Pensiynau Swyddogion yr Heddlu - Effaith Bosibl Her Gyfreithiol Pensiynau'r Heddlu (McCloud) | 0 | 5,145 | 5,145 |
| Pensiynau Staff yr Heddlu - Effaith Bosibl Her Gyfreithiol (McCloud) | 0 | 561 | 561 |
| **Cost Net Gwasanaethau** | **107,236** | **27,878** | **135,114** |
| Incwm a Gwariant Arall | (105,595) | 16,192 | (89,403) |
| **Gwarged/(Diffyg) (Cyn Trosglwyddiadau Cronfeydd Wrth Gefn)** | **1,641** | **44,070** | **45,711** |
| Trosglwyddiadau o Gronfeydd wedi'u Clustnodi | (1,641) | | |
| **Gwarged neu Ddiffyg ar gyfer y Flwyddyn** | **0** | | |
| Balans Agoriadol y Gronfa Gyffredinol ar 1 Ebrill 2019 | (4,032) | | |
| Llai o Ddiffyg ar Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Flwyddyn | 0 | | |
| **Balans Olaf y Gronfa Gyffredinol ar 31 Mawrth 2020** | **(4,032)** | | |

# Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Mae'r datganiad canlynol yn crynhoi'r adnoddau a gynhyrchwyd ac a ddefnyddiwyd wrth ddarparu gwasanaethau plismona a gostwng troseddu yn ystod y flwyddyn.

| Grŵp | | | | | Y Comisiynydd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gros £'000 | Incwm Gros £'000 | Gwariant Net £'000 | Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr 2020/21 | Nodyn | Gwariant Gros £'000 | Incwm Gros £'000 | Gwariant Net £'000 |
| 68,426 | 0 | 68,426 | Cyflog Swyddogion yr Heddlu | | 0 | 0 | 0 |
| 2,774 | 0 | 2,774 | Goramser Swyddogion yr Heddlu | | 0 | 0 | 0 |
| 16,370 | 0 | 16,370 | Pensiynau Swyddogion yr Heddlu | | 0 | 0 | 0 |
| 33,860 | 0 | 33,860 | Cyflog Staff yr Heddlu | | 1,500 | 0 | 1,500 |
| 176 | 0 | 176 | Goramser Staff yr Heddllu | | 8 | 0 | 8 |
| 4,328 | 0 | 4,328 | Pensiynau Staff yr Heddlu | | 357 | 0 | 357 |
| 943 | 0 | 943 | Costau Eraill sy'n Gysylltiedig â Gweithwyr | | 8 | 0 | 8 |
| 3,863 | 0 | 3,863 | Costau Adeiladau | | 3,481 | 0 | 3,481 |
| 1,715 | 0 | 1,715 | Costau Trafnidiaeth | | 4 | 0 | 4 |
| 10,108 | 0 | 10,108 | Cyflenwadau a Gwasanaethau | | 107 | 0 | 107 |
| 5,233 | 0 | 5,233 | Gwasanaethau Asiantaeth a Chontract | | 2,317 | 0 | 2,317 |
| 4,856 | 0 | 4,856 | Costau Ariannu Cyfalaf | | 4,856 | 0 | 4,856 |
| 0 | (11,114) | (11,114) | Grantiau | 30 | 0 | (11,114) | (11,114) |
| 0 | (7,398) | (7,398) | Incwm Arall | | 0 | (11,489) | (11,489) |
| **152,652** | **(18,512)** | **134,140** | **Cost Net Gwasanaethau (cyn McCloud)** | | **12,638** | **(22,603)** | **(9,965)** |
| 0 | 0 | 0 | Pensiynau Swyddogion yr Heddlu - Effaith Bosibl Her Gyfreithiol (McCloud) | 35 | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 0 | Pensiynau Staff yr Heddlu - Effaith Bosibl Her Gyfreithiol (McCloud) | 35 | 0 | 0 | 0 |
| **152,652** | **(18,512)** | **134,140** | **Cyfanswm Cost y Gwasanaethau** | | **12,639** | **(22,603)** | **(9,965)** |
| 150 | (15,825) | (15,675) | Incwm a Gwariant Gweithredu Arall | 10 | 150 | (15,825) | (15,675) |
| 33,566 | (974) | 32,592 | Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi | 11 | 841 | (974) | (133) |
| 0 | (113,338) | (113,338) | Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol | 12 | 0 | (113,338) | (113,338) |
| 0 | 0 | 0 | Costau Comisiynu (trosglwyddo o fewn y grŵp) | | 176,830 | 0 | 176,830 |
| **186,368** | **(148,649)** | **37,719** | Gwarged/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | | **190,459** | **(152,740)** | **37,719** |
| | | (116) | (Gwarged) neu ddiffyg ar ailbrisio asedau sefydlog | | | | (116) |
| | | 196,699 | (Enillion)/colledion actiwaraidd ar asedau/rhwymedigaethau pensiwn | | | | 19 |
| | | 0 | Costau Comisiynu (trosglwyddo o fewn y grŵp) | | | | 196,680 |
| | | **234,302** | **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | **234,302** |

| Y Grŵp | | | | | Y Comisiynydd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gros £'000 | Incwm Gros £'000 | Gwariant Net £'000 | Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr 2019/20 | Nodyn | Gwariant Gros £'000 | Incwm Gros £'000 | Gwariant Net £'000 |
| 64,472 | 0 | 64,472 | Cyflog Swyddogion yr Heddlu | | 0 | 0 | 0 |
| 2,272 | 0 | 2,272 | Goramser Swyddogion yr Heddlu | | 0 | 0 | 0 |
| 16,362 | 0 | 16,362 | Pensiynau Swyddogion yr Heddlu | | 0 | 0 | 0 |
| 30,819 | 0 | 30,819 | Cyflog Staff yr Heddlu | | 1,421 | 0 | 1,421 |
| 108 | 0 | 108 | Goramser Staff yr Heddllu | | 2 | 0 | 2 |
| 4,977 | 0 | 4,977 | Pensiynau Staff yr Heddlu | | 429 | 0 | 429 |
| 1,240 | 0 | 1,240 | Costau Eraill sy'n Gysylltiedig â Gweithwyr | | 26 | 0 | 26 |
| 4,107 | 0 | 4,107 | Costau Adeiladau | | 3,641 | 0 | 3,641 |
| 1,929 | 0 | 1,929 | Costau Trafnidiaeth | | 13 | 0 | 13 |
| 10,408 | 0 | 10,408 | Cyflenwadau a Gwasanaethau | | 171 | 0 | 171 |
| 5,277 | 0 | 5,277 | Gwasanaethau Asiantaeth a Chontract | | 1,853 | 0 | 1,853 |
| 4,397 | 0 | 4,397 | Costau Ariannu Cyfalaf | | 4,397 | 0 | 4,397 |
| 0 | (7,533) | (7,533) | Grantiau | 30 | 0 | (7,533) | (7,533) |
| 0 | (9,427) | (9,427) | Incwm Arall | | 0 | (13,115) | (13,115) |
| **146,368** | **(16,960)** | **129,408** | **Cost Net Gwasanaethau (cyn McCloud)** | | **11,953** | **(20,648)** | **(8,695)** |
| 5,145 | 0 | 5,145 | Pensiynau Swyddogion yr Heddlu - Effaith Bosibl Her Gyfreithiol (McCloud) | 35 | 0 | 0 | 0 |
| 561 | 0 | 561 | Pensiynau Staff yr Heddlu - Effaith Bosibl Her Gyfreithiol (McCloud) | 35 | 24 | 0 | 24 |
| **152,074** | **(16,960)** | **135,114** | **Cyfanswm Cost y Gwasanaethau** | | **11,977** | **(20,648)** | **(8,671)** |
| 220 | (16,881) | (16,661) | Incwm a Gwariant Gweithredu Arall | 10 | 220 | (16,881) | (16,661) |
| 34,544 | (852) | 33,692 | Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi | 11 | 728 | (852) | (124) |
| 0 | (106,434) | (106,434) | Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol | 12 | 0 | (106,434) | (106,434) |
| 0 | 0 | 0 | Costau Comisiynu (trosglwyddo o fewn y grŵp) | | 177,601 | 0 | 177,601 |
| **186,838** | **(141,127)** | **45,711** | **Gwarged/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | | **190,526** | **(144,815)** | **45,711** |
| | | (13) | (Gwarged) neu ddiffyg ar ailbrisio asedau sefydlog | | | | (13) |
| | | 29,012 | (Enillion)/colledion actiwaraidd ar asedau/rhwymedigaethau pensiwn | | | | 999 |
| | | 0 | Costau Comisiynu (trosglwyddo o fewn y grŵp) | | | | 28,013 |
| | | **74,710** | **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | **74,710** |

# Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn

| ***Blwyddyn Ariannol 2020/21*** | **Cyfeirnod y Nodyn** | **Balans y Gronfa Gyffredinol £'000** | **Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd y Gronfa Gyffredinol £'000** | **Cyfanswm Balans y Gronfa Gyffredinol £'000** | **Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn £'000** | **Grantiau Cyfalaf Nas Defnyddiwyd £'000** | **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £'000** | **Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy £'000** | **Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn £'000** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | | **(4,032)** | **(10,117)** | **(14,149)** | **0** | **(426)** | **(14,575)** | **1,365,428** | **1,350,853** |
| Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod 2020/21 | | | | | | | | | |
| Gwarged neu (ddiffyg) ar ddarparu gwasanaethau | **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | 37,719 | 0 | 37,719 | 0 | 0 | 37,719 | 0 | **37,719** |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 196,583 | **196,583** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **37,719** | **0** | **37,719** | **0** | **0** | **37,719** | **196,583** | **234,302** |
| Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail gyllido o dan y Rheoliadau | **8** | (40,460) | 0 | (40,460) | 0 | 307 | **(40,153)** | 40,153 | **0** |
| **Cynnydd/(Lleihad) Net cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd** | | **(2,741)** | **0** | **(2,741)** | **0** | **307** | **(2,434)** | **236,736** | **234,302** |
| Trosglwyddiadau i/o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd | **9** | 2,741 | (2,741) | | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** |
| **(Cynnydd)/Lleihad yn 2020/21** | | **0** | **(2,741)** | **(2,741)** | **0** | **307** | **(2,434)** | **236,736** | **234,302** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | | **(4,032)** | **(12,858)** | **(16,890)** | **0** | **(119)** | **(17,009)** | **1,602,164** | **1,585,155** |

| ***Blwyddyn Ariannol 2019/20*** | Cyfeirnod y Nodyn | Balans y Gronfa Gyffredinol £'000 | Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd y Gronfa Gyffredinol £'000 | Cyfanswm Balans y Gronfa Gyffredinol £'000 | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn £'000 | Grantiau Cyfalaf Nas Defnyddiwyd £'000 | Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £'000 | Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy £'000 | Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | | **(4,032)** | **(11,758)** | **(15,790)** | **0** | **(426)** | **(16,216)** | **1,292,359** | **1,276,143** |
| Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod 2019/20 | | | | | | | | | |
| Gwarged neu (ddiffyg) ar ddarparu gwasanaethau | **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | 45,711 | 0 | 45,711 | 0 | 0 | **45,711** | 0 | **45,711** |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 28,999 | **28,999** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **45,711** | **0** | **45,711** | **0** | **0** | **45,711** | **28,999** | **74,710** |
| Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail gyllido o dan y Rheoliadau | **8** | (44,070) | 0 | (44,070) | 0 | 0 | **(44,070)** | 44,070 | **0** |
| **Cynnydd/(Lleihad) Net cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd** | | **1,641** | **0** | **1,641** | **0** | **0** | **1,641** | **73,069** | **74,710** |
| Trosglwyddiadau i/o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd | **9** | (1,641) | 1,641 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** |
| **(Cynnydd)/Lleihad yn 2019/20** | | **0** | **1,641** | **1,641** | **0** | **0** | **1,641** | **73,069** | **74,710** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | | **(4,032)** | **(10,117)** | **(14,149)** | **0** | **(426)** | **(14,575)** | **1,365,428** | **1,350,853** |

# Mantolen

| Y Grŵp 2019/20 £'000 | Y Comisiynydd 2019/20 £'000 | | Nodyn | Y Grŵp 2020/21 £'000 | Y Comisiynydd 2020/21 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 73,990 | 73,990 | Eiddo, offer a chyfarpar | 13 | 73,777 | 73,777 |
| 3,975 | 3,975 | Eiddo buddsoddi | 14 | 4,237 | 4,237 |
| 0 | 0 | Asedau anniriaethol | | 0 | 0 |
| 394 | 394 | Asedau Dros Ben | 13 | 203 | 203 |
| 240 | 240 | Asedau sy'n cael eu Hadeiladu | 13 | 1,654 | 1,654 |
| 4,547 | 4,547 | Buddsoddiadau hirdymor | 16 | 1,008 | 1,008 |
| **83,146** | **83,146** | **Asedau hirdymor** | | **80,879** | **80,879** |
| 9,935 | 9,935 | Buddsoddiadau byrdymor | 16 | 11,509 | 11,509 |
| 461 | 0 | Rhestrau eiddo | | 574 | 0 |
| 0 | 0 | Asedau a ddelir i'w gwerthu | 19 | 15 | 15 |
| 9,829 | 9,046 | Dyledwyr byrdymor | 17 | 9,983 | 8,866 |
| 4,829 | 4,829 | Arian parod a’r hyn sy’n cyfateb i arian parod | 18 | 8,788 | 8,788 |
| 0 | 1,244 | Trosglwyddo o fewn y grŵp | | 0 | 1,691 |
| **25,054** | **25,054** | **Asedau cyfredol** | | **30,869** | **30,869** |
| (227) | (227) | Benthyca byrdymor | 16 | (257) | (257) |
| (11,931) | (3,369) | Credydwyr byrdymor | 20 | (17,449) | (5,042) |
| (1,242) | (1,242) | Darpariaethau byrdymor | 21 | (1,979) | (1,002) |
| 0 | (8,562) | Trosglwyddo o fewn y grŵp | | 0 | (12,407) |
| **(13,400)** | **(13,400)** | **Rhwymedigaethau cyfredol** | | **(18,708)** | **(18,708)** |
| (1,511) | (1,511) | Benthyca hirdymor | 16 | (1,254) | (1,254) |
| (1,443,218) | (1,443,218) | Rhwymedigaethau hirdymor eraill | 35 | (1,676,022) | (1,676,022) |
| (924) | (924) | Darpariaethau hirdymor | 21 | (919) | (919) |
| **(1,445,653)** | **(1,445,653)** | **Rhwymedigaethau hirdymor** | | **(1,678,195)** | **(1,678,195)** |
| **(1,350,853)** | **(1,350,853)** | **Asedau/rhwymedigaethau net** | | **(1,585,155)** | **(1,585,155)** |
| (14,575) | (14,575) | Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy | 9 | (17,009) | (17,009) |
| 1,365,428 | 1,365,428 | Cronfeydd wrth gefn annefnyddiadwy | 22 | 1,602,164 | 1,602,164 |
| **1,350,853** | **1,350,853** | **Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn** | | **1,585,155** | **1,585,155** |

# Datganiad Llif Arian Parod

| Y Grŵp 2019/20 £'000 | Y Comisiynydd 2019/20 £'000 | | Nodyn | Y Grŵp 2020/21 £'000 | Y Comisiynydd 2020/21 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **45,711** | **45,711** | **(Gwarged) neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau** | **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **37,719** | **37,719** |
| (42,970) | (42,970) | Addasiadau i warged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau anariannol | 23 | (46,762) | (46,762) |
| (1,651) | (1,651) | Addasiadau ar gyfer eitemau wedi'u cynnwys yn y gwarged neu'r diffyg net ar ddarparu gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi ac ariannu | 23 | (1,419) | (1,419) |
| **1,090** | **1,090** | **Llifau arian parod net o Weithgareddau Gweithredu** | **23** | **(10,462)** | **(10,462)** |
| (5,330) | (5,330) | Gweithgareddau Buddsoddi | 24 | 4,492 | 4,492 |
| 2,123 | 2,123 | Gweithgareddau Cyllido | 25 | 2,011 | 2,011 |
| **(2,117)** | **(2,117)** | **(Cynnydd) neu leihad net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod** | **18** | **(3,959)** | **(3,959)** |
| 2,712 | 2,712 | Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod adrodd | 18 | 4,829 | 4,829 |
| **4,829** | **4,829** | **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd** | **18** | **8,788** | **8,788** |

# Cronfa Bensiwn yr Heddlu

| Y Grŵp 2019/20 £'000 | Y Comisiynydd 2019/20 £'000 | Cyfrif y Gronfa | Y Grŵp 2020/21 £'000 | Y Comisiynydd 2020/21 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| | | Cyfraniadau derbyniadwy | | |
| (13,337) | 0 | Cyfraniadau'r cyflogwr | (13,919) | 0 |
| (250) | 0 | Incwm arall | (570) | 0 |
| (5,792) | 0 | Cyfraniadau swyddogion | (6,006) | 0 |
| **(19,379)** | **0** | **Cyfraniadau derbyniadwy** | **(20,495)** | **0** |
| **(656)** | **0** | **Trosglwyddiadau i mewn o gronfeydd pensiwn eraill** | **(661)** | **0** |
| | | Buddiannau taladwy | | |
| 28,050 | 0 | Pensiynau | 29,182 | 0 |
| 7,313 | 0 | Cyfnewidiadau a buddiannau ymddeol ar ffurf cyfandaliadau | 7,277 | 0 |
| **35,363** | **0** | **Buddiannau Taladwy** | **36,459** | **0** |
| | | Taliadau i'r rhai sy'n gadael ac ar gyfrif y rhai sy'n gadael | | |
| 329 | 0 | Trosglwyddo i gronfeydd pensiwn eraill | 0 | 0 |
| 25 | 0 | Ad-daliadau cyfraniadau | 7 | 0 |
| 535 | 0 | Taliadau treth Cynllun yn Talu | 491 | 0 |
| **889** | **0** | **Taliadau i'r rhai sy'n gadael ac ar gyfrif y rhai sy'n gadael** | **498** | **0** |
| **16,217** | **(16,217)** | **Swm net sy'n daladwy am y flwyddyn** | **15,801** | **(15,801)** |
| (16,217) | 16,217 | Cyfraniad ychwanegol o Gronfa'r Heddlu (parthed grant y Swyddfa Gartref) | (15,801) | 15,801 |
| **0** | **0** | **Cyfanswm** | **0** | **0** |

| Y Grŵp 2019/20 £'000 | Y Comisiynydd 2019/20 £'000 | Datganiad am Asedau Net | Y Grŵp 2020/21 £'000 | Y Comisiynydd 2020/21 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| | | Asedau Cyfredol | | |
| 0 | 0 | Dyledwr - balansau net sy'n ddyledus gan gronfa'r Heddlu | 0 | 0 |
| **0** | **0** | **Asedau Cyfredol** | **0** | **0** |
| | | Rhwymedigaethau Cyfredol | | |
| 0 | 0 | Credydwr - buddiannau sy'n daladwy i swyddogion yn ymddeol ddiwedd mis Mawrth a dalwyd ym mis Ebrill | 0 | 0 |
| **0** | **0** | **Rhwymedigaethau Cyfredol** | **0** | **0** |
| **0** | **0** | **Asedau Net** | **0** | **0** |

## Nodiadau i Gyfrifon Cronfa Bensiwn yr Heddlu

• Mae'r polisïau cyfrifyddu a ddilynwyd, a'r rhagdybiaethau a wnaed ynghylch Cyfrif Pensiynau'r Heddlu yn unol â'r rhai a nodir yn Nodyn 1 - Polisïau Cyfrifyddu;

• Gweinyddir Cynllun Pensiwn yr Heddlu gan Gyngor Sir Caerfyrddin o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth;

• Nid oes unrhyw asedau buddsoddi yn y gronfa. Mae'r taliadau i mewn ac allan o'r gronfa Bensiwn yn cael eu cydbwyso i ddim bob blwyddyn trwy dderbyn cyfraniadau ychwanegol o Gronfa Gyffredinol yr Heddlu, sydd yn ei dro yn cael ei ad-dalu gan grant penodol gan y Swyddfa Gartref (Grant Ychwanegol); a

• Nid yw datganiadau ariannol y Gronfa Bensiwn yn ystyried rhwymedigaethau pensiwn yn y dyfodol ar ôl 31 Mawrth 2021. Fodd bynnag, cyflwynir y rhain ar y Fantolen o dan ‘Rhwymedigaethau Tymor Hir Eraill’, gyda datgeliadau manwl yn Nodyn 35 - Cynlluniau Pensiwn Budd Diffiniedig.

## Nodiadau i'r Cyfrifon

### 1. Polisïau cyfrifyddu

#### Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn crynhoi trafodion y Grŵp ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2021. Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd baratoi Datganiad o Gyfrifon blynyddol iddo'i hun a'r Grŵp o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y’i diwygiwyd), sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu paratoi'n unol ag arferion cyfrifyddu priodol.Mae'r arferion hyn yn cynnwys y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020/21 a Chod Ymarfer Adrodd 2020/21 yr Heddlu yn bennaf, wedi'u hategu gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Y confensiwn cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn y Datganiad o Gyfrifon yw cost hanesyddol yn bennaf, wedi'i addasu gan ailbrisio categorïau penodol o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

#### Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau mewn Polisïau Cyfrifyddu ac Amcangyfrifon a Gwallau

Gall addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifyddu neu er mwyn cywiro gwall perthnasol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu yn y dyfodol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd yn y dyfodol y mae'r newid yn effeithio arnynt ac nid ydynt yn peri addasiad cyfnod blaenorol.
Dim ond pan fydd eu hangen yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol neu pan fydd y newid yn rhoi gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol ynglŷn ag effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Grŵp y bydd newidiadau i bolisïau cyfrifyddu. Pan fydd newid, caiff ei gymhwyso'n ôl-weithredol (oni nodir fel arall) drwy addasu balansau agoriadol a symiau cymaradwy ar gyfer y cyfnod blaenorol fel petai'r polisi newydd wedi'i gymhwyso erioed.

Caiff gwallau perthnasol a ddarganfyddir yn ffigurau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol drwy ddiwygio balansau agoriadol a symiau cymaradwy ar gyfer y cyfnod blaenorol.

### Croniadau Incwm a Gwariant

Cyfrifir am weithgarwch yn y flwyddyn y mae'n digwydd, ac nid pan fydd taliadau arian parod yn cael eu gwneud neu eu derbyn. Yn benodol:

- Cydnabyddir refeniw o werthu nwyddau pan fydd y Grŵp yn trosglwyddo risgiau a buddiannau sylweddol perchenogaeth i'r prynwr a'i bod yn debygol y bydd y buddiannau economaidd neu'r potensial am wasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodyn yn llifo i'r Grŵp.
- Cydnabyddir refeniw o ddarparu gwasanaethau pan fydd y Grŵp yn gallu mesur canran y trafodyn a gwblhawyd yn ddibynadwy ac mae'n debygol y bydd y buddiannau economaidd neu'r potensial am wasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodyn yn llifo i'r Grŵp.
- Cofnodir cyflenwadau fel gwariant pan gânt eu defnyddio – pan fydd bwlch rhwng y dyddiad y derbynnir cyflenwadau a'r dyddiad y'u defnyddir cânt eu cario fel rhestrau eiddo ar y Fantolen.
- Cofnodir treuliau mewn perthynas â gwasanaethau a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan gyflogeion) fel gwariant pan fydd y gwasanaethau yn cael eu derbyn yn hytrach na phan fydd y taliadau yn cael eu gwneud.
- Cyfrifir llog sy'n dderbyniadwy ar fuddsoddiadau ac sy'n daladwy ar fenthyciadau fel incwm a gwariant yn y drefn honno ar sail y gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach na'r llifau arian parod a bennir gan y contract.
- Pan fydd refeniw a gwariant wedi'u cydnabod ond nad oes unrhyw arian parod wedi cael ei dderbyn na'i dalu, cofnodir dyledwr neu gredydwr am y swm perthnasol yn y Fantolen. Pan na chaiff dyledion eu setlo o bosibl, mae balans dyledwyr yn cael ei leihau a chodir tâl ar refeniw am yr incwm na allai gael ei gasglu o bosibl.

### Gorbenion a Gwasanaethau Cymorth

Codir am gostau gorbenion a gwasanaethau cymorth ar segmentau gwasanaethau yn unol â threfniadau'r Grŵp ar gyfer atebolrwydd a pherfformiad ariannol.

### Eitemau Eithriadol

Pan fydd eitemau o incwm a gwariant yn berthnasol, datgelir eu natur a'r swm ar wahân, naill ai ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr neu yn y nodiadau i'r cyfrifon, yn dibynnu ar ba mor arwyddocaol yw'r eitemau i ddeall perfformiad ariannol y Grŵp.

### Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad y caiff y Datganiad o Gyfrifon ei awdurdodi i'w gyhoeddi. Gellir nodi dau fath o ddigwyddiadau:

- Y rhai hynny sy'n rhoi tystiolaeth o amodau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath.
- Y rhai hynny sy'n dangos amodau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – nid yw'r Datganiad o Gyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond lle byddai categori o ddigwyddiadau yn cael effaith berthnasol, datgelir natur y digwyddiadau a'u heffaith ariannol amcangyfrifedig yn y nodiadau.

Nid yw digwyddiadau ar ôl dyddiad awdurdodi cyhoeddi yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad o Gyfrifon.

**Eiddo, offer a chyfarpar**

Caiff gwariant ar gaffael, creu neu wella eiddo, offer a chyfarpar ei gyfalafu ar sail croniadau. Codir am wariant sy'n cynnal potensial ased i sicrhau buddiannau economaidd neu botensial am wasanaeth yn y dyfodol ond nad yw'n ychwanegu at hynny (h.y. gwaith atgyweirio a chynnal a chadw) fel traul pan eir iddo.

Caiff gwariant sy'n is na lefel de minimis o £6,000 fesul eitem ei drin fel Refeniw a chodir amdano pan eir iddo.

Caiff asedau eu mesur ar gost i ddechrau ac yna'u cario yn y Fantolen gan ddefnyddio'r sylfeini mesur canlynol:

- Asedau sy'n cael eu hadeiladu – cost hanesyddol;
- Adeiladau Gweithredol – cost adnewyddu wedi'i dibrisio;
- Asedau dros ben / Asedau a ddelir i'w gwerthu – gwerth teg – a adolygir yn flynyddol;
- Eiddo Buddsoddi – gwerth teg a adolygir yn flynyddol;
- Pob ased arall - gwerth teg (a ail-brisir bob pum mlynedd), wedi'i bennu fel y swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol.

Cyfatebir cynnydd mewn prisiadau gan gredydau i'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn er mwyn cydnabod enillion nas gwireddwyd. Mae'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn yn cynnwys enillion ailbrisio a gydnabuwyd ers 1 Ebrill 2007 yn unig, sef ei dyddiad gweithredu ffurfiol. Mae enillion sy'n codi cyn y dyddiad hwnnw wedi'u cyfuno yn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

Asesir asedau ar ddiwedd pob blwyddyn o ran p'un a oes unrhyw arwydd y gall fod lleihad yng ngwerth yr ased. Lle mae arwyddion yn bodoli a lle yr amcangyfrifir bod unrhyw wahaniaethau posibl yn berthnasol, amcangyfrifir swm adenilladwy'r ased a, lle mae hwn yn llai na swm cario'r ased, cydnabyddir colled lleihad mewn gwerth ar gyfer y diffyg.

Lle y nodir colledion mewn gwerth, cyfrifir amdanynt fel a ganlyn:

- Lle mae balans o enillion ailbrisio ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn, mae swm cario'r ased yn cael ei leihau yn erbyn y balans hwnnw (hyd at swm yr enillion cronedig).
- Lle nad oes unrhyw falans yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn neu lle mae balans annigonol, mae swm cario'r ased yn cael ei leihau yn erbyn y llinellau gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

<u>Dibrisiant</u>

Darperir ar gyfer dibrisiant ar yr holl asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar drwy ddyrannu eu symiau dibrisiadwy yn systematig dros eu hoes ddefnyddiol.  Ceir crynodeb o oes economaidd ddefnyddiol asedau a'u gwerthoedd gweddilliol yn y tabl isod:

| Categori'r Ased | Oes Economaidd Ddefnyddiol | Gwerth Gweddilliol |
|---|---|---|
| Eiddo | | |
| Tir | Dim dibrisiant | Dim dibrisiant |
| Adeiladau gweithredol | 10-155 mlynedd | Dim |
| Eiddo buddsoddi | Dim dibrisiant | Dim dibrisiant |
| Asedau dros ben | 10-155 mlynedd | Dim |
| Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Dim dibrisiant | Dim dibrisiant |
| Asedau a ddelir i'w gwerthu | Dim dibrisiant | Dim dibrisiant |
| Badau | | |
| Bad 1 - Corff | 32 mlynedd | Dim |
| Bad 2 - Injan | 12 mlynedd | Dim |
| Bad 2 | 10 mlynedd | Dim |
| Cerbydau | | |
| Ymateb cyflym | 3 mlynedd | Dim |
| Arall | 3-5 mlynedd | Dim |
| Cyfarpar | | |
| Cyfrifiadur a chyfarpar arall | 5 mlynedd | Dim |
| Asedau anniriaethol | | |
| Arall | 3-5 mlynedd | Dim |

Pan fydd gan eitem o Eiddo, Offer a Chyfarpar gydrannau mawr y mae eu cost yn sylweddol o'i chymharu â chyfanswm cost yr eitem, caiff y cydrannau eu dibrisio ar wahân.

Mae'r Grŵp wedi cymhwyso'r terfynau de-minimis canlynol, nad yw'r gydran yn cael ei mesur ar wahan os yw islaw hynny:

| Oes cydran (blynyddoedd) | 0-10 | 10-15 | 15-20 | 20-30 | 30-40 | Dros 40 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| De-minimis (£'000) | 50 | 100 | 200 | 300 | 750 | 1,000 |

Mae enillion ailbrisio hefyd yn cael eu dibrisio, gyda swm sy'n hafal i'r gwahaniaeth rhwng dibrisiant gwerth cyfredol a godir ar asedau a'r dibrisiant y gellid bod wedi ei godi yn seiliedig ar drosglwyddo eu cost hanesyddol bob blwyddyn o'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

<u>Asedau Dros Ben</u>

Asedau dros ben yw'r asedau hynny nad ydynt yn cael eu defnyddio'n weithredol yn y busnes (megis eiddo gwag) ac na ellir eu dosbarthu'n "asedau a ddelir i'w gwerthu". Caiff asedau dros ben eu mesur ar sail gwerth teg ar bob dyddiad adrodd, yn seiliedig ar y swm y gellir cyfnewid yr ased amdano rhwng partïon gwybodus ar hyd braich. Cofnodir enillion a cholledion ailbrisio ar linell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Cymhwysir yr un driniaeth at enillion a cholledion ar adeg gwaredu.

Gwarediadau ac Asedau a Ddelir i'w Gwerthu

Pan ddaw yn debygol y caiff swm cario'r ased ei adennill yn bennaf drwy drafodyn gwerthu yn hytrach na thrwy barhau i'w ddefnyddio, caiff ei ailddosbarthu'n Ased a Ddelir i'w Werthu. Caiff yr ased ei ailbrisio ar unwaith cyn ei ailddosbarthu ac yna'i gario ar ba swm bynnag sydd isaf a gwerth teg llai costau i'w werthu. Lle mae lleihad canlyniadol mewn gwerth teg llai costau i'w werthu, caiff y golled ei chofnodi ar linell Gwriant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Cydnabyddir enillion mewn gwerth teg dim ond hyd at swm unrhyw golledion blaenorol a gydnabuwyd yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau. Ni chodir dibrisiant ar Asedau a Ddelir i'w Gwerthu.

Caiff symiau a dderbynnir am warediad sy'n fwy na £10,000 eu categoreiddio'n dderbyniadau cyfalaf. Mae'n rhaid i falans y derbyniadau gael ei gredydu i'r gronfa Derbyniadau Cyfalaf wrth gefn, a dim ond ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd (neu eu neilltuo i leihau angen sylfaenol y Grŵp i fenthyca – y gofyniad ariannu cyfalaf) y gellir eu defnyddio.

### Symiau a Godir ar Refeniw ar gyfer asedau Anghyfredol

Caiff gwasanaethau eu debydu â'r symiau canlynol er mwyn cofnodi cost dal asedau anghyfredol yn ystod y flwyddyn:

Dibrisiant y gellir ei briodoli i'r asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth perthnasol.

Colledion ailbrisio a lleihad mewn gwerth ar asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth lle nad oes unrhyw enillion a gronnwyd yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn y gellir dileu'r colledion yn eu herbyn.

### Eiddo buddsoddi

Eiddo buddsoddi yw eiddo a ddefnyddir i ennill arian rhent a/neu arbrisiant cyfalaf yn unig. Caiff eiddo buddsoddi ei fesur i ddechrau ar gost ac yna ar sail gwerth teg, yn seiliedig ar y swm y gellid cyfnewid yr ased amdano rhwng partion gwybodus ar hyd braich. Cofnodir enillion a cholledion ailbrisio ar linell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Cymhwysir yr un driniaeth at enillion a cholledion ar adeg gwaredu.

### Cyfrifyddu ar gyfer Cyfraniad Blynyddol o Refeniw

Nid yw'n ofynnol i'r Grŵp godi'r dreth gyngor i dalu am ddibrisiant, ailbrisio a cholledion lleihad mewn gwerth nag amorteiddiadau. Fodd bynnag, mae'n ofynnol iddo wneud cyfraniad blynyddol o refeniw tuag at y gostyngiad yn ei ofyniad benthyca cyffredinol. Felly caiff dibrisiant, ailbrisio a cholledion mewn gwerth ac amorteiddiadau eu disodli gan y cyfraniad ym Malans y Gronfa Gyffredinol drwy addasu trafodiadau gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y ddau.

### Asedau anniriaethol

Caiff gwariant ar asedau anariannol nad oes iddynt sylwedd ffisegol ond sy'n cael eu rheoli gan y Grŵp o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol (e.e. trwyddedau meddalwedd) ei gyfalafu pan ddisgwylir y bydd buddiannau economaidd neu botensial am wasanaeth yn y dyfodol yn llifo o'r ased anniriaethol i'r Grŵp.

Caiff asedau anniriaethol eu mesur i ddechrau ar gost. Dim ond lle y gellir pennu gwerth teg yr asedau a ddelir gan y Grŵp drwy gyfeirio at farchnad weithredol y caiff symiau eu hailbrisio. Yn

ymarferol, nid oes unrhyw un o asedau anniriaethol a ddelir gan y Grŵp yn bodloni'r maen prawf hwn, ac felly cânt eu cario ar gost wedi'i hamorteiddio.

## Offerynnau Ariannol

Rhwymedigaethau Ariannol

Caiff y rhain eu mesur i ddechrau ar sail gwerth teg a'u cario ar eu cost wedi'i hamorteiddio. Mae symiau blynyddol a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant am log sy'n daladwy yn seiliedig ar swm cario'r rhwymedigaeth, wedi'i luosi â'r gyfradd llog weithredol ar gyfer yr offeryn. Y swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm sy'n weddill ynghyd â llog cronedig.

Asedau Ariannol

Caiff Benthyciadau a Symiau sy'n Dderbyniadwy eu mesur i ddechrau ar sail gwerth teg a'u cario ar eu cost wedi'i hamorteiddio. Mae credydau blynyddol i'r Datganiad o Incwm a Gwariant am log sy'n dderbyniadwy yn seiliedig ar swm cario'r ased wedi'i luosi â'r gyfradd llog weithredol ar gyfer yr offeryn. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r benthyciadau a wnaed gan y Grŵp, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm sy'n dderbyniadwy sy'n weddill ynghyd â llog cronedig.

Trosi arian cyfred tramor

Lle mae'r Grŵp wedi ymrwymo i drafodyn wedi'i ddynodi mewn arian cyfred tramor, caiff y trafodyn ei drosi i sterling ar y gyfradd gyfnewid sy'n gymwys ar y dyddiad roedd y trafodyn yn weithredol.

### Rhestrau eiddo

Mae rhestrau eiddo yn cael eu cynnwys yn y fantolen ar bris cost bresennol. Mae Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 2 yn nodi y dylai Rhestrau eiddo gael eu mesur ar gost neu werth gwireddadwy net pa bynnag yw'r isaf. Felly, nid yw'r polisi yn cydymffurfio ag IAS 2 ond nid yw'r gwahaniaeth yn berthnasol.

### Arian Parod a’r hyn sy’n Cyfateb i Arian Parod

Cynrychiolir arian parod gan arian mewn llaw ac adneuon gyda sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb o roi rhybudd nad yw'n fwy na 24 awr.

Mae'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn golygu buddsoddiadau tra hylifol sy’n aeddfedu o fewn tri mis neu lai o’r dyddiad caffael ac y gellir eu trosi'n hawdd yn symiau hysbys o arian parod, â risg ansylweddol o newid mewn gwerth.

### Darpariaethau

Gwneir darpariaethau lle bu digwyddiad sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol i'r Grŵp y mae'n ofynnol ei setlo drwy drosglwyddo buddiannau economaidd neu botensial am wasanaeth yn fwy na thebyg, a gellir llunio amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

### Cronfeydd Wrth Gefn

Ystyrir bod symiau a neilltuir at ddibenion nad ydynt yn dod o dan y diffiniad o ddarpariaethau yn gronfeydd wrth gefn. Mae cronfeydd refeniw wrth gefn ar gael i ariannu gwariant. Nid yw cronfeydd cyfalaf wrth gefn penodol a grëir o ganlyniad i'r cynllun cyfrifyddu cyfalaf ar gael i dalu am wariant cyfredol ac maent yn cynnwys:

- Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn sy'n cofnodi'r enillion cronedig ar yr asedau sefydlog a ddelir gan y Grŵp sy'n codi o gynnydd mewn gwerth, i'r graddau nad yw'r enillion hyn wedi cael eu treulio gan symudiadau canlyniadol tuag i lawr mewn gwerth;
- Cyfrif Addasiadau Cyfalaf, sy'n rhoi dull mantoli rhwng y cyfraddau gwahanol y caiff asedau eu dibrisio yn unol â hwy a'u hariannu drwy'r system rheolaethau cyfalaf, drwy gronni:
    - O ran debyd – lleihau cost hanesyddol asedau sefydlog wrth iddynt gael eu treulio gan ddibrisiant a lleihad mewn gwerth neu eu dileu ar adeg eu gwaredu;
    - O ran credyd – mae'r adnoddau wedi'u neilltuo ar gyfer gwariant cyfalaf ariannu.

**Trefniadau Cydweithio - Cyfrifyddu ar gyfer cyfuno trefniadau cydweithio**

Lle mae’r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi ymrwymo i drefniadau cydweithredol â Chomisiynwyr a Phrif Gwnstabliaid eraill, gwnaed asesiad yn erbyn IFRS 11 Trefniadau Cydweithio i benderfynu ar y broses gyfrifyddu briodol. Mae IFRS 11 yn ei gwneud yn ofynnol bod yr holl drefniadau o'r fath yn cael eu dosbarthu naill ai fel Cyd-fentrau neu Gyd-ymgyrchoedd. Mae’r holl drefniadau o'r fath gan y Comisiynydd/Prif Gwnstabl yn cael eu hystyried yn Gyd-ymgyrchoedd lle mae gan y Comisiynydd/Prif Gwnstabl yr hawl i'w cyfran deg o Asedau a Rhwymedigaethau'r Cyd-ymgyrch.

Ceir rhagor o fanylion o dan y nodyn Trefniadau Cydweithio.

**Buddiannau cyflogeion**

Buddiannau sy'n Daladwy yn ystod Cyflogaeth

Buddiannau byrdymor i gyflogeion yw'r buddiannau hynny a fydd yn cael eu setlo o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddiannau megis cyflogau, gwyliau blynyddol â thâl ac absenoldeb oherwydd salwch â thâl, taliadau bonws a buddiannau anariannol (e.e. ceir) i gyflogeion cyfredol ac fe'u cydnabyddir fel traul am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r cyflogeion yn rhoi gwasanaeth. Gwneir croniad ar gyfer cost hawliau gwyliau (gan gynnwys amser i ffwrdd yn lle tâl ac absenoldeb hyblyg) a enillir gan gyflogeion ond nas cymerir cyn diwedd y flwyddyn, y gall cyflogeion eu cario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Gwneir y croniad ar gyfraddau cyflog sy'n gymwys yn y flwyddyn gyfrifyddu ganlynol, sef y cyfnod y mae'r cyflogeion yn cymryd y buddiant. Codir y croniad ar Warged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau, ond yna caiff ei wrthdroi drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn fel y bydd buddiannau gwyliau yn cael eu codi i'r cyfrif refeniw yn y flwyddyn ariannol y mae'r absenoldeb oherwydd gwyliau yn digwydd ynddi.

Buddiannau Terfynu

Buddiannau terfynu yw'r symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddo gwirfoddol.

Pan fydd buddiannau terfynu yn cynnwys pensiynau ychwanegol, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol mai'r swm sy'n daladwy gan y Grŵp i'r gronfa bensiwn neu'r pensiynwr yn ystod y flwyddyn sy'n cael ei godi ar falans y Gronfa Gyffredinol, yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn, mae angen neilltuo arian i ac o'r Gronfa Bensiynau Wrth Gefn er mwyn dileu'r dyledion a'r credydau tybiannol ar gyfer buddiannau terfynu ar ffurf pensiwn ychwanegol a rhoi dyledion ar gyfer yr arian parod a delir i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw gyfryw symiau sy'n daladwy ond nas telir ar ddiwedd y flwyddyn yn eu lle.

Buddiannau Ôl-gyflogaeth

Mae swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu yn cael dewis bod yn aelod o un o blith dau gynllun pensiwn ar wahân sy'n berthnasol iddynt:

- Cynllun Pensiwn Swyddogion yr Heddlu, a weinyddir drwy Gronfa Bensiwn i'r Heddlu
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Mae'r ddau gynllun yn rhoi buddiannau diffiniedig i'w haelodau (cyfandaliadau ymddeol a phensiynau), a enillwyd fel cyflogeion a oedd yn gweithio i'r Grŵp.

Mae'r cynllun Pensiwn hwn i Swyddogion yr Heddlu "heb ei ariannu" sy'n golygu na chaiff unrhyw asedau buddsoddi eu cronni i dalu pensiynau a buddiannau eraill yn y dyfodol, ac felly ni chaiff unrhyw ddarpariaeth i fodloni'r rhwymedigaeth i dalu buddiannau yn y dyfodol ei chynnwys yn y Fantolen. Mae rhwymedigaethau Cynllun Llywodraeth Leol y gellir eu priodoli i'r Grŵp wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau – h.y. asesiad o daliadau yn y dyfodol a gaiff eu gwneud mewn perthynas â buddiannau ymddeol a enillir hyd yma gan gyflogeion, yn seiliedig ar ragdybiaethau ynglŷn â chyfraddau marwolaethau, cyfraddau trosiant cyflogeion ac ati ac amcanestyniadau o enillion ar gyfer cyflogeion presennol.

Buddiannau yn ôl Disgresiwn

Mae gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl bwerau cyfyngedig hefyd i dalu buddiannau ymddeol yn ôl disgresiwn yn achos ymddeol yn gynnar. Bydd unrhyw rwymedigaethau yr amcangyfrifir eu bod yn codi o ganlyniad i ddyfarndal i unrhyw aelod o staff yn cronni yn y flwyddyn y gwneir y penderfyniad i wneud y dyfarndaliad a chyfrifir amdanynt drwy ddefnyddio'r un polisïau ag a gymhwysir at y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

**Grantiau a chyfraniadau'r Llywodraeth**

P'un a ydynt yn cael eu talu ar gyfrif, drwy randaliadau neu fel ôl-ddyledion, cydnabyddir grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau trydydd partion fel symiau dyledus i'r Grŵp pan fo sicrwydd rhesymol:

- Y bydd y Grŵp yn cydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm wrth y taliadau;
- Y bydd y grantiau neu'r cyfraniadau yn cael eu derbyn.

Caiff arian a flaendelir fel grantiau a chyfraniadau na fodlonwyd eu hamodau eu cario yn y Fantolen fel credydwyr. Pan fydd yr amodau wedi'u bodloni, caiff y grant neu'r cyfraniad ei gredydu i'r gwasanaeth perthnasol (grantiau refeniw a chyfraniadau y gellir eu priodoli) neu Drethiant ac Incwm Grant Amhenodol (grantiau refeniw nas clustnodwyd yn benodol a phob grant cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Lle y caiff grantiau cyfalaf eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, cânt eu gwrthdroi o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Lle nad yw'r grant wedi cael ei ddefnyddio eto i ariannu gwariant cyfalaf, caiff ei gofnodi ar y gronfa Grantiau Cyfalaf nas Defnyddiwyd wrth gefn. Lle mae wedi cael ei ddefnyddio, caiff ei gofnodi ar y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf. Caiff symiau yn y gronfa Grantiau Cyfalaf nas Defnyddiwyd wrth gefn eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf unwaith eu bod wedi'u defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf.

**Prydlesau**

Caiff symiau rhent taladwy/derbyniadwy eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau.

**Treth ar Werth (TAW)**

Mae TAW sy'n daladwy yn cael ei chynnwys fel traul dim ond i'r graddau nad yw'r Grŵp yn gallu ei hadennill oddi wrth Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Nid yw TAW sy'n dderbyniadwy wedi'i chynnwys mewn incwm.

## 2. Addasiadau cyfnod blaenorol

Nid oes unrhyw addasiadau cyfnod blaenorol sy'n effeithio ar Ddatganiad Cyfrifon y Grŵp ar gyfer 2020/21.

## 3. Safonau cyfrifyddu sydd wedi cael eu cyhoeddi ond nad ydynt wedi'u mabwysiadu eto

Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud ag effaith newid cyfrifyddu a fydd yn ofynnol o dan safon gyfrifyddu newydd sydd wedi cael ei chyhoeddi ond nad yw wedi'i mabwysiadu eto o dan y Cod. Bydd y newidiadau canlynol yn ofynnol o 1 Ebrill 2021:

- Diffiniad Busnes: Diwygiadau i *IFRS 3 Cyfuniadau Busnes*
- Diwygio Meincnodi Cyfraddau Llog: Diwygiadau i *IFRS 9, IAS 39 a IFRS 7*
- Diwygio Meincnodi Cyfraddau Llog - Cam 2: Diwygiadau i *IFRS 9, IAS 39, IFRS 7, IFRS 4 a IFRS 16.*

Ar hyn o bryd, ni ragwelir y bydd effaith y newidiadau uchod ar y Datganiadau Ariannol yn berthnasol. Fodd bynnag, wrth baratoi'r Datganiadau Ariannol ar gyfer 2021/22, caiff effaith y newidiadau ei hasesu ac os bydd angen, caiff y ffigurau cymaradwy eu hailddatgan.

## 4. Dyfarniadau hollbwysig wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu

Mae cryn ansicrwydd o hyd ynghylch lefelau ariannu yn y dyfodol ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys a bydd graddfa ymyriadau economaidd diweddar y Llywodraeth i ddelio â phandemig y Coronafeirws yn sicr yn effeithio'n sylweddol ar wasanaethau cyhoeddus a'u cyllid. Bydd gwaith yn parhau i asesu'r goblygiadau ariannol ar gyfer 2020/21 a thu hwnt, ond bydd hyn yn cymryd peth amser i grisialu o ran y materion lleol ond hefyd o fewn y dirwedd economaidd ehangach. Mae'r Comisiynydd wedi penderfynu nad yw'r ansicrwydd hwn yn ddigon eto i roi amcan o asedau y gallai eu gwerth leihau o ganlyniad i'r angen i gau cyfleusterau a lleihau lefelau gwasanaethau a ddarperir.

## 5. Rhagdybiaethau a ffynonellau mawr eraill o ansicrwydd amcangyfrif

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cynnwys ffigurau amcangyfrifedig sy'n seiliedig ar ragdybiaethau a wnaed gan y Comisiynydd ynglŷn â'r dyfodol neu eu bod fel arall yn ansicr. Llunnir amcangyfrifon gan ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau presennol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu balansau gyda sicrwydd, gallai canlyniadau gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon.

Mae'r eitemau yn y Fantolen ar 31 Mawrth 2021 y mae risg sylweddol y bydd angen addasiad perthnasol ar ei chyfer yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod fel a ganlyn:

| Eitem | Ansicrwydd | Effaith os bydd y canlyniadau gwirioneddol yn wahanol i'r rhagdybiaethau |
|---|---|---|
| **Rhwymedigaeth pensiynau** | Mae'r amcangyfrif o'r rhwymedigaeth net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n ymwneud â'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, y gyfradd y rhagwelir y bydd cyflogau yn cynyddu yn unol â hi, newidiadau mewn oedran ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac enillion disgwyliedig ar asedau'r gronfa bensiwn. Penodir cwmni o actiwarïaid ymgynghorol i roi cyngor arbenigol ynglŷn â'r rhagdybiaethau i'w cymhwyso. | Swm cario'r atebolrwydd pensiynau net (cynlluniau Llywodraeth Leol a Swyddogion Heddlu) oedd £ 1,676m ar 31 Mawrth 2021.Gellir mesur effeithiau newidiadau mewn rhagdybiaethau unigol ar y rhwymedigaeth pensiynau net. Er enghraifft, byddai cynnydd o 0.1% yn y tâl a ddyfernir ar gyfer cynllun pensiwn swyddogion yr heddlu yn arwain at gynnydd yn atebolrwydd cronfa bensiwn yr heddlu o £1,589 miliwn i £1,596 miliwn. |

## 6. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Awdurdodwyd y Datganiad o Gyfrifon drafft i'w gyhoeddi gan y Prif Swyddog Ariannol ar 28 Gorffennaf 2021. Nid oes unrhyw ddigwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen a fyddai'n effeithio ar sefyllfa ariannol y Grŵp ar gyfer 2020/21.

## 7. Nodyn i'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllid

Mae'r nodyn canlynol yn cyflwyno rhagor o fanylion i ategu'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllid ac mae'n cysoni'r prif addasiadau â Gwariant Net y gellir ei godi ar y Gronfa Gyffredinol er mwyn cyfrifo'r symiau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Esbonnir y trosglwyddiadau perthnasol rhwng cronfeydd wrth gefn yn y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

**2020/21**

| Addasiadau O'r Gronfa Gyffredinol i Bennu'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf (Colofn A) £'000 | Newid net ar gyfer Addasiadau Pensiynau (Colofn B) £'000 | Gwahaniaethau Eraill (Colofn C) £'000 | Cyfanswm yr Addasiadau £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyflog Swyddogion yr Heddlu | 0 | 0 | 1,652 | **1,652** |
| Goramser Swyddogion yr Heddlu | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Pensiynau Swyddogion yr Heddlu | 0 | 14,783 | 0 | **14,783** |
| Cyflog Staff yr Heddlu | 0 | 0 | 534 | **534** |
| Goramser Staff yr Hedddlu | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Pensiynau Staff yr Heddlu | 0 | 4,328 | 0 | **4,328** |
| Costau Eraill sy'n Gysylltiedig â Gweithwyr | 0 | 0 | 13 | **13** |
| Costau Adeiladau | 0 | 0 | (461) | **(461)** |
| Costau Trafnidiaeth | 0 | 0 | (12) | **(12)** |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 0 | 0 | (134) | **(134)** |
| Gwasanaethau Asiantaeth a Chontract | 0 | 0 | 201 | **201** |
| Costau Ariannu Cyfalaf | 2,019 | 0 | 0 | **2,019** |
| Grantiau | 0 | 0 | 812 | **812** |
| Incwm Arall | 0 | 0 | 237 | **237** |
| **Cost Net Gwasanaethau (cyn McCloud)** | **2,019** | **19,111** | **2,842** | **23,972** |
| Pensiynau Swyddogion yr Heddlu - Effaith Bosibl Her Gyfreithiol Pensiynau'r Heddlu (McCloud) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pensiynau Staff yr Heddlu - Effaith Bosibl Her Gyfreithiol Pensiynau'r Heddlu (McCloud) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cost Net Gwasanaethau** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| Incwm a Gwariant Arall | (239) | 16,994 | (267) | **16,488** |
| **Gwarged / (Diffyg) ar gyfer y Flwyddyn** | **1,780** | **36,105** | **2,575** | **40,460** |

**2019/20**

| Addasiadau O'r Gronfa Gyffredinol i Bennu'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf (Colofn A) £'000 | Newid net ar gyfer Addasiadau Pensiynau (Colofn B) £'000 | Gwahaniaethau Eraill (Colofn C) £'000 | Cyfanswm yr Addasiadau £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyflog Swyddogion yr Heddlu | 0 | 0 | 503 | **503** |
| Goramser Swyddogion yr Heddlu | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Pensiynau Swyddogion yr Heddlu | 0 | 14,716 | 0 | **14,716** |
| Cyflog Staff yr Heddlu | 0 | 0 | 554 | **554** |
| Goramser Staff yr Heddllu | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Pensiynau Staff yr Heddlu | 0 | 4,977 | 0 | **4,977** |
| Costau Eraill sy'n Gysylltiedig â Gweithwyr | 0 | 0 | (31) | **(31)** |
| Costau Adeiladau | 0 | 0 | (320) | **(320)** |
| Costau Trafnidiaeth | 0 | 0 | (54) | **(54)** |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 0 | 0 | (162) | **(162)** |
| Gwasanaethau Asiantaeth a Chontract | 0 | 0 | (110) | **(110)** |
| Costau Ariannu Cyfalaf | 1,893 | 0 | 0 | **1,893** |
| Grantiau | 0 | 0 | 737 | **737** |
| Incwm Arall | 0 | 0 | (531) | **(531)** |
| **Cost Net Gwasanaethau (cyn McCloud)** | **1,893** | **19,693** | **586** | **22,172** |
| Pensiynau Swyddogion yr Heddlu - Effaith Bosibl Her Gyfreithiol Pensiynau'r Heddlu (McCloud) | 0 | 5,145 | 0 | **5,145** |
| Pensiynau Staff yr Heddlu - Effaith Bosibl Her Gyfreithiol Pensiynau'r Heddlu (McCloud) | 0 | 561 | 0 | **561** |
| **Cost Net Gwasanaethau** | **1,893** | **25,399** | **586** | **27,878** |
| Incwm a Gwariant Arall | (1,121) | 17,650 | (337) | **16,192** |
| **Gwarged / (Diffyg) ar gyfer y Flwyddyn** | **772** | **43,049** | **249** | **44,070** |

## Colofn A - Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf

Ar gyfer Gwasanaethau - ychwanegir dibrisiant, lleihad mewn gwerth ac enillion a cholledion ailbrisio. Newidiadau statudol ar gyfer ariannu cyfalaf h.y. didynnir Isafswm Darpariaeth Refeniw a chyfraniadau refeniw eraill o wasanaethau gan nad yw'r rhain yn symiau y gellir codi amdanynt o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Caiff grantiau cyfalaf eu haddasu ar gyfer incwm na ellir codi amdano o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

Ar gyfer gwariant gweithredu arall – addesir ar gyfer gwarediadau cyfalaf drwy drosglwyddo incwm o waredu asedau a'r symiau a ddilëwyd ar gyfer yr asedau hynny.

**Colofn B - Newid Net ar gyfer Addasiadau Pensiynau**

Newid net ar gyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegu gwariant ac incwm *Buddiannau Cyflogeion* IAS19 sy'n ymwneud â phensiwn:

Ar gyfer Gwasanaethau – mae hyn yn cynrychioli dileu cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a wnaed gan y Grŵp fel y'i caniateir drwy statud a disodli costau gwasanaeth presennol a chostau gwasanaeth a roddwyd.

Ar gyfer incwm a gwariant ariannu a buddsoddi – codir y llog net ar y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Ar gyfer Incwm a Gwariant Gweithredu arall – credydir Grant 'Ychwanegol' Pensiynau'r Swyddfa Gartref i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**Colofn C – Gwahaniaethau Eraill**

Gwahaniaethau eraill rhwng symiau a ddebydwyd/credydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a symiau taladwy/derbyniadwy i'w cydnabod o dan statud:

Ar gyfer Gwasanaethau - addesir yn ôl y swm y mae cydnabyddiaeth i swyddogion a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau yn wahanol i gydnabyddiaeth y gellir codi amdani yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol.

Ar gyfer incwm a gwariant ariannu a buddsoddi - addesir yn ôl y swm y mae costau cyllid a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr mewn perthynas ag Offerynnau Ariannol yn wahanol i gostau cyllid y gellir codi amdanynt yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol.

Mae nifer o addasiadau cyflwyno wedi'u gwneud hefyd rhwng Gwasanaethau ac Incwm a Gwariant Arall (h.y. uwchlaw'r llinell ac islaw'r llinell). Yn gyffredinol, ni chaiff yr addasiadau hyn unrhyw effaith.

## 8. Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Gyllido o dan y Rheoliadau

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a'r gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan y Grŵp/Comisiynydd yn ystod y flwyddyn yn unol ag arfer cyfrifyddu priodol i'r adnoddau y mae darpariaethau statudol yn pennu eu bod ar gael i'r Comisiynydd i fodloni gwariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol.

| 2020/21 | Balans y Gronfa Gyffredinol £'000 | Grantiau Cyfalaf Nas Defnyddiwyd £'000 | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn £'000 | Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Addasiadau sy'n ymwneud â'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn bennaf | | | | |
| Gwrthdroi eitemau a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. | | | | |
| Taliadau a godir am ddibrisiant a lleihad yng ngwerth asedau anghyfredol | (4,856) | 0 | 0 | 4,856 |
| Colledion ailbrisio ar eiddo, offer a chyfarpar | (64) | 0 | 0 | 64 |
| Amorteiddio asedau anniriaethol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a gymhwyswyd | 429 | 0 | 0 | (429) |
| Symudiad yn y Cyfrif Asedau a Roddwyd yn Rhodd | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Symiau asedau anghyfredol a ddilëwyd ar adeg gwaredu neu werthu fel rhan o'r ennill/golled o waredu ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (150) | 0 | 0 | 150 |
| Gosod eitemau nas debydwyd neu nas credydwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | | | | |
| Gwariant cyfalaf a godir yn erbyn y Gronfa Gyffredinol | 2,836 | 0 | 0 | (2,836) |
| Addasiadau sy'n ymwneud â'r Cyfrif Grantiau nas Defnyddiwyd yn bennaf | | | | |
| Grantiau cyfalaf a chyfraniadau nas defnyddiwyd a gredydwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cymhwyso grantiau at ariannu cyfalaf a drosglwyddwyd i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf | 0 | 307 | 0 | (307) |
| Addasiadau sy'n ymwneud â'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn | | | | |
| Trosglwyddo enillion gwerthu arian parod a gredydwyd fel rhan o'r ennill/golled o waredu ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Defnyddio Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn i ariannu gwariant cyfalaf newydd | 24 | 0 | 0 | (24) |
| Addasiadau sy'n ymwneud â'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol | | | | |
| Y swm y mae'r costau cyllid a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau cyllid y gellir codi amdanynt yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Addasiadau sy'n ymwneud â'r Gronfa Bensiynau Wrth Gefn yn bennaf | | | | |
| Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â buddiannau ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 15,801 | 0 | 0 | (15,801) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfraniadau pensiynau'r cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn | (51,906) | 0 | 0 | 51,906 |
| Addasiadau sy'n ymwneud â'r Cyfrif Balansau Cronedig yn bennaf | | | | |
| Y swm y mae cydnabyddiaeth i swyddogion a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau yn wahanol i gydnabyddiaeth y gellir codi amdani yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (3,062) | 0 | 0 | 3,062 |
| Addasiadau o ran cyfran deg o Drefniadau Cydweithio | 488 | 0 | 0 | (488) |
| **Cyfanswm yr addasiadau** | **(40,460)** | **307** | **0** | **40,153** |

| 2019/20 | Balans y Gronfa Gyffredinol £'000 | Grantiau Cyfalaf Nas Defnyddiwyd £'000 | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn £'000 | Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Addasiadau sy'n ymwneud â'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn bennaf | | | | |
| Gwrthdroi eitemau a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. | | | | |
| Taliadau a godir am ddibrisiant a lleihad yng ngwerth asedau anghyfredol | (4,386) | 0 | 0 | 4,386 |
| Colledion ailbrisio ar eiddo, offer a chyfarpar | (155) | 0 | 0 | 155 |
| Amorteiddio asedau anniriaethol | (10) | 0 | 0 | 10 |
| Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a gymhwyswyd | 839 | 0 | 0 | (839) |
| Symudiad yn y Cyfrif Asedau a Roddwyd yn Rhodd | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Symiau asedau anghyfredol a ddilëwyd ar adeg gwaredu neu werthu fel rhan o'r ennill/golled o waredu ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (1,345) | 0 | 0 | 1,345 |
| Gosod eitemau nas debydwyd neu nas credydwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | | | | |
| Gwariant cyfalaf a godir yn erbyn y Gronfa Gyffredinol | 2,496 | 0 | 0 | (2,496) |
| Addasiadau sy'n ymwneud â'r Cyfrif Grantiau nas Defnyddiwyd yn bennaf | | | | |
| Grantiau cyfalaf a chyfraniadau nas defnyddiwyd a gredydwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cymhwyso grantiau at ariannu cyfalaf a drosglwyddwyd i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Addasiadau sy'n ymwneud â'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn | | | | |
| Trosglwyddo enillion gwerthu arian parod a gredydwyd fel rhan o'r ennill/golled o waredu ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Defnyddio Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn i ariannu gwariant cyfalaf newydd | 1,789 | 0 | 0 | (1,789) |
| Addasiadau sy'n ymwneud â'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol | | | | |
| Y swm y mae'r costau cyllid a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau cyllid y gellir codi amdanynt yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Addasiadau sy'n ymwneud â'r Gronfa Bensiynau Wrth Gefn yn bennaf | | | | |
| Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â buddiannau ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 16,217 | 0 | 0 | (16,217) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfraniadau pensiynau'r cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn | (59,266) | 0 | 0 | 59,266 |
| Addasiadau sy'n ymwneud â'r Cyfrif Balansau Cronedig yn bennaf | | | | |
| Y swm y mae cydnabyddiaeth i swyddogion a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau yn wahanol i gydnabyddiaeth y gellir codi amdani yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (213) | 0 | 0 | 213 |
| Addasiadau o ran cyfran deg o Drefniadau Cydweithio | (36) | 0 | 0 | 36 |
| **Cyfanswm yr addasiadau** | **(44,070)** | **0** | **0** | **44,070** |

## 9. Trosglwyddiadau i/o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd

Mae'r nodyn hwn yn nodi'r symiau a neilltuwyd o falans y Gronfa Gyffredinol mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i ddarparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwariant yn y dyfodol a'r symiau a drosglwyddwyd yn ôl o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i fodloni gwariant y Gronfa Gyffredinol yn 2020/21.

| Cronfa wrth gefn | Ar 31 Mawrth 2019 £'000 | Trosglwy -ddiadau i mewn 19/20 £'000 | Trosglwyddiadau allan 19/20 £'000 | Ar 31 Mawrth 2020 £'000 | Trosglwyddiadau i mewn 20/21 £'000 | Trosglwyddiadau allan 20/21 £'000 | Ar 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol | (4,032) | 0 | 0 | (4,032) | 0 | 0 | (4,032) |
| **Cyfanswm Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol** | **(4,032)** | **0** | **0** | **(4,032)** | **0** | **0** | **(4,032)** |
| Yswiriant ac Ymgyfreitha | 0 | 0 | 0 | 0 | (450) | 0 | (450) |
| Cronfa Refeniw Wrth Gefn a Glustnodwyd | (1,336) | (415) | 977 | (774) | 0 | 774 | 0 |
| Cronfa Wrth Gefn Ymgyrch Talla / COVID | 0 | (650) | 0 | (650) | (678) | 917 | (411) |
| Cronfa Weithredol y Prif Gwnstabl | (385) | (100) | 0 | (485) | (188) | 174 | (499) |
| Prosiectau Refeniw Trawsnewidiol | 0 | 0 | 0 | 0 | (572) | 0 | (572) |
| Goleudy/Gwasanaethau i Ddioddefwyr | 0 | 0 | 0 | 0 | (92) | 0 | (92) |
| Cronfa Cynaliadwyedd a Thrawsnewid | (494) | 0 | 0 | (494) | 0 | 0 | (494) |
| Deddf Enillion Troseddau | (218) | (32) | 88 | (162) | (60) | 86 | (136) |
| Cronfa'r Comisiynydd | 0 | 0 | 0 | 0 | (428) | 0 | (428) |
| Cronfa Wrth Gefn Fforffedu | 0 | 0 | 0 | 0 | (50) | 13 | (37) |
| Gwerthu Eiddo a Ganfuwyd | 0 | 0 | 0 | 0 | (41) | 7 | (34) |
| Uwch Gyflogeion 2020/21 | O | I | Cyflog cyfwerth ag amser llawn ar 31.03.21 neu'r dyddiad gorffen £ | Cyflog gwirioneddol, gan gynnwys lwfansau £ | Buddion mewn nwyddau/ gwasanaethau - ceir prydles £ | Buddion mewn nwyddau/ gwasanaethau - treuliau adleoli £ | Cyflog yn Lle Rhybudd / Taliad Ymadael £ | Cyfanswm y gydnabyddiaeth heb gynnwys cyfraniadau pensiwn £ | Cyfraniadau pensiwn £ | Cyfanswm y gydnabyddiaeth £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif Gwnstabl | 01/04/2020 | 24/03/2021 | **146,469** | 145,534 | 0 | 0 | 0 | **145,534** | 44,089 | **189,623** |
| Prif Gwnstabl Dros Dro | 27/02/2021 | 31/03/2021 | **131,823** | 12,188 | 0 | 0 | 0 | **12,188** | 3,649 | **15,837** |
| Dirprwy Brif Gwnstabl | 01/04/2020 | 26/02/2021 | **122,628** | 112,522 | 0 | 0 | 0 | **112,522** | 34,234 | **146,756** |
| Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro (A) | 28/02/2021 | 31/03/2021 | **122,628** | 10,826 | 0 | 0 | 0 | **10,826** | 3,281 | **14,107** |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro (A) | 01/04/2020 | 03/05/2020 | **109,662** | 12,476 | 0 | 0 | 0 | **12,476** | 4,354 | **16,830** |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro (B) | 01/04/2020 | 20/06/2020 | **103,023** | 23,574 | 1,136 | 0 | 0 | **24,710** | 7,097 | **31,807** |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol | 04/05/2020 | 27/02/2021 | **119,220** | 102,143 | 0 | 0 | 0 | **102,143** | 29,510 | **131,653** |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro (C) | 28/02/2021 | 31/03/2021 | **105,600** | 8,800 | 0 | 0 | 0 | **8,800** | 2,323 | **11,123** |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol - Cydweithrediad Rhanbarthol Cymru Gyfan* | 03/01/2021 | 31/03/2021 | **105,600** | 26,433 | 3,862 | 0 | 0 | **30,295** | 8,008 | **38,303** |
| Cyfarwyddwr Cyllid/ Prif Swyddog Cyllid y Prif Gwnstabl | 01/04/2020 | 31/03/2021 | **94,482** | 93,522 | 0 | 0 | 0 | **93,522** | 16,647 | **110,169** |
| Y Comisiynydd | 01/04/2020 | 31/03/2021 | **66,300** | 66,300 | 0 | 0 | 0 | **66,300** | 11,801 | **78,101** |
| Prif Swyddog Cyllid y Comisiynydd* | 01/04/2020 | 31/03/2021 | **84,690** | 58,506 | 0 | 0 | 0 | **58,506** | 10,414 | **68,920** |
| Pennaeth Staff* | 01/04/2020 | 31/03/2021 | **84,690** | 83,830 | 0 | 0 | 0 | **83,830** | 14,922 | **98,752** |
| Cyfarwyddwr Ystadau* | 01/04/2020 | 31/03/2021 | **68,138** | 67,446 | 0 | 0 | 0 | **67,446** | 12,005 | **79,451** |
| **Cyfanswm 2020/21** | | | | **824,100** | **4,998** | **0** | **0** | **829,098** | **202,334** | **1,031,432** |

*staff o dan gyfarwyddyd a rheolaeth y Comisiynydd

Darperir cerbydau ar gyfer y Prif Gwnstabl a'r Dirprwy Brif Gwnstabl ond nid oes yn rhaid talu treth incwm mewn perthynas â'r budd, gan fod y ddau swyddog hyn ar alwad drwy'r amser.  Mae hyn yn unol ag Adran 248A o'r Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) sy'n datgan: “1)This section applies where a) an emergency vehicle is made available to a person employed in an emergency service for the person’s private use and b) the terms on which it is made available prohibit its private use otherwise than when the person is on call or engaged in on call or engaged in on-call commuting and c) the person does not make private use of it other than in such circumstances, 2) No liability to income tax arises by virtue of Chapter 6 or 10 or Part 3 (taxable benefits: cars, vans etc. and residual liability to charge) in respect of the benefit.

| Uwch Gyflogeion 2019/20 | O | I | Cyflog cyfwerth ag amser llawn ar 31.03.20 neu'r dyddiad gorffen £ | Cyflog gwirioneddol, gan gynnwys lwfansau £ | Buddion mewn nwyddau/ gwasanaethau - ceir prydles £ | Buddion mewn nwyddau/ gwasanaethau - treuliau adleoli £ | Cyflog yn Lle Rhybudd / Taliad Ymadael £ | Cyfanswm y gydnabyddiaeth heb gynnwys cyfraniadau pensiwn £ | Cyfraniadau pensiwn £ | Cyfanswm y gydnabyddiaeth £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif Gwnstabl | 01/04/2019 | 31/03/2020 | **142,986** | 144,817 | 0 | 0 | 0 | **144,817** | 43,848 | **188,665** |
| Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro (A) | 01/04/2019 | 27/04/2019 | **116,718** | 8,754 | 0 | 0 | 0 | **8,754** | 2,714 | **11,468** |
| Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro (B) | 03/04/2019 | 31/08/2019 | **116,718** | 49,029 | 0 | 0 | 0 | **49,029** | 14,875 | **63,904** |
| Dirprwy Brif Gwnstabl | 01/09/2019 | 31/03/2020 | **119,637** | 71,251 | 0 | 0 | 0 | **71,251** | 21,634 | **92,885** |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro (A) | 01/04/2019 | 31/03/2020 | **103,023** | 101,976 | 2,638 | 0 | 0 | **104,614** | 31,612 | **136,226** |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro (B) | 08/12/2019 | 31/03/2020 | **103,023** | 33,123 | 5,644 | 0 | 0 | **38,767** | 10,045 | **48,812** |
| Cyfarwyddwr Cyllid/ Prif Swyddog Cyllid y Prif Gwnstabl | 01/04/2019 | 31/03/2020 | **90,201** | 89,285 | 0 | 0 | 0 | **89,285** | 12,053 | **101,338** |
| Y Comisiynydd | 01/04/2019 | 31/03/2020 | **66,300** | 66,300 | 0 | 0 | 0 | **66,300** | 8,951 | **75,251** |
| Prif Swyddog Cyllid y Comisiynydd* | 01/04/2019 | 31/03/2020 | **80,530** | 54,075 | 0 | 0 | 0 | **54,075** | 7,290 | **61,365** |
| Pennaeth Staff* | 01/04/2019 | 31/03/2020 | **80,530** | 80,032 | 0 | 0 | 0 | **80,032** | 10,760 | **90,792** |
| Cyfarwyddwr Ystadau* | 01/04/2019 | 31/03/2020 | **65,386** | 64,386 | 0 | 0 | 0 | **64,386** | 8,657 | **73,043** |
| **Cyfanswm 2019/20** | | | | **763,028** | **8,282** | **0** | **0** | **771,310** | **172,439** | **943,749** |

*staff o dan gyfarwyddyd a rheolaeth y Comisiynydd
Darperir cerbydau ar gyfer y Prif Gwnstabl a'r Dirprwy Brif Gwnstabl ond nid oes yn rhaid talu treth incwm mewn perthynas â'r budd, gan fod y ddau swyddog hyn ar alwad drwy'r amser. Mae hyn yn unol ag Adran 248A o'r Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) sy'n datgan: “1)This section applies where a) an emergency vehicle is made available to a person employed in an emergency service for the person’s private use and b) the terms on which it is made available prohibit its private use otherwise than when the person is on call or engaged in on call or engaged in on-call commuting and c) the person does not make private use of it other than in such circumstances, 2) No liability to income tax arises by virtue of Chapter 6 or 10 or Part 3 (taxable benefits: cars, vans etc. and residual liability to charge) in respect of the benefit.

**Cyflogeion eraill- (heb gynnwys uwch swyddogion – y nodir eu manylion uchod)**

Talwyd y symiau canlynol i gyflogeion eraill Grŵp a oedd yn cael cydnabyddiaeth o fwy na £60,000 ar gyfer y flwyddyn (heb gynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr):

| 2019/20 Nifer y cyflogeion | | 2020/21 Nifer y cyflogeion |
|---|---|---|
| 12 | £60,000 - £64,999 | 25 |
| 4 | £65,000 - £69,999 | 6 |
| 3 | £70,000 - £74,999 | 6 |
| 4 | £75,000 - £79,999 | 2 |
| 7 | £80,000 - £84,999 | 2 |
| 0 | £85,000 - £89,999 | 5 |
| 1 | £90,000 - £94,999 | 1 |
| 0 | £95,000 - £99,999 | 0 |

Cymhareb Cydnabyddiaeth y Prif Gwnstabl/Cydnabyddiaeth y Pennaeth Staff

Mae'r diwygiad i Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) yn 2014 wedi ychwanegu gofyniad newydd i nodi gwybodaeth ganlynol am gymhareb y gydnabyddiaeth:

a) cydnabyddiaeth Prif Gwnstabl/Pennaeth Staff y corff yn ystod y flwyddyn y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hi;

b) cydnabyddiaeth cyfwerth ag amser llawn ganolrifol holl gyflogeion y corff a oedd mewn swydd ar 31 Mawrth 2021; a

c) y gymhareb rhwng y swm yn is-baragraff (a) a'r swm yn is-baragraff (b).

Mae cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog sylfaenol, goramser, lwfansau a buddion mewn nwyddau neu wasanaethau.

**Y Comisiynydd**

Cydnabyddiaeth y Pennaeth Staff ar gyfer 2020/21 oedd £84,690 (2019/20: £80,032)

Cydnabyddiaeth cyfwerth ag amser llawn ganolrifol holl gyflogeion y Comisiynydd ar 31 Mawrth 2021 oedd £28,250 (2019/20: £25,380)

Y gymhareb rhwng cydnabyddiaeth y Pennaeth Staff a chydnabyddiaeth ganolrifol cyflogeion y Comisiynydd oedd 3:00:1 (2019/20: 3.15:1 )

**Prif Gwnstabl**

Ymddeolodd y Prif Gwnstabl cyn diwedd y flwyddyn. Fel y person â'r cyflog uchaf yn y flwyddyn 2020/21, eu cydnabyddiaeth am y flwyddyn oedd £149,842 (2019/20: £144,817). Ni chafodd y Prif Gwnstabl unrhyw fuddion mewn nwyddau neu wasanaethau yn 2020/21 (2019/20: dim)

Cydnabyddiaeth cyfwerth ag amser llawn ganolrifol holl gyflogeion y Prif Gwnstabl ar 31 Mawrth 2021 oedd £35,019 (2019/20: £35,980)

Y gymhareb rhwng cydnabyddiaeth y Prif Gwnstabl a chydnabyddiaeth ganolrifol cyflogeion y Prif Gwnstabl oedd 4.28:1 (2019/20: 4.02:1)

Y Prif Gwnstabl Dros Dro oedd y person â'r cyflog uchaf ar 31 Mawrth 2021. Eu cydnabyddiaeth blynyddol cyfatebol oedd £134,330 (2019/20: £144,817)

Cydnabyddiaeth cyfwerth ag amser llawn ganolrifol holl gyflogeion y Prif Gwnstabl ar 31 Mawrth 2021 oedd £35,019 (2019/20: £35,980)

Y gymhareb rhwng cydnabyddiaeth blynyddol cyfatebol y Prif Gwnstabl Dros Dro a chydnabyddiaeth ganolrifol cyflogeion y Prif Gwnstabl oedd 3.84:1 (2019/20: 4.02:1)

### Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio

yd y symiau canlynol i aelodau yn 2020/21 a 2019/20.

| Y Grŵp 2019/20 £'000 | Y Comisiynydd 2019/20 £'000 | | Y Grŵp 2020/21 £'000 | Y Comisiynydd 2020/21 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| 0 | 0 | Cyflogau | 0 | 0 |
| 4 | 4 | Lwfansau | 2 | 2 |
| 1 | 1 | Treuliau | 0 | 0 |
| **5** | **5** | **Cyfanswm** | **2** | **2** |

## 29. Costau archwilio allanol

Yn 2020/21 aeth y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i gost o £79k (2019/20: £79k) mewn perthynas ag archwilio'r Datganiad o Gyfrifon, ardystio hawliadau grant ac arolygiadau statudol a gwasanaethau a ddarparwyd gan archwilwyr allanol yr heddlu nad ydynt yn rhai archwilio.

## 30. Incwm Grant

Credydodd y Comisiynydd y grantiau canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

| 2019/20 *(Ailddatganwyd) £'000 | | 2020/21 £'000 |
|---|---|---|
| | Credydwyd i Drethiant ac incwm grant Amhenodol | |
| (34,204) | Grant Refeniw'r Heddlu | (33,820) |
| (2,789) | Grant Gwaelodol Cymru | (7,146) |
| (4,455) | Grant Cynnal Refeniw | (4,473) |
| (839) | Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau | (429) |
| **(42,287)** | **Cyfanswm y grantiau a gredydwyd i Drethi ac incwm grantiau amhenodol** | **(45,868)** |
| | Credydwyd i wasanaethau | |
| | *Grantiau refeniw* | |
| (2,479) | Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu (SCCH) | (2,837) |
| (2,581) | Grantiau Gwrthderfysgaeth | (2,620) |
| (1,302) | Grant Penodol - pensiynau | (1,302) |
| (204) | Rhaglen Uplift yr Heddlu | (1,190) |
| 0 | Grantiau cysylltiedig â COVID | (1,178) |
| 0 | Cyllid Pontio Undeb Ewropeaidd Llywodraeth Cymru | (150) |
| (367) | Gwasanaethau Cymorth i Ddioddefwyr (Goleudy) | (367) |
| 0 | Grant Arbennig – Ymgyrch Asper (Gwersyll Ceiswyr Lloches Penalun) | (440) |
| (338) | Menter Cyllid Preifat | (325) |
| (302) | Rhaglen Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan | (301) |
| (186) | Grant Datgelu a Gwahardd | (263) |
| (195) | Grant Benthyciadau Cyfalaf | (195) |
| (50) | Grant Dyfais Ynni a Ddargludir (Tazer) | (50) |
| (36) | Grantiau Refeniw Eraill | (117) |
| **(8,040)** | **Cyfanswm y Grantiau Refeniw y mae'r Heddlu yn cyfrif amdanynt** | **(11,335)** |
| (230) | Gwasanaethau Cefnogi Dioddefwyr | (487) |
| 0 | Cronfa Strydoedd Mwy Diogel | (103) |
| **(230)** | **Cyfanswm y Grantiau Refeniw y mae'r Comisiynydd yn cyfrif amdanynt** | **(590)** |
| | ***Grantiau Cydweithredol* | |
| 737 | Swyddi Diogelwch Penodol (Uned y Porthladdoedd) - Addasiad Cyfran Deg | 811 |
| **(7,533)** | **Cyfanswm y grantiau a gredydwyd i wasanaethau** | **(11,114)** |

* Mae incwm grant wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod 2020/21. Er mwyn darparu dadansoddiad mwy ystyrlon o'r grantiau a dderbyniwyd, mae cyflwyniad y nodyn wedi'i ddiwygio ac mae ffigurau 2019/20 wedi'u hailddatgan yn unol â hynny.
** Mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd a Lluoedd Heddlu yng Nghymru yn cydymffurfio â gofynion sy'n codi o ganllawiau CIPFA ar “Accounting for Collaboration”. Mae'r canllawiau hyn yn ei gwneud yn ofynnol iddynt asesu'r holl weithgaredd cydweithredol ac addasu ar gyfer eu cyfran deg o incwm grant yn eu cyfrifon unigol.

## 31. Partïon cysylltiedig

Mae'n ofynnol i'r Grŵp/Comisiynydd ddatgelu trafodion perthnasol â phartïon cysylltiedig, h.y. cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu ar y Grŵp/Comisiynydd neu'r potensial i'r Grŵp/Comisiynydd eu rheoli neu ddylanwadu arnynt. Drwy ddatgelu'r trafodion hyn gall darllenwyr asesu i ba raddau y gallai'r Grŵp/Comisiynydd fod wedi'i gyfyngu yn ei allu i weithredu'n annibynnol neu y gallai fod wedi sicrhau'r gallu i gyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n ddirwystr â'r Grŵp/Comisiynydd.

Llywodraeth Ganolog a Chyrff Cyhoeddus Eraill

Mae gan lywodraeth ganolog ddylanwad sylweddol ar weithrediadau cyffredinol y Grŵp/Comisiynydd – mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol y mae'r Grŵp/Comisiynydd yn gweithredu oddi mewn iddo, yn darparu'r rhan fwyaf o'i gyllid ar ffurf grantiau ac yn rhagnodi telerau llawer o'r trafodion sydd gan y Grŵp/Comisiynydd â phartion eraill. Derbynnir nifer o grantiau gan y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru, y mae gan y rhan fwyaf ohonynt delerau ac amodau caeth a gwelir y rhain yn Nodyn 30.

Llywodraeth Leol

Mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn derbyn incwm ar ffurf praeseptau o Gronfeydd Casglu Trethi Cyngor Awdurdodau Lleol. Mae'r incwm a dderbyniwyd ar gyfer 2019/20 a 2020/21 i'w weld isod:

| 2019/20<br>£'000 | | 2020/21<br>£'000 |
|---:|---|---:|
| (18,006) | Cyngor Sir Caerfyrddin | (19,283) |
| (13,933) | Cyngor Sir Penfro | (14,931) |
| (15,441) | Cyngor Sir Powys | (16,258) |
| (7,867) | Cyngor Sir Ceredigion | (8,321) |
| **(55,247)** | **Cyfanswm** | **(58,793)** |

Uwch Swyddogion

Mae'r Comisiynydd yn eistedd ar fwrdd Cwmni TGCh yr Heddlu. Mae Cwmni TGCh yr Heddlu yn gwmni cyfyngedig trwy warant ac mae'n llwyr eiddo i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ledled Cymru a Lloegr. Cafodd ei sefydlu er mwyn cefnogi gwaith plismona i wneud pobl yn fwy diogel drwy well TGCh a thrwy bontio'r bwlch rhwng yr heddlu, y byd technolegol a'r byd masnachol. Yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21, talodd Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys gyfanswm o £122,680 (2019/20: £110,682) i Gwmni TGCh yr Heddlu.

Mae'r Comisiynydd yn aelod o fwrdd Gwasanaeth Cymorth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu. Mae Gwasanaeth Cymorth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu'n darparu cymorth awyr i heddluoedd ledled Cymru a Lloegr. Yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21, talodd Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys gyfanswm o £206,296 (2019/20: £266,208) fel cyfraniad i'r gwasanaeth. Mae gan yr heddlu hefyd dri swyddog ar secondiad gyda'r Gwasanaeth ar sail adennill y gost yn llawn.

Yn ystod 2020/21, mae'r Comisiynydd wedi bod yn aelod o fwrdd *Embrace Child Victims of Crime* sy'n rôl wirfoddol heb dâl. Mae *Embrace Child Victims of Crime* yn elusen genedlaethol sy'n cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n dioddef troseddau difrifol. Yn ystod y flwyddyn, rhoddodd

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu £3,500 i'r elusen o'r Gronfa wrth Gefn Gwerthu Eiddo a Ganfuwyd.

Ni wnaeth unrhyw uwch swyddogion eraill ddatgan unrhyw gydberthnasau â phartïon cysylltiedig ar gyfer 2020/21.

Endidau y mae'r Grŵp/Comisiynydd yn eu Rheoli neu'n Dylanwadu'n Sylweddol arnynt

Mae'r Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a'r ddau Brif Swyddog Ariannol yn ymddiriedolwyr ymddiriedolaeth "Safer Dyfed-Powys Diogel". Ceir rhagor o wybodaeth am yr Ymddiriedolaeth yn nodyn 38, 'Cronfeydd Ymddiriedolaeth'. Yn 2020/21, ni fu unrhyw drafodion ariannol rhwng Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a Safer Dyfed-Powys Diogel (2019/20: £0).

Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio

Dangosir cyfanswm y lwfansau a'r treuliau a dalwyd i Aelodau yn ystod y flwyddyn yn nodyn 28.

Yn ystod 2020/21, bu un aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio yn Gyfarwyddwr Cyllid a TGCh Cymdeithas Tai Barcud.  Rhoddodd y gymdeithas £1,500 i Gronfa Gymunedol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn 2020/21.

Nid oes unrhyw un o'r aelodau sy'n weddill, na phartïon sy'n gysylltiedig â hwy, wedi cynnal unrhyw drafodion perthnasol â'r Comisiynydd yn 2020/21 nac yn 2019/20.

## 32. Gwariant cyfalaf ac ariannu cyfalaf

Dangosir cyfanswm y gwariant cyfalaf yr aed iddo yn ystod y flwyddyn yn y tabl isod, ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu.  Lle y bwriedir ariannu gwariant cyfalaf yn y dyfodol drwy daliadau a godir ar refeniw wrth i asedau gael eu defnyddio gan y Grŵp/Comisiynydd, mae'r gwariant yn arwain at gynnydd yn y Gofyniad Ariannu Cyfalaf, sef mesur o'r gwariant cyfalaf yr aed iddo'n hanesyddol gan y Grŵp/Comisiynydd sydd eto i'w ariannu.

| 2019/20 £'000 | | 2020/21 £'000 |
|---:|---|---:|
| **0** | **Gofyniad ariannu cyfalaf agoriadol** | **0** |
| 5,095 | Eiddo, Offer a Chyfarpar | 6,192 |
| 29 | Eiddo Buddsoddi | 48 |
| | Ffynonellau cyllid | |
| 1,789 | Derbyniadau cyfalaf | 24 |
| 839 | Grantiau'r Llywodraeth a chyfraniadau eraill | 736 |
| 1,005 | Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn | 1,774 |
| 1,491 | Cyfraniadau refeniw uniongyrchol | 1,063 |
| **0** | **Gofyniad ariannu cyfalaf wrth gau** | **2,643** |

Mae'r CFR yn mesur yr angen sylfaenol i fenthyca at ddibenion cyfalaf, er efallai na fydd y benthyca hwn o reidrwydd yn digwydd yn allanol. Mae'r tabl uchod yn cynrychioli unrhyw gynnydd yn yr angen i fenthyca, llai unrhyw Isafswm Darpariaethau Refeniw (MRP).

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd neilltuo swm o refeniw bob blwyddyn i ddarparu ar gyfer ad-dalu dyled. Gelwir hyn yn MRP. Mae'r MRP yn cael ei fesur yn ôl yr angen sylfaenol i fenthyca yn hytrach na'r ddyled wirioneddol. Mae'n ofynnol i Gomisiynwyr baratoi datganiad blynyddol o'u polisi ar wneud MRP yn unol â chanllawiau statudol a dylid ei gyfrifo ar sail ddarbodus. Mae'r polisi ar gyfer 2020/21 yn cynnwys:

| **Benthyca Darbodus – Dull Dibrisiant** |
|---|
| Mae'r MRP i fod yn gyfartal â'r ddarpariaeth sy'n ofynnol yn unol â chyfrifeg dibrisiant mewn perthynas â'r ased y mae gwariant wedi'i ariannu ar ei gyfer drwy fenthyciadau darbodus neu drefniadau credyd heb gymorth. Mae hyn yn adlewyrchu oes ddefnyddiol yr ased, yr amcangyfrifwyd ei bod yn 50 mlynedd mewn perthynas ag asedau Ystadau, 10 mlynedd mewn perthynas ag asedau seilwaith TG (e.e. Ystafell Reoli, RMS) a 5 mlynedd ar gyfer asedau TG eraill. |
| (a) Bydd yr MRP yn parhau i gael ei wneud yn flynyddol nes bod swm cronnol y ddarpariaeth honno yn hafal i'r gwariant a ariannwyd yn wreiddiol. |
| (b) Wrth waredu'r ased, ni fydd swm y derbyniad cyfalaf yn cael ei gymryd i'r cyfrif refeniw a bydd y CHTh yn cydymffurfio â gofynion arferol Deddf 2003 o ran defnyddio derbyniadau cyfalaf. |
| (c) Pan fo canran y gwariant ar yr ased a ariennir drwy fenthyca darbodus neu drefniadau credyd heb gymorth yn llai na 100%, bydd yr MRP yn hafal i'r un ganran o'r ddarpariaeth sy'n ofynnol o dan arferion cyfrifeg dibrisiant. |

Yn 2020/21 mae'r MRP yn £ dim (2019/20: £ dim). Codir tâl am MRP yn y flwyddyn ar ôl i'r ased ddod yn weithredol, yn unol â'r dull dibrisiant fel y dangosir uchod.

## 33. Prydlesau

### Y Grŵp/Comisiynydd fel Prydlesai

Prydlesau Gweithredu

Mae'r Grŵp/Comisiynydd yn prydlesu eiddo o berchenogion eiddo eraill lle y bo'n briodol ac yn fforddiadwy, er mwyn darparu swyddfeydd addas ar gyfer plismona gweithredol a chymorth.Mae gan y Grŵp/Comisiynydd brydlesau gweithredu hefyd ar gyfer offer a chyfarpar sy'n cynnwys llungopiwyr.

Yr isafswm taliadau prydles yn y dyfodol sy'n ddyledus o dan brydlesau na ellir eu canslo yn y dyfodol yw:

| 31 Mawrth 2020 £'000 | | 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---:|---|---:|
| 155 | Dim hwyrach na blwyddyn | 140 |
| 487 | Yn hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 404 |
| 1,242 | Yn hwyrach na phum mlynedd | 353 |
| **1,884** | **Cyfanswm** | **897** |

Y gwariant a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r prydlesau hyn oedd:

| 2019/20 £'000 | | 2020/21 £'000 |
|---|---|---|
| 215 | Isafswm taliadau prydles | 157 |
| **215** | **Cyfanswm** | **157** |

**Y Grŵp/Comisiynydd fel Prydleswr**

Prydlesau Gweithredu

Mae'r Grŵp/Comisiynydd yn prydlesu rhan o'i bortffolio eiddo er mwyn darparu swyddfeydd addas a fforddiadwy i awdurdodau eraill yn y sector cyhoeddus.

Yr isafswm taliadau prydles yn y dyfodol sy'n dderbyniadwy o dan brydlesau na ellir eu canslo yn y dyfodol yw:

| Y Grŵp 31 Mawrth 2020 £'000 | Y Comisiynydd 31 Mawrth 2020 £'000 | | Y Grŵp 31 Mawrth 2021 £'000 | Y Comisiynydd 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| 160 | 160 | Dim hwyrach na blwyddyn | 175 | 175 |
| 551 | 551 | Yn hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 559 | 559 |
| 948 | 948 | Yn hwyrach na phum mlynedd | 847 | 847 |
| **1,659** | **1,659** | **Cyfanswm** | **1,581** | **1,581** |

## 34. Buddiannau terfynu

### Y Grŵp

| 2019/20 Nifer yr Ymadawiadau y cytunwyd arnynt FTE | 2019/20 Cost yr ymadawiad (gan gynnwys cyflog yn lle rhybudd) £'000 | Band cost pecyn ymadael | 2020/21 Nifer yr Ymadawiadau y cytunwyd arnynt FTE | 2020/21 Cost yr ymadawiad (gan gynnwys cyflog yn lle rhybudd) £'000 |
|---|---|---|---|---|
| 1.0 | 10 | £0 - £20,000 | 0.0 | 0 |
| 0.0 | 0 | £20,001 - £40,000 | 0.0 | 0 |
| 0.0 | 0 | £40,001 - £60,000 | 0.0 | 0 |
| **1.0** | **10** | | **0.0** | **0** |

Ni thalwyd unrhyw becynnau ymadael yn ystod 2020/21. (2019/20: 1)

## 35. Cynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig

Cymryd rhan mewn Cynlluniau Pensiwn

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r Grŵp yn gwneud cyfraniad tuag at gost buddiannau ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddiannau hyn yn daladwy mewn gwirionedd nes bod cyflogeion yn ymddeol, mae gan y Grŵp ymrwymiad i wneud y taliadau y mae angen eu datgelu ar yr adeg y mae cyflogeion yn ennill eu hawl iddynt yn y dyfodol.

Mae'r Grŵp yn cymryd rhan mewn dau gynllun ôl-gyflogaeth:

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir yn lleol gan Gyngor Sir Caerfyrddin – cynllun CARE (Enillion Gyrfa Cyfartalog a Ailbrisiwyd) buddiannau diffiniedig a ariannwyd ydyw, sy'n golygu bod y Grŵp a chyflogeion yn talu cyfraniadau i mewn i gronfa, a gyfrifir ar lefel y bwriedir iddi fantoli'r rhwymedigaethau pensiwn â'r asedau buddsoddi.

Cynllun Pensiwn Swyddogion yr Heddlu – cynllun CARE buddiannau diffiniedig nas ariannwyd ydyw, ac o ganlyniad nid oes gan y gronfa unrhyw asedau buddsoddi. Caiff buddiannau sy'n daladwy eu hariannu gan gyfraniadau gan gyflogwyr a chyflogeion a thelir unrhyw wahaniaeth rhwng buddiannau sy'n daladwy a chyfraniadau sy'n dderbyniadwy drwy grant ychwanegol gan y Swyddfa Gartref.

**Prisiad Actiwari o Rwymedigaethau'r Cynllun**

Fel rhan allweddol o'r ymarfer llunio Datganiad Cyfrifon blynyddol, cyflogir actiwarïaid i gynnal asesiad o rwymedigaethau pensiwn, asedau a chostau i'w cynnwys yn y Fantolen a'r Datganiad Gwariant a Incwm Cynhwysfawr o dan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Yn draddodiadol, cynhelir y rhain ar raglen dreigl 3 blynedd ar gyfer prisiad llawn cynhwysfawr gyda dull dwyn ymlaen yn cael ei gymhwyso yn y blynyddoedd rhwng hynny.

Mae tair blynedd bellach ers i brisiad llawn gael ei wneud ddiwethaf. Byddai prisiad newydd fel arfer wedi digwydd eleni. O ystyried yr ansicrwydd sy'n codi o achos McCloud sy'n effeithio ar yr holl gynlluniau pensiwn cyhoeddus diwygiedig, argymhellodd ein cynghorwyr actiwaraidd bod yr Heddlu yn ymgymryd ag ymarfer dwyn ymlaen ar gyfer cyfrifon 2020/21, gydag ymarfer llawn yn cael ei gynnal y flwyddyn nesaf. Erbyn hynny, credir y bydd llawer o'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag achos McCloud o ran rhwymedi yn glir a byddai arwydd gwell o rwymedigaethau'r cynllun yn cael eu darparu ar gyfer y cylch nesaf.

Caniateir egwyl pedair blynedd fel hyn yn benodol i Gomisiynwyr a Phrif Gwnstabliaid o dan god CIPFA. Mae hyn hefyd yn gyson â'r dull sy'n cael ei fabwysiadu gan eraill ar draws y sector.

Y bwriad yw gwyro oddi wrth ein harfer a'n polisïau cyfredol ynghylch cylch prisio tair blynedd a chytunwyd ar y dull hwn yng nghyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio ar 25 Mawrth 2021.

<u>Trafodion yn Ymwneud â Budd-daliadau Ôl-gyflogaeth</u>

Cydnabyddir cost buddion ymddeol yng nghost adroddedig gwasanaethau pan gânt eu hennill gan weithwyr, yn hytrach na phan delir y buddion fel pensiynau yn y pen draw.

Fodd bynnag, mae'r tâl y mae'n ofynnol i'r Grŵp ei wneud yn erbyn treth gyngor yn seiliedig ar yr arian sy'n daladwy yn y flwyddyn, felly mae gwir gost buddion ôl-gyflogaeth / ymddeol yn cael ei wrthdroi o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad Symud mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Gwnaed y trafodion canlynol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad Symud mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn:

Mae trosglwyddiad o fewn grŵp wedi'i brosesu o gyfrifon y Prif Gwnstabl i gyfrifon y Comisiynydd, gan nad yw'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am ddal cronfeydd wrth gefn.

Mae'r swm cronnus o enillion a cholledion actiwaraidd a gydnabuwyd yn y Datganiadau Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Grŵp a Chomisiynydd hyd at 31 Mawrth 2021 yn golled o £ 0.5m (2019/20: colled o £ 23.3).

| Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | Cynllun Pensiwn yr Heddlu | | | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | Cynllun Pensiwn yr Heddlu | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Grŵp 2019/20 £'000 | Y Comisiynydd 2019/20 £'000 | Y Grŵp 2019/20 £'000 | Y Comisiynydd 2019/20 £'000 | | Y Grŵp 2020/21 £'000 | Y Comisiynydd 2020/21 £'000 | Y Grŵp 2020/21 £'000 | Y Comisiynydd 2020/21 £'000 |
| | | | | Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | | | | |
| | | | | Cost Gwasanaethau | | | | |
| (8,280) | (355) | (27,900) | 0 | Cost gwasanaeth cyfredol | (8,866) | (168) | (29,224) | 0 |
| (561) | 0 | (5,145) | 0 | Cost gwasanaeth a roddwyd (gan gynnwys McCloud) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| (96) | 0 | 0 | 0 | Arall | (104) | 0 | 0 | 0 |
| | | | | Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi | | | | |
| (1,211) | (52) | (32,657) | 0 | Traul llog net | (1,792) | (70) | (31,003) | 0 |
| **(10,148)** | **(407)** | **(65,702)** | **0** | **Cyfanswm y Buddiannau Ôl-gyflogaeth a godwyd ar Warged neu Ddiffyg Darparu Gwasanaethau** | **(10,762)** | **(238)** | **(60,227)** | **0** |
| | | | | Buddiant Ôl-gyflogaeth arall a godwyd ar y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant | | | | |
| | | | | Ailfesur y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig net sy'n cynnwys: | | | | |
| (11,394) | 0 | 0 | 0 | Enillion ar asedau'r cynllun (heb gynnwys y swm a gynhwyswyd yn y draul llog net) | 32,527 | 0 | 0 | 0 |
| 5,538 | 0 | 21,207 | 0 | Ailfesur enillion a cholledion sy'n codi yn sgil newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig | 0 | 0 | 0 | 0 |
| (4,247) | (998) | (26,902) | 0 | Ailfesur enillion a cholledion sy'n codi yn sgil newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol | (36,742) | (19) | (209,710) | 0 |
| (13,214) | 0 | 0 | 0 | Ailfesur enillion/(colledion) yn deillio o brofiad | 3,727 | 0 | 13,499 | 0 |
| **(33,465)** | **(1,405)** | **(71,397)** | **0** | **Cyfanswm y Buddiannau Ôl-gyflogaeth a Godwyd ar y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant** | **(11,250)** | **(257)** | **(256,438)** | **0** |
| 0 | (32,060) | 0 | (71,397) | Costau Comisiynu (trosglwyddo o fewn y grŵp) | 0 | (10,993) | 0 | (256,438) |
| **(33,465)** | **(33,465)** | **(71,397)** | **(71,397)** | **Cyfanswm y gost net** | **(11,250)** | **(11,250)** | **(256,438)** | **(256,438)** |
| | | | | Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn | | | | |
| 10,148 | 10,148 | 65,702 | 65,702 | Gwrthdroi'r taliadau net a wnaed i'r Gwarged neu'r Diffyg ar gyfer Darparu Gwasanaethau ar gyfer buddiannau ôl-gyflogaeth yn unol â'r Cod | 10,762 | 10,762 | 60,227 | 60,227 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Swm gwirioneddol a godwyd yn erbyn Balans y Gronfa Gyffredinol ar gyfer pensiynau yn ystod y flwyddyn | | | | |
| (3,399) | (3,399) | (29,402) | (29,402) | Cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r cynllun | (4,642) | (4,642) | (30,242) | (30,242) |

Asedau a Rhwymedigaethau Pensiynau a gydnabuwyd yn y Fantolen

Mae'r swm a gynhwyswyd yn y Fantolen sy'n codi o rwymedigaeth y Grŵp mewn perthynas â'r cynlluniau buddiannau diffiniedig fel a ganlyn:

| 2020/21 | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol £'000 | Cynllun Pensiwn yr Heddlu £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| Gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig | (257,304) | (1,589,193) | (1,846,497) |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 170,475 | 0 | 170,475 |
| **Rhwymedigaeth net sy'n codi o'r rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig** | **(86,829)** | **(1,589,193)** | **1,676,022** |

| 2019/20 | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol £'000 | Cynllun Pensiwn yr Heddlu £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| Gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig | (211,858) | (1,362,997) | (1,574,855) |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 131,637 | 0 | 131,637 |
| **Rhwymedigaeth net sy'n codi o'r rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig** | **(80,221)** | **(1,362,997)** | **(1,443,218)** |

Rhwymedigaeth pensiynau

Mae'r Rhwymedigaeth Pensiynau a ddatgelir ar Fantolen y Grŵp yn adlewyrchu ymrwymiadau sylfaenol y Prif Gwnstabl i dalu buddiannau ymddeol.

Mae cydnabod cyfanswm y rhwymedigaeth yn cael effaith sylweddol ar y gwerth net fel y'i cofnodwyd yn y Fantolen. Fodd bynnag, mae'r trefniadau statudol ar gyfer ariannu'r diffyg yn golygu bod sefyllfa ariannol y Grŵp yn dal i fod yn iach, gan fod pensiynau gwirioneddol a'r cyfandaliadau a gymudwyd yn cael eu talu'n uniongyrchol o Gyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu, a ariennir gan y Swyddfa Gartref drwy law'r Comisiynydd. Yn 2021/22 bydd y Prif Gwnstabl yn gwneud cyfraniad pensiwn o 31.0% (2019/20: 31.0%) ar gyfer swyddogion yr heddlu a 17.8% (2019/20: 17.8%) ar gyfer staff yr heddlu.

Cysoni'r symudiadau yng ngwerth teg asedau'r cynllun

| | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | Cynllun Pensiwn yr Heddlu | |
|---|---|---|---|---|
| | 2019/20<br>£'000 | 2020/21<br>£'000 | 2019/20<br>£'000 | 2020/21<br>£'000 |
| **Gwerth teg agoriadol asedau'r cynllun** | **136,722** | **131,637** | **0** | **0** |
| Incwm llog | 3,455 | 3,066 | 0 | 0 |
| Ailfesur ennill / (colled) | | | | |
| Yr enillion ar asedau'r cynllun heb gynnwys y swm a gynhwyswyd yn y draul llog net | (11,394) | 32,527 | 0 | 0 |
| Cyfraniadau gan y cyflogwr | 3,399 | 4,642 | 29,402 | 30,242 |
| Cyfraniadau gan gyflogeion i'r cynllun | 1,552 | 1,697 | 5,792 | 6,005 |
| Buddiannau a dalwyd | (2,001) | (2,990) | (35,194) | (36,247) |
| Arall (os yw'n gymwys) | (96) | (104) | 0 | 0 |
| **Gwerth teg asedau'r cynllun wrth gau** | **131,637** | **170,475** | **0** | **0** |

Y Prif Gwnstabl sy'n mynd i'r rhan fwyaf o gostau cyflogaeth, felly mae asedau a rhwymedigaethau sy'n ymwneud â buddiannau ôl-gyflogaeth yn aros yng nghyfrifon y Prif Gwnstabl a'r Grŵp.

Cysoni gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun (rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig)

| | Rhwymedigaethau a Ariannwyd: Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | Rhwymedigaethau nas Ariannwyd: Cynllun Pensiwn yr Heddlu | |
|---|---|---|---|---|
| | 2019/20<br>£'000 | 2020/21<br>£'000 | 2019/20<br>£'000 | 2020/21<br>£'000 |
| **Balans Agoriadol ar 1 Ebrill** | **(186,877)** | **(211,858)** | **(1,321,002)** | **(1,362,997)** |
| Cost gwasanaeth cyfredol | (8,280) | (8,866) | (27,900) | (29,224) |
| Cost llog | (4,666) | (4,858) | (32,657) | (31,003) |
| Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun | (1,552) | (1,697) | (5,792) | (6,005) |
| Ailfesur enillion a (cholledion) | | | | |
| Ailfesur enillion / (colledion) sy'n codi yn sgil newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig | 5,538 | 0 | 21,207 | 0 |
| Ailfesur enillion / (colledion) sy'n codi yn sgil newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol | (4,247) | (36,742) | (26,902) | (209,710) |
| Ailfesur enillion/(colledion) yn deillio o brofiad | (13,214) | 3,727 | 0 | 13,499 |
| Cost gwasanaeth a roddwyd (gan gynnwys McCloud) | (561) | 0 | (5,145) | 0 |
| Colledion / (enillion) o gwtogi | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Buddiannau a Dalwyd | 2,001 | 2,990 | 35,194 | 36,247 |
| **Balans wrth gau ar 31 Mawrth** | **(211,858)** | **(257,304)** | **(1,362,997)** | **(1,589,193)** |

Roedd asedau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cynnwys:

| | Gwerth teg asedau'r cynllun | |
|---|---|---|
| | 2019/20<br>£'000 | 2020/21<br>£'000 |
| Arian parod a’r hyn sy’n cyfateb i arian parod | 658 | 1,995 |
| Offerynnau ecwiti | 96,372 | 126,288 |
| Bondiau | 18,468 | 19,775 |
| Eiddo | 16,139 | 18,837 |
| Symiau Amgen | 0 | 3,580 |
| **Cyfanswm yr Asedau** | **131,637** | **170,475** |

<u>Sail dros amcangyfrif Asedau a Rhwymedigaethau</u>

Mae'r rhwymedigaethau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy yn y dyfodol yn dibynnu ar ragdybiaethau ynglŷn â chyfraddau marwolaethau, lefelau cyflog ac ati.

Mae rhwymedigaethau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Chynllun Pensiwn Swyddogion yr Heddlu wedi cael eu hamcangyfrif gan Mercer Human Resource Consulting (Mercer), sef cwmni annibynnol o actiwarïaid, ac mae amcangyfrifon ar gyfer Cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn seiliedig ar y prisiad llawn diweddaraf o'r cynllun ar 31 Mawrth 2018.

Y rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd gan yr actiwari yw:

| | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | Cynllun Pensiwn yr Heddlu | |
|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 | 2020/21 | 2019/20 | 2020/21 |
| Rhagdybiaethau ynglŷn â marwolaethau | | | | |
| Hirhoedledd yn 65 (60 ar gyfer cynllun yr heddlu) ar gyfer pensiynwyr presennol | | | | |
| Dynion | 23.0 | 23.1 | 26.3 | 26.4 |
| Menywod | 24.9 | 25.0 | 28.4 | 28.5 |
| Hirhoedledd yn 65 (60 ar gyfer cynllun yr heddlu) ar gyfer pensiynwyr yn y dyfodol | | | | |
| Dynion | 24.5 | 24.7 | 28.5 | 28.6 |
| Menywod | 27.1 | 27.2 | 30.6 | 30.7 |
| Rhagdybiaethau eraill | | | | |
| Cyfradd chwyddiant | 2.1% | 2.7% | 2.1% | 2.7% |
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau | 3.6% | 4.2% | 3.5% | 4.1% |
| Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau | 2.2% | 2.8% | 2.2% | 2.8% |
| Cyfradd ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau'r cynllun | 2.3% | 2.2% | 2.3% | 2.2% |

Mae'r amcangyfrif o'r rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd a nodir yn y tabl uchod.

Mae'r dadansoddiadau o sensitifrwydd isod wedi'u pennu yn seiliedig ar newidiadau posibl rhesymol yn y rhagdybiaethau sy'n digwydd ar ddiwedd y cyfnod adrodd ac sy'n tybio ar gyfer pob newid bod

y rhagdybiaeth a ddadansoddwyd yn newid ond bod yr holl ragdybiaethau eraill yn aros yn gyson. Mae'r rhagdybiaethau o ran hirhoedledd, er enghraifft, yn tybio bod disgwyliad oes yn cynyddu neu'n gostwng ar gyfer dynion a menywod. Yn ymarferol, mae hyn yn annhebygol o ddigwydd, a gall newidiadau mewn rhai o'r rhagdybiaethau fod yn gydgysylltiedig. Mae'r amcangyfrifon yn y dadansoddiad o sensitifrwydd wedi dilyn y polisïau cyfrifyddu ar gyfer y cynllun h.y. ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau. Ni newidiodd y dulliau a'r mathau o ragdybiaethau a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad o sensitifrwydd isod o'r rhai a ddefnyddiwyd yn y cyfnod blaenorol.

| Cynllun yr Heddlu Llywodraeth Leol 2020/21 | Effaith ar y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig yn y cynllun<br>Cynnydd yn y rhagdybiaeth<br>£'000 | Effaith ar y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig yn y cynllun<br>Lleihad yn y rhagdybiaeth<br>£'000 |
|---|---|---|
| Hirhoedledd (cynnydd neu leihad o flwyddyn) | 7,499 | 0 |
| Cyfradd chwyddiant (cynnydd neu ostyngiad o 0.1%) | 5,637 | 0 |
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau (cynnydd neu ostyngiad o 0.1%) | 1,078 | 0 |
| Cyfradd ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau'r cynllun (cynnydd neu ostyngiad o 0.1%) | 0 | 5,517 |

| Cynllun Pensiwn yr Heddlu 2020/21 | Effaith ar y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig yn y cynllun<br>Cynnydd yn y rhagdybiaeth<br>£'000 | Effaith ar y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig yn y cynllun<br>Lleihad yn y rhagdybiaeth<br>£'000 |
|---|---|---|
| Hirhoedledd (cynnydd neu leihad o flwyddyn) | 48,357 | 0 |
| Cyfradd chwyddiant (cynnydd neu ostyngiad o 0.1%) | 32,329 | 0 |
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau (cynnydd neu ostyngiad o 0.1%) | 6,987 | 0 |
| Cyfradd ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau'r cynllun (cynnydd neu ostyngiad o 0.1%) | 0 | 31,838 |

Effaith ar lifau arian parod y Grŵp

Amcan y cynllun yw sicrhau bod cyfraniadau cyflogwyr mor gyson â phosibl. Mae'r Grŵp wedi cytuno ar strategaeth ag actiwari'r cynllun er mwyn cyflawni lefel ariannu o 100% dros y tair blynedd nesaf. Cwblhawyd y prisiad tair blynedd ar 31 Mawrth 2018 a dangosir manylion cyfraddau cyflogwyr yn y dyfodol isod:

| Blwyddyn | Cyfradd y cyflogwr |
|---|---|
| 2020/21 | 17.8% |
| 2021/22 | 17.8% |
| 2022/23 | 17.8% |

**Her Gyfreithiol Pensiwn yr Heddlu – Enillion Gyrfa Cyfartalog a Ailbrisiwyd (McCloud/Sargeant)**

Ar hyn o bryd mae gan y Comisiynydd [Prif Gwnstabl], ynghyd â Phrif Gwnstabliaid eraill a'r Swyddfa Gartref, nifer o hawliadau mewn perthynas â gwahaniaethu anghyfreithlon sy'n deillio o ddarpariaethau trosiannol yn Rheoliadau Pensiwn yr Heddlu 2015. Yn flaenorol, roedd yr hawliadau yn erbyn cynllun pensiwn yr Heddlu (achos Aarons) yn aros y tu ôl i ddyfarniad McCloud/Sargeant, ond cynhaliwyd rheolaeth achos ym mis Hydref 2019, gyda'r Gorchymyn a ddeilliodd o hynny yn cynnwys datganiad interim bod gan yr hawlwyr hawl i gael eu trin fel pe baent wedi cael amddiffyniad trosiannol llawn ac wedi aros yn eu cynllun presennol ar ôl 1 Ebrill 2015. Er bod y datganiad interim yn berthnasol i hawlwyr yn unig, nododd y Llywodraeth yn glir trwy Ddatganiad Gweinidogol Ysgrifenedig ar 25 Mawrth 2020 y byddai'r rhai nad oeddent yn hawlio yn cael eu trin yn yr un modd.

Ar 16 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Trysorlys EM ymgynghoriad ynghylch trefniadau trosiannol ar gyfer pensiynau sector cyhoeddus i ddileu gwahaniaethu fel y nodwyd trwy achosion McCloud/Sargeant. Cyflwynodd yr ymgynghoriad hwn ofyniad i aelodau fod wedi bod yn aelodau o'r cynllun ar neu cyn 31 Mawrth 2012 ac ar 1 Ebrill neu ar ôl hynny i fod yn gymwys i gael rhwymedi

Ar 4 Chwefror 2021, cyhoeddodd Trysorlys EM eu hymateb i'r ymgynghoriad a gadarnhaodd y trefniadau unioni a nodwyd yn yr ymgynghoriad, ac sy'n nodi y byddai aelodau'n cael dewis a ddylid cadw buddion o'u cynllun pensiwn blaenorol, neu eu cynllun newydd, yn ystod y cyfnod unioni (2015-2022). Gohirir y dewis hwn ar gyfer aelodau nes iddynt ymddeol. Gan nad oedd canfyddiadau'r Tribiwnlys Cyflogaeth gwreiddiol yn nodi bod cyflwyno'r cynlluniau pensiwn sector cyhoeddus newydd yn wahaniaethol (yn hytrach y darpariaethau trosiannol oedd hynny), bydd y cynlluniau etifeddiaeth yn cael eu dileu o Ebrill 2022 i gael eu disodli gan y cynlluniau pensiwn newydd a gyflwynwyd yn wreiddiol yn 2015.

<u>Effaith ar atebolrwydd pensiwn</u>

Byddai caniatáu i'r holl aelodau cymwys gronni buddion o'u cynllun etifeddiaeth yn ystod y cyfnod unioni yn arwain at gynnydd yn rhwymedigaethau Cynllun Pensiwn yr Heddlu. I Gomisiynydd Dyfed Powys, mae hyn yn effeithio ar fwyafrif helaeth y rhai a ymunodd cyn 2012. Yn wreiddiol, amcangyfrifodd actiwarïaid y cynllun fod y cynnydd mewn rhwymedigaethau cynllun ar gyfer Comisiynydd Dyfed Powys yn 5.4% neu £85.5m o gyfanswm rhwymedigaethau cynllun pensiwn yr heddlu o £1.589 biliwn. Cydnabuwyd hyn yng nghyfrifon 2018/19 a 2019/20. Yn 2020/21, mae'r amcangyfrif wedi aros yn ddigyfnewid ar hyn o bryd gan adlewyrchu buddion blwyddyn ychwanegol o'r rhwymedi a gostyngiad sy'n deillio o'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer aelodau a nodwyd yn ymgynghoriad Trysorlys EM.

Bydd effaith cynnydd o ran rhwymedigaethau'r cynllun sy'n deillio o ddyfarniad McCloud/Sargeant ar gyfraddau cyfraniadau ar gyfer cyflogwyr a gweithwyr yn cael ei fesur yn y broses brisio pensiwn nesaf. Disgwylir adroddiad ar brisiad nesaf Pensiwn yr Heddlu yn 2023/24, a'r arwydd yw y bydd hyn yn effeithio ar gyfraddau cyfraniadau yn 2024/25 er y gall yr amserlen hon newid.

Mae effaith cynnydd mewn taliadau pensiwn blynyddol sy'n codi o McCloud/Sargeant yn cael ei phennu trwy Reoliadau Cronfa Bensiwn yr Heddlu 2007. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Gwnstabl fel Rheolwr y Cynllun gynnal cronfa bensiwn lle telir cyfraniadau swyddogion a chyflogwyr ac y gwneir taliadau pensiwn i swyddogion wedi ymddeol ohoni. Os nad oes gan gronfa bensiwn yr heddlu ddigon o arian i gwrdd â chost pensiynau yn y flwyddyn, yna bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn talu'r swm sy'n ofynnol i gwrdd â'r diffyg i awdurdod yr heddlu ar ffurf grant atodol llywodraeth ganolog.

Hawliadau Iawndal

Mae hawlwyr wedi cyflwyno hawliadau am iawndal mewn perthynas â'r achos hwn. Disgwylir i'r achosion prawf ar gyfer yr hawliadau hyn gael eu clywed gan y Tribiwnlys Cyflogaeth ym mis Rhagfyr 2021. Ar hyn o bryd, mae hawliadau am golledion ariannol yn cael eu hatal dros dro wrth i ymateb ymgynghoriad Trysorlys EM gael ei ystyried. Ar 31 Mawrth 2021, roedd darpariaeth o £50,000 (2019/20: £22,000) wedi'i chynnwys, yn seiliedig ar 64 o hawlwyr a chyfradd setliad dybiedig o £750 ar gyfartaledd.

Cynigiwyd amddiffyniad trosiannol a gynigiwyd i'r rheini o fewn 10 mlynedd i ymddeol yn 2012 hefyd i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar gyfer Staff yr Heddlu pan gyflwynwyd y diwygiadau pensiwn yn 2015. Y cynnydd mewn Atebolrwydd o ganlyniad i Achos Sargeant McCloud yw £3.761m ar gyfer Staff yr Heddlu, sef tua 4.3% o gyfanswm rhwymedigaethau'r cynllun o £86,829.

Fel rhan o'r prisiad tair blynedd, cynyddwyd cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr 1.2% o Ebrill 2020 ier mwyn ystyried y costau ychwanegol a ragwelir.

Effaith Pandemig COVID-19 ar Bensiynau Staff yr Heddlu

Bu anwadalrwydd sylweddol mewn marchnadoedd ecwiti ledled y byd dros y flwyddyn ddiwethaf, mewn perthynas â phandemig COVID-19. Mae hyn wedi cael canlyniadau ar gyfer gwerth asedau - fodd bynnag, roedd 31 Mawrth 2020 yn bwynt isel ar y cyfan ar gyfer marchnadoedd ecwiti, ac felly mae unrhyw adferiad dros y flwyddyn wedi'i adlewyrchu yn y ffigurau cyfrifyddu ar 31 Mawrth 2021.

Yn ystod yr un cyfnod, roedd anwadalrwydd y farchnad yn ymestyn i fondiau corfforaethol, ond yn y pen draw, mae'r enillion ar fondiau corfforaethol cyfradd AA ar 31 Mawrth 2021 wedi setlo ar oddeutu 2.2% y flwyddyn, sydd ychydig yn is na dechrau'r flwyddyn gyfrifyddu. Gan fod y gyfradd ddisgownt at ddibenion cyfrifyddu yn seiliedig ar enillion bondiau corfforaethol, mae hyn yn golygu y bydd yr anwadalrwydd hwn yn y pen draw yn cael effaith ar rwymedigaethau cyfrifyddu. Yn olaf, mae'r RPI a awgrymir gan y farchnad wedi bod yn amrywiol ar adegau yn ystod y flwyddyn, er y gallai hyn fod yn fwy oherwydd yr ymgynghoriad ar ddiwygio RPI yn hytrach nag unrhyw newid sylfaenol mewn disgwyliadau.

Bu rhai newidiadau sylfaenol hefyd mewn Chwyddiant Prisiau Manwerthu (RPI) a awgrymir gan y farchnad, yn rhannol o leiaf oherwydd bod Awdurdod Ystadegau'r DU a Thrysorlys Ei Mawrhydi yn cadarnhau newid i'r fformiwla RPI. Mae RPI a awgrymir gan y farchnad yn dylanwadu'n sylweddol ar ein rhagdybiaethau ar gyfer Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr (CPI), ac o ganlyniad, rydym yn cynnig rhai newidiadau i osodiad y dybiaeth CPI at ddibenion cyfrifyddu.

## 36. Rhwymedigaethau Digwyddiadol

Ymchwiliad i Blismona Cudd

Diben yr ymchwiliad hwn yw ymchwilio i ymgyrchoedd cudd a gynhaliwyd gan heddluoedd yng Nghymru a Lloegr ers 1968 a chyflwyno adroddiad arno. Mae'r ymchwiliad yn ystyried y cyfraniad y mae plismona cudd wedi'i wneud i fynd i'r afael â throseddu, sut roedd/mae yn cael ei oruchwylio a'i reoleiddio, a'i effaith ar yr unigolion dan sylw – swyddogion yr heddlu ac eraill a ddaeth i gysylltiad â hwy.

Mae atebolrwydd wedi'i sefydlu a, gyda 11 o heddluoedd eraill, mae cyfreithwyr allanol wedi'u penodi i gynrychioli swyddog(ion) cyfredol. Cytunwyd y bydd Heddlu Dyfed-Powys yn talu 5% o gostau paratoi cyffredinol y cwmni cyfreithiol, ac adlewyrchwyd y rhain yn y cyfrifon. Ymdriniwyd ag unrhyw faterion cyfreithiol eraill yn ymwneud â Heddlu Dyfed-Powys yn fewnol.

Ar hyn o bryd, mae'n rhy gynnar yn ystod yr ymchwiliad eto i ragweld yn gywir gostau yn y dyfodol, felly ni wnaed unrhyw ddarpariaeth yn Natganiadau Cyfrifyddu 2020/21.

Hawliadau Lwfans Ar Alw Uned Ymdrin Ffynhonnell Benodedig

Mae Prif Gwnstabl Dyfed-Powys, ynghyd â Phrif Gwnstabliaid eraill, yn wynebu hawliadau "Lwfans Ar Alw" o dan Reoliad 34 o Atodiad U i Reoliadau'r Heddlu 2003.

Mae'r hawlwyr yn swyddogion yr heddlu cyfredol a/neu wedi ymddeol ac yn aelodau o "Uned Ymdrin Ffynhonnell Benodedig (Ffynonellau Cudd-wybodaeth Ddynol)". Dywed yr hawlwyr fod eu rolau yn gofyn iddynt ateb ffonau symudol a delio â'r sawl sydd am roi cudd-wybodaeth i'r heddlu. Hefyd, dywedant iddynt oruchwylio ymdrinwyr ffynonellau a bod y tasgau hyn wedi gofyn iddynt fonitro eu ffonau bob dydd.

Ar y cam hwn, ni phennwyd atebolrwydd ac felly ni fyddai'n briodol gwneud unrhyw ddarpariaeth yn Natganiadau Cyfrifyddu 2019/20. Hefyd ni ellir darparu amcangyfrif rhesymol o atebolrwydd ar y cam hwn.

Lwfansau Cydredol

Ym mis Tachwedd 2019, derbyniodd y Prif Gwnstabl nifer o hawliadau gan staff yr heddlu mewn perthynas â cheisiadau am i oriau anghymdeithasol a lwfansau nos gael eu talu yr un pryd â chyflog goramser.

Caiff staff eu cynrychioli gan UNISON yn y mater hwn ac ni ddaethpwyd i gytundeb ffurfiol ar fodolaeth hawl o'r fath. Nid oes unrhyw rwymedigaeth wedi'i sefydlu ac ni wnaed unrhyw ddarpariaeth yn Natganiadau Cyfrifyddu 2020/21

## 37. Natur a graddau'r risgiau sy'n deillio o offerynnau ariannol

Mae'r Comisiynydd wedi mabwysiadu Cod Ymarfer Diwygiedig CIPFA ar Reoli Trysorlys (fersiwn 2018) ac mae'n cydymffurfio â'r Cod Cyllid Cyfalaf Darbodus Diwygiedig i Awdurdodau Lleol (diweddarwyd yn 2018).

Fel rhan o'r broses o fabwysiadu'r Cod Rheoli Trysorlys, mae'r Comisiynydd yn cymeradwyo Strategaeth Rheoli Trysorlys cyn cychwyn pob blwyddyn ariannol. Mae'r Strategaeth yn nodi paramedrau ar gyfer rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag Offerynnau Ariannol. Mae'r Comisiynydd hefyd yn paratoi Arferion Rheoli Trysorlys sy'n nodi'r trefniadau ymarferol i'w dilyn er mwyn rheoli'r risgiau hyn.

Mae'r Strategaeth Rheoli Trysorlys yn cynnwys Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol sy'n cydymffurfio â Chanllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol. Mae'r Canllawiau hyn yn pwysleisio bod yn rhaid rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd, yn hytrach nag arenillion. Mae Strategaeth Rheoli Trysorlys y Comisiynydd, ynghyd â'i Arferion Rheoli Trysorlys yn seiliedig ar geisio'r gyfradd uchaf o enillion sy'n gyson â'r lefelau priodol o ddiogelwch a hylifedd.

Y prif risgiau a gwmpesir yw:

- *Risg Credyd:* Y posibilrwydd y bydd cydbarti ased ariannol yn methu â bodloni ei rwymedigaethau cytundebol, gan achosi colled i'r Comisiynydd.
- *Risg Hylifedd:* Y posibilrwydd na fyddai'r arian parod ar gael i'r Comisiynydd wneud taliadau cytundebol ar amser.

- *Risg y Farchnad:* Y posibilrwydd y bydd colled ariannol nas cynlluniwyd yn codi oherwydd newidiadau yn newidynnau'r farchnad, megis cyfraddau llog neu brisiau ecwiti.

Risg Credyd

**Buddsoddiadau**

Mae'r Comisiynydd yn rheoli risg credyd drwy sicrhau bod buddsoddiadau yn cael eu gwneud gyda Banciau a Chymdeithasau Adeiladu y mae eu statws credyd yn ddigon uchel fel y'i nodwyd yn y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Mae'r rhain yn cynnwys endidau masnachol sydd ag isafswm statws credyd hirdymor uchel o A-, Llywodraeth y DU, Awdurdodau Lleol eraill, a sefydliadau heb statws credyd y mae'r Comisiynydd wedi cael cyngor buddsoddi annibynol yn eu cylch.

Rhoddir terfyn o £3m ar y swm o arian y gellir ei fuddsoddi mewn un cydbarti (ac eithrio llywodraeth y DU).

Ni all amlygiad mwyaf y Comisiynydd i risg credyd mewn perthynas â buddsoddiadau 'amhenodol' o £30m gael ei asesu'n gyffredinol gan y bydd y risg y bydd unrhyw sefydliad yn methu â gwneud taliadau llog neu ad-dalu'r prifswm yn benodol i bob sefydliad unigol. Mae profiad diweddar wedi dangos mai anaml y bydd endidau o'r fath yn methu â bodloni eu hymrwymiadau. Mae risg na fydd modd adennill symiau yn gymwys i bob un o adneuon y Comisiynydd, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth ar 31 Mawrth 2021 bod hyn yn debygol o grisialu.

Mae'r tabl isod yn crynhoi gwerth nominal portffolio buddsoddi'r Comisiynydd ar 31 Mawrth 2021, ac yn cadarnhau i bob buddsoddiad gael ei wneud yn unol â meini prawf statws credyd cymeradwy'r Comisiynydd:

| Cydbarti | A fodlonwyd y meini prawf ynglŷn â statws credyd pan wnaed y buddsoddiad? | A fodlonwyd y meini prawf ynglŷn â statws credyd ar 31 Mawrth 2021? | Balans a fuddsoddwyd ar 31 Mawrth 2021 | | | | Dros 12 mis | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Hyd at fis | > 1 mis a < 3 mis | > 3 mis a < 6 mis | > 6 mis a < 12 mis | | |
| | | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Banciau'r DU | Do | Do | 2,001 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2,001 |
| Bondiau | Do | Do | 0 | 0 | 0 | 3,506 | 1,008 | 4,514 |
| Y Farchnad Arian | Do | Do | 4,500 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4,500 |
| Awdurdodau Lleol | Amherthnasol | Amherthnasol | 2,000 | 4,003 | 0 | 0 | 0 | 6,003 |
| Llywodraeth y DU | Amherthnasol | Amherthnasol | 2,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2,000 |
| **Cyfanswm** | | | **10,501** | **4,003** | **0** | **3,506** | **1,008** | **19,018** |

Mae'r dadansoddiad uchod yn dangos bod yr holl adneuon a oedd yn weddill ar 31 Mawrth 2021 yn bodloni meini prawf statws credyd y Comisiynydd.

**Symiau Masnach Derbyniadwy**

Mae'r dadansoddiad canlynol yn crynhoi amlygiad posibl mwyaf y Comisiynydd i risg credyd, yn seiliedig ar y profiad a gafwyd dros y pum blwyddyn ariannol ddiwethaf ar lefel diffyg talu ymhlith dyledwyr masnach.

Dim ond y symiau derbyniadwy hynny sy'n bodloni'r diffiniad o ased ariannol sydd wedi'u cynnwys, h.y. dyledwyr sydd wedi codi o ganlyniad i weithgareddau masnachu.

| | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|
| Dyledwyr Masnach Gros (£'000) | 1,771 | 1,950 |
| Darpariaeth Drwg-ddyledion fel % o Ddyledwyr Masnach y Grŵp | 13.0 | 14.0 |
| Amlygiad i risg credyd | 231 | 267 |

<u>Risg Hylifedd</u>

Mae'r Comisiynydd yn gallu benthyca ar gyfraddau ffafriol gan y Bwrdd Benthyca Gwaith Cyhoeddus ac awdurdodau lleol eraill, ac ar gyfraddau uwch gan fanciau a chymdeithasau adeiladu. Nid oes unrhyw risg ganfyddedig na fydd y Comisiynydd yn gallu codi arian i fodloni ei ymrwymiadau. Fodd bynnag, mae'n cael ei amlygu i'r risg y bydd angen ailariannu cyfran sylweddol o'i fenthyciadau pan fo cyfraddau llog anffafriol o uchel.

Mae'r dadansoddiad aeddfedu o'r rhwymedigaethau ariannol fel a ganlyn:

| 31 Mawrth 2020 £'000 | Benthyciadau yn aeddfedu o fewn | 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|
| 227 | Llai na blwyddyn | 257 |
| **227** | **Cyfanswm y Benthyciadau Cyfredol** | **257** |
| 257 | 1 – 2 flynedd | 272 |
| 896 | 2 – 5 mlynedd | 982 |
| 358 | 5 – 10 mlynedd | 0 |
| 0 | 10 – 15 mlynedd | 0 |
| 0 | 15 mlynedd a mwy | 0 |
| **1,511** | **Cyfanswm y Benthyciadau Hirdymor dros 12 mis** | **1,254** |

Mae'r holl symiau masnach a symiau taladwy eraill yn ddyledus i'w talu mewn llai na blwyddyn.

<u>Risg y Farchnad</u>

**Risg Cyfraddau Llog**

Mae'r Comisiynydd yn cael ei amlygu i risg o ran ei amlygiad i symudiadau mewn cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a'i fuddsoddiadau. Mae symudiadau mewn cyfraddau llog yn cael effaith gymhleth ar yr awdurdod. Er enghraifft, byddai cynnydd mewn cyfraddau llog yn cael yr effeithiau canlynol:

- benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg benthyciadau rhwymedigaethau yn gostwng
- buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg yr asedau yn gostwng.

### Risg Pris

Nid yw'r Comisiynydd yn buddsoddi mewn cronfeydd cyfunol na chyfranddaliadau ecwiti ac felly nid yw'n cael ei amlygu i risg prisiau (h.y. y risg y bydd y Comisiynydd yn wynebu colled o ganlyniad i symudiadau anffafriol ym mhris offerynnau ariannol).

### Risg Cyfnewid Arian Tramor

Nid oes gan y Comisiynydd unrhyw ased ariannol na rhwymedigaethau sydd mewn arian cyfred tramor. Felly, nid yw wedi'i amlygu i golled sy'n codi o ganlyniad i symudiadau anffafriol mewn cyfraddau cyfnewid.

## 38. Cronfeydd Ymddiriedolaeth

Mae Safer Dyfed-Powys Diogel yn mynd drwy gyfnod o newid ar hyn o bryd. Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn codi arian yn rhagweithiol ar hyn o bryd ac mae'n defnyddio'r balansau sydd ganddi i ariannu gwariant. Gwnaeth yr Ymddiriedolwyr benderfyniad i symud ymlaen gyda model gwirfoddolwyr yn y flwyddyn 2020/21, ond mae pandemig parhaus COVID-19 wedi rhwystro hyn. Y bwriad yw y bydd 2020/21 yn gyfnod o gynnydd i'r elusen, gydag opsiynau cyffrous o'i blaen.

Mae'r set ddiweddaraf o gyfrifon ar gyfer yr elusen mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2019/20 a chwblhawyd y rhain ym mis Ionawr 2021.

Yn ystod 2019/20, derbyniodd yr Elusen £150 mewn rhoddion a gwariodd £108 ar fusnes yr elusen.

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y Cyd 2020/21

### Cyflwyniad a Chwmpas Cyfrifoldebau

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am sicrhau bod eu busnes yn cael ei weinyddu yn unol â'r gyfraith, i'r safonau priodol a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, bod cyfrif priodol yn cael ei roi amdano a'i fod yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd effeithiol, effeithlon a darbodus. Mae dyletswydd arnynt hefyd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y caiff eu swyddogaethau eu cyflawni.

Wrth gyflawni eu cyfrifoldeb cyffredinol, mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith i lywodraethu materion a hwyluso eu swyddogaethau, sy'n cynnwys sicrhau bod system gadarn o reolaeth fewnol yn cael ei chynnal drwy gydol y flwyddyn a bod trefniadau ar waith i reoli risg.

Mae'r Datganiad hwn yn egluro sut mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl wedi cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol, sy'n adlewyrchu egwyddorion canllawiau Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) *Delivering Good Governance. Guidance Notes for Policing Bodies in England and Wales 2016 Edition.* Mae hefyd yn bodloni gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd), mewn perthynas â'r datganiad rheolaeth fewnol a chyhoeddi'r datganiad llywodraethu blynyddol. Mae’r ddogfen yn amlinellu canfyddiadau gwerthuso i drefniadau llywodraethu a chaiff ei hategu gan fatrics tystiolaeth sy'n nodi sut mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl yn arddangos yr egwyddorion a'r ymddygiadau sy'n gysylltiedig â llywodraethu da. Dros y flwyddyn i ddod, bydd y matrics tystiolaeth yn cael ei fireinio ar ffurf proses Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, lle bydd ein sefydliadau yn mapio yn erbyn y tair haen o amddiffyniad, ein risgiau llywodraethu corfforaethol mwyaf hanfodol a'r lliniaru sydd ar waith neu sydd ei angen i reoli'r rhain.

### Egwyddorion Llywodraethu Da

Mae Cyd-Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn nodi'r systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd a fydd yn sail i'r ffordd yr aiff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Dyfed-Powys ati i lywodraethu eu gweithgareddau, ar y cyd ac ar wahân. Mae'r Fframwaith yn galluogi Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl i fonitro cyflawniadau yn erbyn y Cynllun Heddlu a Throseddu ac ystyried p'un a ydynt wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol a chost-effeithiol, gan gynnwys gwerth am arian.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith hwnnw a'i nod yw rheoli risg i lefel resymol a rhagweladwy. Ni all atal pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Dim ond sicrwydd rhesymol, nid sicrwydd llwyr, o effeithiolrwydd y gall ei gynnig. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd wedi'i chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni nodau ac amcanion y sefydliad, gwerthuso'r tebygolrwydd o wireddu'r risgiau hynny a'r effaith pe caent eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

Mae Fframwaith CIPFA/Solace *Delivering Good Governance in Local Government*, sy'n berthnasol i gyrff plismona, yn nodi'r saith egwyddor sy'n sail i drefniadau llywodraethu effeithiol er mwyn sicrhau bod y canlyniadau arfaethedig yn cael eu diffinio a'u cyflawni. Mae'r Datganiad hwn yn rhoi asesiad yn erbyn pob un o'r egwyddorion hynny.

**Ymateb Dyfed-Powys i Bandemig COVID-19**

Ym mis Mawrth 2020 dechreuodd pandemig COVID-19 byd-eang effeithio'n sylweddol, gan arwain y DU at y cyntaf o gyfres o gyfnodau clo cenedlaethol a lleol. Effeithiodd cau'r diwydiannau manwerthu, hamdden, twristiaeth a lletygarwch yn sylweddol ar y galw a arweiniwyd gan yr heddlu yn ogystal â chapasiti a gallu'r heddlu i ddelio ag ef. Mae goruchwyliaeth graff o'r ddau wedi galluogi’r heddlu i reoli'r galw yn ddiogel wrth weithredu ffyrdd newydd ac arloesol o weithio mewn rhai meysydd, gan gynnwys ymchwiliadau bwrdd gwaith a gweithio ystwyth i bron pob aelod o staff anweithredol. Mae costau yr eir iddynt o ganlyniad i bandemig COVID-19 yn parhau i gael eu rheoli'n effeithiol gan adrodd yn aml i gyfarfodydd llywodraethu'r Heddlu; Bwrdd Plismona Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Bwrdd Atebolrwydd Plismona; ac i Banel yr Heddlu a Throsedd. At hynny, mae cyflenwi gwybodaeth ariannol yn rheolaidd i'r Swyddfa Gartref ynghyd â gwiriadau a ddarperir gan Archwilio Cymru wedi rhoi sicrwydd ynghylch ein cywirdeb ariannol.

Er bod yr heriau a berir gan bandemig COVID-19 wedi cyflwyno rhai anawsterau yn lleol, mae amrywiaeth o fuddion hefyd wedi codi o ganlyniad i'r modd y mae heddlu Dyfed-Powys wedi gorfod addasu. Mae'r rhain yn eu tro yn debygol o lywio ffyrdd o weithio'n gynaliadwy yn y dyfodol. Mae angen ystyried ystadau, fflyd, seilwaith a TG yn barhaus fel y gallwn barhau â gweithlu ac arferion gwaith sy'n hyblyg, yn addasadwy ac yn gallu cwrdd â disgwyliadau rhesymol y cyhoedd. Bydd pob un o'r uchod, yn erbyn cefndir cyfraddau heintiau, derbyniadau i'r ysbyty a'r rhaglen frechu yn ei gwneud yn ofynnol i bob diwydiant, gan gynnwys gwasanaethau plismona, ymgorffori ymateb i bandemig COVID-19 mewn i fusnes arferol.

**Llywodraethu**

Mae strwythur llywodraethu Aur, Arian ac Efydd wedi'i roi ar waith sy'n sicrhau deialog â'r strwythurau rhanbarthol a chenedlaethol. Roedd hyn yn rhan o'r ymateb plismona gweithredol cenedlaethol i bandemig COVID-19 o'r enw “Ymgyrch Talla”. Er bod y strwythur hwn yn parhau yn ei le, cynhelir cyfarfodydd Aur ac Arian fel rheol gyda chysylltiadau allweddol â busnes llywodraethu arferol ehangach yr heddlu.

Mae'r strwythurau Trefn Reoli Aur, Arian ac Efydd yn gweithio ar y cyd â Grŵp Trefn Reoli Strategol, Grŵp Trefn Reoli Tactegol a’r Fforwm Cydnerthedd Lleol. Mae'r strwythur a grëwyd o fewn Dyfed-Powys yn llywio strwythur Cymru Gyfan sy'n cefnogi Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, ystafell friffio'r Cabinet a sefydliadau eraill megis Canolfan Gydgysylltu Genedlaethol yr Heddlu (NPoCC). Mae strwythur Cymru’n llywio strwythurau Aur ac Arian Cenedlaethol y mae'r Swyddfa Gartref yn ganolog iddynt.

Caiff penderfyniadau a chamau a wneir o fewn y strwythurau llywodraethu lleol fel y'u hamlinellir uchod eu cofnodi a'u cadw ar safle SharePoint penodol. Caiff adran gyllid yr Heddlu ei chynrychioli ar grwpiau gweithredol Aur ac Arian er mwyn monitro cyllidebau a hwyluso prosesau adrodd ac uwchgyfeirio priodol i Grŵp y Prif Swyddogion a'r Bwrdd Plismona. Mae cynrychiolaeth gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) hefyd mewn grwpiau Aur ac Arian, gan sicrhau bod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cael gwybodaeth yn amserol ar ymateb a gweithgaredd yr Heddlu, a bydd craffu pellach bob 3 wythnos ym Mwrdd Plismona Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Mae llawer o waith ar y gweill i ddal unrhyw ddysgu o ganlyniad i bandemig COVID-19. Mae buddion newidiadau i arferion gwaith, cyflwyno TG ac offer i hwyluso gweithio o bell a rheoli lles y gweithlu yn effeithiol yn allweddol i ddeall sut y bydd y sefydliad yn darparu gwasanaethau'n gynaliadwy i'r cyhoedd, yn y dyfodol.

Er gwaethaf atal dros dro nifer o gyfarfodydd o fewn strwythur llywodraethu “Gweithredol yr Heddlu” tra bod yr angen i Heddlu Dyfed-Powys ymateb i bandemig COVID-19 yn cael blaenoriaeth, erbyn hydref 2020, roedd pob cyfarfod wedi ailddechrau ac yn wir daeth gwaith llywodraethu ein hymateb i bandemig COVID-19 yn rhan annatod o'n trefniadau. Adroddir am stiwardiaeth ariannol barhaus, rhaglenni newid sy'n ymwneud ag ystadau, fflyd a TG i'r Grwpiau a Byrddau priodol o fewn strwythur llywodraethu “Gweithredol yr Heddlu”.

Trwy gydol 2020/21, parhaodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i gynnal cyfarfodydd rhithwir y Bwrdd Plismona a'r Bwrdd Atebolrwydd Plismona, yn ogystal â phob cyfarfod craffu arall fel y Bwrdd Comisiynu a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol. Cynhaliwyd ymgysylltiad â fforymau fel Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru a pharhaodd y CHTh i ddylanwadu ar drafodaethau ar lefelau Cymru Gyfan a chenedlaethol (Cymru a Lloegr).

Mae cydymffurfiaeth â'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol wedi'i chynnal ac ychydig iawn o newidiadau sydd eu hangen. Yr unig newid o bwys oedd cynorthwyo'r Heddlu i oresgyn yr heriau yr oedd pob sector ledled y DU yn eu hwynebu wrth gaffael a chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol (PPE). Rhoddwyd cymeradwyaeth i'r Heddlu fabwysiadu gweithdrefn archebu brys mewn perthynas â PPE a gweithredu’r Hysbysiad Polisi Caffael 02/20 (PPN) mewn perthynas â darpariaethau brys yn cynnwys dyfarniad uniongyrchol ac awdurdodiad caffael ôl-weithredol ar gyfer nifer cyfyngedig o gyflenwadau. Fodd bynnag, ers yr amser hwnnw mae'r cyflenwad a'r galw am PPE wedi setlo ac mae'r mecanweithiau i sicrhau diogelwch ein gweithlu wedi'u setlo hefyd.

**Cyllid**

Mae diweddariadau ariannol misol wedi'u darparu i'r Bwrdd Plismona a'r Byrddau a Grwpiau Ariannol eraill sydd wedi'u cynnwys yn y Strwythur Llywodraethu. Mae'r rhain wedi canolbwyntio ar wariant, grantiau ac arbedion sy'n gysylltiedig â phandemig COVID-19 yn ogystal â sefyllfa gyffredinol y flwyddyn hyd yma a’r sefyllfa alldro a ragwelir. Mae'r Pennaeth Cyllid yn eistedd ar Grŵp Arian Ymgyrch Talla ac mae'r Cyfarwyddwr Cyllid yn adrodd i Grŵp Aur Ymgyrch Talla, gan ddiweddaru ar wariant ac arbedion yn unol â hynny. Mae'r Heddlu wedi derbyn cymorth ariannol i dalu costau PPE; gweithgaredd gorfodi; ac i gefnogi colledion incwm. Cyflwynir adroddiadau o'r holl gostau ychwanegol i'r Swyddfa Gartref yn fisol. Yn lleol, neilltuwyd cronfa wrth gefn i fodloni goblygiadau llif arian posibl ond ni fu ei hangen hyd yma. Fel yr amlinellwyd yn adroddiad naratif y Datganiad Cyfrifon, bydd yr Heddlu a Swyddfa CSP yn gwerthuso effaith tymor hwy y pandemig ar setliadau/cyllidebau yn y dyfodol, gofynion PPE parhaus ac incwm dros y misoedd nesaf, yr allbynnau a'r goblygiadau a adroddir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a’r gyllideb ar gyfer 2021/22. Bydd hyn yn cynnwys cadw arferion gwaith a fabwysiadwyd yn ystod pandemig COVID-19 sy'n gysylltiedig yn benodol â gweithio'n ddoethach wrth symud ymlaen. Cyflawnwyd sefyllfa gytbwys yn y gyllideb ar gyfer 21/22 sy'n adlewyrchu rhai pwysau ychwanegol mewn perthynas â PPE, colledion incwm ac ôl-groniadau o ran hyfforddiant.

**Rheoli Risgiau**

Mae'r parodrwydd i dderbyn risg, y mae risgiau Corfforaethol yn cael eu hasesu yn ei erbyn, wedi’i osod yn 'Agored' ar hyn o bryd. Mae'r parodrwydd i dderbyn risg yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd ond nid yw wedi newid ers dyfodiad pandemig COVID-19. Caiff risgiau gwybodaeth ar y Gofrestr Risg Gwybodaeth eu hasesu o fewn parodrwydd mwy ‘gofalus’ i dderbyn risg. Rheolir risgiau sy'n gysylltiedig â phandemig COVID-19 o fewn cofrestr risg newydd ar wahân, sef 'Ymgyrch Talla' a ddatblygwyd i ddal nifer fach o risgiau a nodwyd ar draws yr is-grwpiau sy’n adrodd i Grŵp Arian Ymgyrch Talla Heddlu Dyfed-Powys. Rheolwyd y gofrestr gan Dîm Ymgyrch Talla, ar y cyd â Chynghorydd Rheoli Risg a Pharhad Busnes yr Heddlu, a allai gynorthwyo o ran uwchgyfeirio

meysydd risg i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, os oedd angen. Roedd yna hefyd risgiau wedi'u cynnwys yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol yr effeithiwyd arnynt gan bandemig COVID-19, e.e. cyfyngiadau teithio sy'n atal gweithgareddau i liniaru / datrys rhai meysydd risg nad ydynt fel arall yn gysylltiedig â phandemig COVID-19. Wrth i blismona addasu i'r newidiadau yn y galw a'r risg, roedd pob maes risg ar gofrestr risg Ymgyrch Talla wedi'i liniaru a symudodd y gofrestr i gyfnod segur. Mae risgiau a nodwyd sy'n gysylltiedig â'r cam adfer wedi'u hymgorffori yng Nghynllun Adfer yr Heddlu, a chymerir perchnogaeth leol gan arweinwyr busnes priodol.

Caiff yr holl risgiau hyn eu hasesu gan ddefnyddio'r meini prawf asesu BRAG.

Mae un risg ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol mewn perthynas arbennig â phandemig COVID-19 sy'n ystyried "*rheoli risgiau ac ansicrwydd sy'n ymwneud â'r coronafeirws (COVID-19) a'r risg ganlyniadol i argaeledd adnoddau plismona sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau plismona yn unol â blaenoriaethau Cynllun yr Heddlu a Throseddu*". Cafodd y risg hon ei lliniaru drwy sefydlu Grŵp Aur Coronafeirws a gadeiriwyd gan Brif Swyddog. Mae'r gofrestr risg wedi'i diweddaru'n briodol ac adroddir ar y cynnydd a'r lliniaru parhaus i'r Cynghorydd Rheoli Risg a Pharhad Busnes.

Mae'r Heddlu yn parhau i weithio gydag Iechyd Cyhoeddus ac asiantaethau eraill i gynorthwyo i liniaru effaith pandemig COVID-19 ar ein cymunedau. Mae'r amcanion strategol canlynol yn llywio ein hymateb partneriaeth:

- Lleihau'r risg i'r cyhoedd drwy helpu Iechyd Cyhoeddus i ffrwyno lledaeniad y feirws a chefnogi'r gwaith o olrhain cysylltiadau;
- Lle bo'n ymarferol, sicrhau diogelwch ein staff i'r eithaf drwy ddarparu cyngor a PPE priodol lle bo angen;
- Sicrhau bod cynlluniau parhad busnes ar waith i alluogi'r heddlu i barhau i ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd;
- Tawelu meddwl y cyhoedd drwy gefnogi canllawiau Iechyd Cyhoeddus a negeseuon Iechyd Cyhoeddus;
- Sicrhau bod tensiwn, gwybodaeth a chudd-wybodaeth mewn perthynas â chymunedau yn cael eu rheoli'n effeithiol drwy strwythurau sy'n bodoli eisoes;
- Cefnogi asiantaethau partner Fforymau Lleol Cymru Gydnerth a chymunedau Dyfed Powys i liniaru effeithiau'r feirws.

Darperir y swyddogaeth lywodraethu gan Fwrdd Cyllid a Strategaeth yr Heddlu a'r Bwrdd Plismona, a cheir gwaith craffu ehangach gan y Cydbwyllgor Archwilio.

**Sicrwydd**

Daeth y broses o atal gweithgaredd Archwilio Mewnol dros dro i ben ym mis Mehefin 2020, ac ailddechreuodd y gwaith ymgysylltu ag archwilwyr mewnol. Ers hynny mae archwiliadau wedi eu cynnal o bell gan ddefnyddio dulliau rhannu sgrin, galwadau ffôn a Skype a chyfnewid dogfennau drwy e-bost. Roedd rhaglen 19/20 wedi'i chwblhau yn gynnar ym mis Gorffennaf 2020.

Mae rhaglen 2021 wedi'i chwblhau a phenderfynwyd ar raglen o weithgaredd Archwilio Mewnol ar gyfer 21/22. Mae'r Grŵp Llywodraethu Archwilio ar y cyd yn chwarae rhan allweddol wrth benderfynu ar y rhaglen, gan ganolbwyntio ar risgiau sefydliadol a meysydd a nodwyd yn Natganiad Rheoli'r Heddlu i bennu rhaglen a fydd fwyaf buddiol i'r sefydliadau. Gofynnir am ymgysylltiad gan y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a'r Cydbwyllgor Archwilio wrth gwblhau'r rhaglen.

Ailddechreuodd gweithgaredd Arolygu Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub ei Mawrhydi (AHGTAEM), a oedd wedi'i atal dros dro yn gynnar yn 2020, yn yr Hydref. Ers yr amser hwnnw, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi bod yn lu peilot i gael ei archwilio o fewn Fframwaith Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb newydd yr Heddlu (PEEL) ac felly roedd yn un o'r tri Llu cyntaf a arolygwyd. Dechreuodd yr arolygiad ganol mis Rhagfyr 2020.

At hynny, fel rhan o gyfranogiad yr holl heddluoedd yn arolygiad Asesiad y Gwasanaeth Dioddefwyr (VSA), mae Heddlu Dyfed Powys hefyd wedi bod yn destun y broses VSA newydd gan gynnwys arolygiad Uniondeb Data Trosedd (CDI). Dechreuodd hyn ar 25 Ionawr 2021. Yn anffodus, rhoddwyd “Achos Pryder wedi’i Gyflymu” i heddlu Dyfed-Powys o ran Uniondeb Data Trosedd. Cyhoeddwyd yr adroddiad arolygu hwn ar 7 Mai 2021. Gwnaed llawer o waith i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd nid yn unig o ganlyniad i'r arolygiad diweddaraf hwn, ond hefyd mewn ymateb i'r allbynnau i arolygiadau CDI blaenorol. Mae yna nifer o fesurau ar waith i ddod â gwelliant ar unwaith yn ogystal â strategaeth lawn a chynhwysfawr o ran sut y byddwn yn gwella'n gyfannol o ran adnabod troseddau, cofnodi, ymchwilio a chefnogi dioddefwyr.

Mae nifer o arolygiadau thematig wedi'u cynnal gan AHGTAEM sydd wedi arwain at argymhellion ychwanegol ar gyfer yr holl Lluoedd, ond nid yw Heddlu Dyfed-Powys wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r rhain.

**Parhad Busnes**

Mae diogelwch a llesiant y gweithlu wedi bod yn hollbwysig yn yr ymateb plismona. Mae pandemig COVID-19 wedi ei gwneud yn ofynnol i'r gweithlu ymateb mewn ffordd ystwyth, hyblyg ac ymatebol. Mae cynlluniau parhad busnes wedi'u profi ac mae rhai wedi’u rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod gwasanaethau plismona'n parhau i gael eu darparu yn Nyfed-Powys. Mae llawer o'r gweithlu mewn swyddogaethau swyddfa gefn yn gweithio gartref gyda dim ond ychydig yn gweithio mewn swyddfeydd sy'n galluogi ymbellhau cymdeithasol. Mae camau wedi'u cymryd i sicrhau parhad busnes, cadernid a gallu i ddarparu gwasanaeth hanfodol. Wrth i amser fynd yn ei flaen, mae mwy yn parhau i gael ei wneud i sicrhau bod y gweithlu â’r cyfarpar i ddarparu prosesau a chynhyrchion busnes yn effeithiol ac yn gynaliadwy o amgylchedd gwaith sydd wedi'i addasu.

**Ymgysylltu â’r Cyhoedd**

Wrth wraidd plismona a chyfiawnder troseddol y mae'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu, y dioddefwyr yr ydym yn eu cefnogi a'r troseddwyr yr ydym yn dod â hwy o flaen eu gwell. Fodd bynnag, mae’n anochel fod y modd yr ydym yn ymgysylltu â phobl wedi gorfod newid er mwyn sicrhau y cedwir at ofynion ymbellhau cymdeithasol lle bynnag y bo modd. Daeth y cyfyngiadau a osodwyd ar symud cyhoeddus, busnes a thwristiaeth â chymysgedd o ofn a rhwystredigaeth i’n cymunedau, gan arwain at niferoedd sylweddol uwch o adroddiadau am Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, troseddau Trefn Gyhoeddus a phryderon ynghylch troseddau cudd.

Cymerodd yr Heddlu ymagwedd a oedd, i'r graddau y bo'n bosibl, yn ceisio perswadio pobl i ufuddhau i ganllawiau ymbellhau cymdeithasol a newidiadau i ddeddfwriaeth a chanllawiau a oedd yn lliniaru trosglwyddiad cyflym y firws. Gellir crynhoi dull gweithredu Heddlu Dyfed-Powys fel hyn:

- Ymgysylltu â’r cyhoedd
- Esbonio pam mae gwasgaru’n hanfodol i leihau lledaeniad y feirws
- Annog pobl i wasgaru a mynd adref
- Gorfodi lle bo angen

Mae cefnogaeth y cyhoedd wedi bod yn hanfodol i lwyddiant mesurau a osodwyd, gan ei gwneud yn ofynnol felly bod swyddogion a staff hefyd yn arsylwi ar bellter cymdeithasol eu hunain neu'n gwisgo offer priodol i liniaru'r risg o drosglwyddo.

Fel y cynrychiolydd etholedig a'r bont rhwng y cyhoedd a'r heddlu, mae'n bwysig bod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn gwrando ar, ac yn deall y materion y mae cymunedau ac unigolion yn eu hwynebu yn yr cyfnod digyffelyb hwn. Felly, mae'r CHTh wedi parhau i gynnal rhaglen reolaidd o Ddiwrnodau Ymgysylltu Cymunedol, er yn rhithwir, ar draws siroedd Dyfed-Powys er mwyn sicrhau bod preswylwyr yn cael y cyfle i rannu eu barn yn uniongyrchol â'r CHTh. At hynny, mae presenoldeb cyfryngau cymdeithasol Swyddfa'r CHTh yn ystod y flwyddyn wedi cynyddu'n sylweddol. Yn fwyaf arbennig, cyflwynwyd y sesiynau 'Sgwrs y Comisiynydd' ar Facebook a roddodd gyfleoedd i aelodau'r cyhoedd ofyn cwestiynau i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'i westai. Uchafbwynt hyn oedd cynhadledd rithwir Dydd Gŵyl Dewi ar Ddioddefwyr ym mis Mawrth 2021, a oedd yn cynnwys gwesteion fel y Pennaeth Trosedd yn HMCTS a Chomisiynydd Dioddefwyr Cymru a Lloegr.

Yn gyffredinol, mae ymgysylltiad digidol â chymunedau wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r ffaith bod yr Heddlu wedi mabwysiadu'r platfform Single Online Home (SOH), gwefan a gynhelir yn genedlaethol a ddisodlodd ein gwefan, yn galluogi'r cyhoedd i riportio amrywiaeth o ddigwyddiadau ar-lein neu geisio gwybodaeth am faterion mwy cyffredinol. Disgwylir y bydd twf o ran riportio ar-lein yn cynyddu'r galw amdanom gan fod llawer o'r rhai sydd hyd yma wedi riportio trwy SOH wedi nodi na fyddent wedi gwneud hynny pe na bai cyfrwng digidol ar gael iddynt.

At hynny, mae sefydlu Desg Ddigidol wedi golygu bod modd rheoli'r holl ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol yn ganolog gan arwain at ymateb cyflym i unrhyw faterion yr adroddir arnynt trwy Face Book, Twitter neu Instagram. Mae'r mesurau hyn yn sicrhau gwell hygyrchedd i'r rhai sy'n dymuno ymgysylltu â'r gwasanaeth ar-lein, a hefyd yn hwyluso ymatebion corfforaethol amserol a chyson lle bo hynny'n briodol.

Bydd monitro parhaus o'r SOH a'r Ddesg Ddigidol yn digwydd i graffu ar newidiadau i'r galw a sicrhau gallu digonol i reoli'r galw hwnnw.

Mae'r Heddlu a'r SCHTh wedi parhau i ymateb i'r holl ohebiaeth a'r cwynion a dderbyniwyd. Yn dilyn gweithredu Deddf Coronafeirws 2020, derbyniodd Adran Safonau Proffesiynol Heddlu Dyfed-Powys nifer sylweddol o gwynion yn ymwneud â COVID. Fodd bynnag, ni wnaeth hyn arwain at gynnydd cyffredinol mewn cwynion, gan fod lleihad mewn cwynion nad ydynt yn ymwneud â COVID yn gwrthbwyso cyfanswm nifer y cwynion a gafwyd. Derbyniodd SCHTh nifer sylweddol o ohebiaeth yn ymwneud â COVID, y defnyddiwyd ei chynnwys i lywio ymgysylltiad y CHTh a'r cyhoedd a phartneriaid ac mae'n cael ei fwydo i Dîm y Prif Swyddogion pan fo'n briodol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion wrth iddynt godi.

Arweiniodd newidiadau i'r ddeddfwriaeth a ddaeth i rym ddechrau mis Chwefror 2020 at Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn derbyn cylch gwaith statudol i gynnal adolygiadau annibynnol o gwynion yr heddlu, lle mae'r Comisiynydd wedi'i asesu fel y corff adolygu perthnasol ac mae'r achwynydd yn gofyn yn ffurfiol am adolygiad mewn perthynas â'r modd yr ymdriniodd yr Heddlu â'i gwyn. Mae hyn yn rhan o flaenoriaethau'r Comisiynwyr h.y. cadw ein cymunedau'n ddiogel, diogelu'r bregus a chysylltu â chymunedau.

**Galw ac Ymateb**

O ran y galw, ac yn unol â'r holl heddluoedd eraill, gwelodd Dyfed-Powys i ddechrau ostyngiad ystadegol arwyddocaol yn nifer y troseddau y rhoddir gwybod amdanynt. Fodd bynnag, mae adroddiadau am achosion o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol wedi cynyddu'n aruthrol, yn bennaf o

ganlyniad i adroddiadau am dorri rheolau'r cyfyngiadau clo. Dros amser ac wrth i gyfyngiadau gael eu llacio yn ystod misoedd olaf yr haf, cynyddodd troseddau Trais yn erbyn y Person a Threfn Gyhoeddus i lefelau yr adroddwyd amdanynt cyn pandemig COVID-19. Ym mis Awst 2021, fodd bynnag, cynyddodd nifer y troseddau yn uwch na'r ystodau arferol, o ganlyniad i lacio cyfyngiadau cymdeithasol, ailagor y diwydiannau hamdden a lletygarwch a'r hyn a oedd yn ymddangos fel cynnydd mewn "gwyliau yn y wlad hon" gan arwain at ein diwydiant twristiaeth yn ffynnu am gyfnod byr cyn yr Hydref. Arweiniodd ailgyflwyno cyfyngiadau ledled y DU ddiwedd mis Rhagfyr unwaith eto at newidiadau i'n galw. Ym mis Ionawr a Chwefror 2021, cafwyd cyfnodau eithriadol o dawel o alw am yr heddlu er nid i'r un graddau â'r cyfnod clo cyntaf ym mis Mawrth 2020.

Mae ein gallu i ymateb i'r adroddiadau hyn wedi bod yn dda, yn enwedig o ystyried lefelau tynnu isel ein gweithlu gweithredol. Roedd yr her fwyaf sylweddol a wynebwyd o ran cwrdd â'r galw er gwaethaf tyniadau, yng Nghanolfan Gyfathrebu'r Heddlu, ond mae ffyrdd deinamig o weithio wedi sicrhau bod y galw yn cael ei ateb. Adroddir am fonitro parhaus ar alw a gallu trwy amrywiaeth o gyfarfodydd llywodraethu i sicrhau gwytnwch parhaus i ddelio â'r galw.

Mae strategaethau i reoli galw cynyddol dros y misoedd nesaf ar y gweill. Yn wir, er mwyn cefnogi'r ffocws cenedlaethol ar alw am heddlu sy'n gysylltiedig â'r Economi Nos, mae cynlluniau lleol wedi'u datblygu i alluogi dull partneriaeth i reoli'r galw y disgwylir iddo ragori ar lefelau blaenorol, oherwydd cyfyngiadau ar deithio tramor yn ystod 2021.

**Cynllunio Strategol**

Roedd heddlu Dyfed-Powys yn un o nifer fach o heddluoedd a gyflwynodd ein Datganiad Rheoli'r Heddlu (FMS) i AHGTAEM yn 2020. Yn y ddogfen honno, roedd dadansoddiad o'r galw, sganio'r gorwel a rhagamcanu galw posibl yn y dyfodol i gyd wedi galluogi'r Heddlu i ystyried maint y galw arferol yn erbyn y newidiadau sylweddol a ddaeth yn sgil pandemig COVID-19 ynghyd â'r gwytnwch a'r gallu sydd eu hangen i ddelio ag ef. Roedd Datganiad Rheoli'r Heddlu 3 yn ystyried yn fanwl effaith pandemig COVID-19 ym mhob maes plismona lleol fel y deallwyd bryd hynny. Roedd yr adborth a gafwyd gan AHGTAEM yn gadarnhaol iawn, yn enwedig o ystyried ein hymrwymiad i ddarparu Datganiad Rheoli'r Heddlu mewn cyfnod anhygoel o heriol a'n bod wedi ei ddefnyddio i lywio cynllunio ariannol a gweithlu cyn y praesept a'r setliadau cyllideb ar gyfer 2021.

Mae Datganiad Rheoli'r Heddlu 4 wedi hen ddechrau. Bydd y mireinio a awgrymwyd gan AHGTAEM yn cael eu dal. Yn ddiwylliannol, mae'r Heddlu wedi symud o sefyllfa o edrych ar Ddatganiad Rheoli'r Heddlu fel gofyniad gan AHGTAEM i wireddu'r buddion a ddaw o gynllunio strategol ac adnabod risg. Mae gwaith ar y gweill hefyd i sicrhau synergedd ac aliniad rhwng Datganiad Rheoli'r Heddlu, y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r gyllideb, cynllun y gweithlu ac yn wir gynlluniau adrannol. Yn sail i'r holl waith hwn bydd y blaenoriaethau diwygiedig yng Nghynllun yr Heddlu a Throseddu y bwriedir ei gyhoeddi yn 2021.

**A. Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu rheolaeth y gyfraith**

Mae'r ddwy Gorfforaeth Undyn yn gweithio mewn ffordd agored a thryloyw, ac mae ganddynt brosesau ar waith i gefnogi egwyddor graidd moeseg ac uniondeb sy'n unol â Chod Moeseg y Coleg Plismona. Mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl bolisïau a gweithdrefnau sy'n cydymffurfio â'r gyfraith yn ogystal â safonau moesegol priodol a safonau ymddygiad proffesiynol. Cyhoeddir datganiadau o fuddiannau a chofrestrau rhoddion a lletygarwch ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl ac mae gweithdrefnau ar waith i gofnodi unrhyw wrthdaro buddiannau lle bo angen.

Yn ôl adolygiad PEEL a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (AHGTAEM) yn 2018, mae 'Angen Gwella' dilysrwydd Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r meysydd i'w gwella yn cynnwys y canlynol:

- Y gallu a'r capasiti cyfyngedig i swyddogaethau gwrthlygredd fonitro pob system yn effeithiol ac yn gyflawn er mwyn nodi achosion o dorri rheolau a chamddefnydd yn rhagweithiol.
- Angen gwella mynediad at weithdrefnau tegwch yn y gwaith a thryloywder y gweithdrefnau hynny.
- Yr angen i sefydlu prosesau i nodi unrhyw anghymesuredd o ran recriwtio, cadw a dilyniant y gweithlu ynghyd â phrosesau dyrchafu teg a hygyrch.

Yn flaenorol, cafodd yr argymhellion eu monitro'n agos trwy Fwrdd Llywodraethu AHGTAEM o fewn strwythur llywodraethu'r heddlu. Fodd bynnag, er mwyn datblygu cynnydd y canlyniadau arolygu yn fwy effeithlon, caiff arweinwyr busnes unigol eu haseinio i bob argymhelliad neu AFI ac mae'n ofynnol iddynt ddarparu adroddiadau cynnydd rheolaidd ac uniongyrchol i dîm AHGTAEM yr heddlu, gyda'r Dirprwy Brif Gwnstabl yn goruchwylio'r cyfan.

Nodwyd Dyfed-Powys fel heddlu peilot ar gyfer y gyfran gyntaf o archwiliadau PEEL yn 2020/21; ond mae hyn wedi'i ohirio rhyw ychydig o'r dyddiadau gwreiddiol yn 2020 o ganlyniad i bandemig COVID-19. Dechreuodd yr arolygiad ym mis Rhagfyr 2020 ac roedd yn cynnwys asesiad o ddull yr Heddlu o ran annog gwneud penderfyniadau moesegol. Ar adeg ysgrifennu, disgwylir i'r asesiad gan AHGTAEM gael ei gyhoeddi ym mis Awst 2021.

Mae llawer o waith wedi'i wneud i barhau i hyrwyddo diwylliant moesegol a darparu fforwm sy'n ystyried achosion o gyfyng-gyngor moesegol. Yn dilyn arsylwi gan AHGTAEM o Bwyllgor Moeseg Dyfed-Powys (sy'n cyfarfod bob chwarter ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Swyddfa'r Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r heddlu ac sy'n elwa o gael cadeirydd annibynnol o'r byd academaidd) mae cyfleuster brysbennu newydd wedi'i sefydlu i ganiatáu i'r Pwyllgor yn unig ystyried cyfyng-gyngor moesegol yn effeithiol. Os nad yw mater yn gyfyng-gyngor moesegol, bydd y swyddogaeth brysbennu yn cyfeirio at yr adran berthnasol i ystyried y mater ac ymateb iddo.

Mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl bolisi chwythu'r chwiban ond mae angen ei adolygu. Mae polisi a phroses Tegwch yn y Gwaith a weithredwyd yn ddiweddar ac sydd ar gael yn eang, yn hyrwyddo diwylliant o fod yn agored ac yn dryloyw i fynd i'r afael â phryderon sylfaenol ynghylch tegwch y broses recriwtio, yn enwedig mewn perthynas â'r Bwrdd dyrchafu Swyddogion. Mae'r heddlu hefyd yn cynnal rhaglen o brofi cyffuriau ar hap yn erbyn camddefnyddio sylweddau.

## B. Sicrhau bod yn agored ac ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn ffordd gynhwysfawr

Mae ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd yn un o gyfrifoldebau statudol Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, ac mae'n rhaid iddynt ofyn am farn y gymuned er mwyn pontio'r bwlch rhwng plismona a'r cyhoedd. Mae'r gwaith ymgysylltu hwn yn llywio'r blaenoriaethau plismona lleol a bennir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu fel y nodir yng Nghynllun Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, y caiff y Prif Gwnstabl ei ddwyn i gyfrif amdano.

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl yn cyhoeddi gwybodaeth yn rheolaidd am waith a chyflawniadau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drwy eu priod wefannau, y cyfryngau cymdeithasol ac adroddiadau newyddion lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi Adroddiad Blynyddol, cylchlythyrau deufisol y Comisiynydd, papurau a chofnodion cyfarfodydd

cyhoeddus, yn ogystal â chofnodion o unrhyw benderfyniadau a wneir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Ymgynghorir â'r cyhoedd yn barhaus er mwyn llywio penderfyniadau a chefnogi gweithgarwch craffu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Cynhelir ymgynghoriadau penodol mewn perthynas â phenderfyniadau penodol, fel yr ymgynghoriad cyhoeddus ar braesept y dreth gyngor, ac i graffu ar weithgarwch yr heddlu, megis y defnydd o rym a'r ffordd y mae'n ymdrin â'r defnydd o gyffuriau anghyfreithlon. Mae Panel yr Heddlu a Throseddu yn craffu ar Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ac mae'r Panel hwn yn cynnwys aelodau o awdurdodau lleol sydd hefyd yn ymgynghori â'u cymunedau lleol ac yn cynnig adborth i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Dau o brif gyfrifoldebau Panel yr Heddlu a Throseddu yw adolygu lefel y praesept a ddymunir yn ogystal â chymeradwyo penodiad y Prif Gwnstabl a rolau statudol o fewn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Mae 'Cysylltu â Chymunedau' yn un o flaenoriaethu'r Cynllun Heddlu a Throseddu cyfredol ac er bod tystiolaeth o arfer da, ceir hanes o beidio â chydgysylltu gweithgarwch yr heddlu a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn ddigonol. Gwnaed cynnydd da gyda Fforwm Ymgysylltu ag Ieuenctid y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr, y bu'r ddau ohonynt yn ystod y flwyddyn yn cyfrannu at ddarparu barn a chyngor i'r Heddlu a'r SCHTh ar ystod o faterion. Er enghraifft, mae'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr wedi bod yn rhan o brosiect O’r Dechrau i’r Diwedd yr Heddlu sy'n ceisio gwella cywirdeb data trosedd a rheolaeth droseddol gyffredinol, ac mae'r Fforwm Ymgysylltu ag Ieuenctid wedi darparu cefnogaeth i ddatblygu adnodd hyfforddi i'r llu ei ddefnyddio wrth hyfforddi swyddogion yr heddlu a swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu.

Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

Ymestynnwyd y Cynllun Heddlu a Throseddu cyfredol am gyfnod o 12 mis gyda chymeradwyaeth Panel yr Heddlu a Throseddu pan ohiriwyd etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu am flwyddyn, hyd at Fai 2021. Mae Cynllun newydd gyda blaenoriaethau ar gyfer yr Heddlu yn cael ei ddatblygu yn dilyn etholiadau diweddar Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ym mis Mai 2021.

Fodd bynnag, mae gwella'r ffordd y mae'n cynllunio ar gyfer y dyfodol yn faes i'w wella i'r heddlu yn ôl arolygiad AHGTAEM PEEL 2018. Mae angen i'r heddlu gael gwell dealltwriaeth o'r galw a'r hyn sy'n effeithio arno, fel y gall ddefnyddio ei adnoddau'n effeithlon a chynllunio ar gyfer y dyfodol yn effeithiol. I'r perwyl hwnnw, adolygodd yr heddlu ei ddull o gynhyrchu Datganiad Rheoli'r Heddlu (FMS) yn 2020 i fynd i'r afael â rhai o'r argymhellion a wnaed yn flaenorol gan AHGTAEM. Cyflwynwyd Datganiad Rheoli'r Heddlu 2020 trwy ddull wedi’i ganoli o gydgysylltu’r ddogfen, gan dynnu ar arbenigedd gan arweinwyr meysydd busnes amrywiol. Cymerwyd y dystiolaeth i lywio'r cynnwys o'r galw cyfredol a’r galw a ragwelir, data am y gweithlu a data ariannol, gan alluogi'r heddlu i gynllunio'n strategol ar gyfer y tymor byr i'r tymor canolig.

Yn 2018, cyhoeddodd Llywodraeth ei Mawrhydi ddwy strategaeth, gyda'r cyntaf yn ceisio mynd i'r afael â thrais difrifol a’r llall wedyn yn strategaeth bellach ar gyfer mynd i'r afael â throseddau difrifol a threfnedig. Disodlodd y Strategaeth Troseddau Difrifol a Threfnedig strategaeth 2013 a oedd wedi cyflwyno'r fframwaith cyflawni ar gyfer Atal (Prevent), Amddiffyn (Protect), Ymlid (Pursue), Paratoi (Prepare) (4xP). Er mwyn bodloni gofynion y strategaethau, lansiodd Heddlu Dyfed-Powys ei Strategaeth Trais Difrifol a Throseddu Trefnedig 2019-21, o’r enw "Prosiect Diogel". (Mae Strategaeth SVOC ‘INTACT’ bellach wedi disodli hyn. Dyma’r brand newydd ar gyfer SVOC sy’n cynnwys y gwaith 4xP a wnaed gan Heddlu Dyfed-Powys ac asiantaethau partner. Cyflwynwyd INTACT ym mis Rhagfyr 2020).

Mae'r strategaeth amlasiantaeth yn amlinellu'r ymdrechion i fynd i'r afael â thrais difrifol a throseddu trefnedig fel system unedig, gydlynol. Nod y strategaeth yw mynd i'r afael â Thrais Difrifol a Throseddu Trefnedig sy'n effeithio ar gymunedau Dyfed a Phowys, ynghyd â lleihau'r achosion, drwy gydweithio er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'n dinasyddion. Un o elfennau allweddol y strategaeth hon yw sicrhau fframwaith ar gyfer cysylltedd rhwng arweinyddiaeth strategol, ymyrraeth a darpariaeth leol. Mae'r Strategaeth Troseddau Difrifol a Threfnedig yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu ddatblygu Byrddau Partneriaeth Troseddau Difrifol a Threfnedig yn eu hardal i arwain gwaith amlasiantaethol er mwyn rhwystro a lleihau niwed grwpiau troseddol cyfundrefnol. Yn Nyfed-Powys, sefydlwyd Byrddau Trais Difrifol a Throseddu Trefnedig (SVOC) ar lefel heddlu a lefel leol.

**C. Penderfynu ar yr ymyriadau sydd eu hangen i sicrhau y cyflawnir y canlyniadau arfaethedig.**

Cyhoeddodd CIPFA ei God Rheolaeth Ariannol (FM) yn ystod 2020 sydd wedi'i gynllunio i gefnogi arfer da mewn rheolaeth ariannol ac i gynorthwyo i ddangos gwytnwch ariannol a chynaliadwyedd. Mae'r Cod FM yn seiliedig ar saith safon rheoli ariannol sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth, atebolrwydd, tryloywder, safonau, sicrwydd a chynaliadwyedd a phob un â nifer o agweddau sylfaenol. Er mwyn dangos bod gofynion y Cod yn cael eu bodloni, cynhaliwyd yr hunanasesiad cyntaf yn gynnar yn 2021. Dangosodd hyn lefel uchel o gydymffurfiaeth ond tynnodd sylw at ychydig o feysydd i'w gwella yn benodol o ran dangosyddion gwytnwch ariannol a dadansoddiad sensitifrwydd mewn perthynas â newidiadau i'r galw am wasanaethau. Manylir ar y meysydd gwella hyn yn y cynllun gweithredu ar gyfer 2021/22.

Mae'r ymateb i'r gofyniad am Reolaeth Ariannol wedi'i haenu i 3 lefel; strategol, cyllidebol a gweithredol. Diffinnir cyfeiriad strategol trwy gyrhaeddiad y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP) sy'n edrych ymlaen 10 mlynedd. Mae hwn yn asesu'r adnoddau sydd eu hangen ar sail tybiaethau priodol er mwyn galluogi Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl i flaenoriaethu galwadau sy'n cystadlu am wasanaethau. Mae hyn yn cynnwys Rhaglen Gyfalaf 10 mlynedd sy'n cynnwys buddsoddiadau strategol mewn ystadau, fflyd a TG. Yn ogystal, mae'r gyllideb flynyddol wedi'i gosod mewn proses sy'n cael ei llunio gan agwedd o'r brig i lawr o'r strategaeth Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac agwedd o'r gwaelod i fyny o arweinwyr gweithredol. Yn ystod 2020/21, trwy ymgysylltu â ffocws iddo, defnyddiodd y llu Ddatganiad Rheoli'r Heddlu yn llwyddiannus fel ei brif ffynhonnell risgiau i fynd i'r afael â nhw yn ôl twf ar gyfer cyllideb 2021/22. Cyflwynir rheolaeth weithredol o ddydd i ddydd gan ddefnyddio model Partneriaeth Busnes Cyllid (FBP) lle mae staff cyllid yn gweithredu fel pwyntiau cyswllt sengl â phortffolios cyfrifoldeb dynodedig. Mae monitro'r gyllideb yn digwydd bob chwarter, bob mis ac ar alw fel y bo'n briodol, gyda FBPau yn adrodd ar berfformiad gwirioneddol a pherfformiad a ragwelir yn ogystal â gweithredu fel cynghorydd i sianelu gwneud penderfyniadau trwy sianeli llywodraethu cydnabyddedig.

Mae'r trefniadau llywodraethu yn cefnogi camau i wneud penderfyniadau cadarn er mwyn cyflawni'r canlyniadau gofynnol. Mae'r strwythur yn dwyn ynghyd nifer o gyfarfodydd gwahanol a chynnig llwybr adrodd clir ar gyfer gwneud penderfyniadau a chymryd camau gweithredu. Roedd trefniadau llywodraethu wedi'u harwain yn bennaf gan Brif Swyddogion, ond drwy leihau nifer y cyfarfodydd, mae cyfrifoldebau penderfynu wedi cael eu datganoli mewn llawer o gyfarfodydd fel y gellir cymryd camau hyblyg ac ymatebol a sicrhau canlyniadau gwell. Caiff atebolrwydd ei gefnogi gan y strwythur a'r prosesau llywodraethu sydd ar waith. Mae systemau monitro perfformiad yn cael eu hadolygu o hyd er mwyn gallu gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth

O fewn y strwythur, caiff risgiau eu rheoli a'u trin yn ystod cyfarfodydd fel y nodir yn y Cofrestrau Risgiau Corfforaethol a Dynamig; argymhellion sy'n deillio o arolygiadau thematig ac ad hoc gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi; ynghyd ag unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio o Ddatganiad Rheoli'r Heddlu, dogfen flynyddol sy'n edrych i'r dyfodol.

Mae dysgu'r gwersi yn hollbwysig er mwyn sicrhau y caiff gwelliannau parhaus eu gwneud fel y gellir darparu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol sy'n ddynamig ac yn ymateb i anghenion cymunedau. Mae adolygiad o'r Pwyllgor Cod Moeseg wedi arwain at ddull symlach o ymdrin â'r modd yr eir i'r afael ag adroddiadau am achosion o gyfyng-gyngor moesegol posibl. Mae hyn wedi arwain at gyfeirio llawer o adroddiadau at fecanwaith mwy priodol er mwyn galluogi'r Pwyllgor i ganolbwyntio ar achosion o gyfyng-gyngor moesegol yn unig, yn hytrach nag anfodlonrwydd mwy cyffredinol.

Defnyddir proses achosion busnes ffurfiol i ystyried prosiectau ac mae byrddau prosiect ar gael hefyd sy'n monitro'r ffordd y caiff mentrau a chynlluniau y cytunwyd arnynt eu rhoi ar waith a'u cyflawni. Mae buddion yn cael eu dal ac adroddir admanynt i lywio enillion effeithlonrwydd neu arbedion ariannol.

Mae cynnydd amlwg wedi cael ei wneud i ystyried cyfleoedd i gydweithio ag eraill er mwyn gwella effeithlonrwydd a darparu gwasanaeth gwell a mwy cadarn. Yn dilyn Adolygiad Archwilio Cymru ar drefniadau llywodraethu rhywfaint o weithgaredd cydweithredol rhanbarthol wedi'i seilio ar heddlu, lluniwyd cynllun gweithredu i fynd i'r afael â nifer o argymhellion ar gyfer gwella. Mae'r gwaith ar y cynllun gweithredu hwn wedi'i gwblhau i raddau helaeth a chyflwynwyd adroddiad i gyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio. At hynny, er mwyn parhau i ganolbwyntio'n briodol ar sefydlu trefniadau llywodraethu a rheoli ariannol da ar gyfer yr holl drefniadau cydweithio, cymeradwywyd y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn unol â hynny ac mae'r eitem hon yn parhau i fod ar y gofrestr risg ar hyn o bryd hyd nes y cynhelir trafodaethau pellach ac asesiad o'r camau a gymerwyd.

Mae Bwrdd Comisiynu'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, sy'n cynnwys aelod o Banel yr Heddlu a Throseddu, aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio a chynrychiolwyr o gynlluniau gwirfoddoli'r Comisiynydd, wedi ymsefydlu yn ystod y flwyddyn ac mae'n chwarae rhan bwysig wrth ganolbwyntio ar graffu ar wasanaethau a dwyn darparwyr gwasanaethau i gyfrif. Mae hyn wedi cynnwys adolygiad o'r ddarpariaeth gwasanaeth yn ystod y cyfnodau cloi a'r heriau a gafwyd. Mae'r Bwrdd hefyd yn derbyn gwybodaeth mewn perthynas â dyfarnu cyllid grant neu'r tendro am wasanaethau. Bu mwy o weithgaredd i werthuso gwasanaethau a gomisiynwyd yn ystod 2020/21, ond mae cyfyngiadau COVID wedi effeithio ar hyn ac ar hyn o bryd, nid yw'r broses hon yn un sydd wedi'i hymgorffori'n llawn ac sy'n sicrhau bod dealltwriaeth glir o effaith gwasanaethau o'r fath a'r enillion a wneir ar fuddsoddiadau mewn gwasanaethau o'r fath. Derbyniodd y Bwrdd gyflwyniad ym mis Chwefror 2021 yn rhoi manylion y gofynion statudol ar gyfer CHTh mewn perthynas â chomisiynu, y strategaeth, y fframwaith a'r cynlluniau archwilio a llywodraethu ar gyfer Tymor 3.

Dyfarnodd yr heddlu'r contract ar gyfer System Rheoli Cofnodion (RMS) newydd i Niche Technology Inc yn gynnar yn 2020. Bwriad cyflwyno Niche RMS yw mynd i'r afael â materion ansawdd data gyda'r systemau annibynnol presennol trwy sicrhau bod holl wybodaeth yr heddlu yn cael ei chynnal mewn un system a bod cysylltiadau rhwng popeth. Mae cyfleoedd cydweithredu wedi'u nodi gyda'r penderfyniad yn cael ei wneud i Heddlu Dyfed Powys ymuno â Chydweithrediad Gogledd Orllewin y DU sydd eisoes wedi'i sefydlu ac sy'n cynnwys Heddlu Glannau Mersi, Gogledd Cymru a Swydd Gaer er mwyn ffurfio Cydweithrediad Arfordir y Gorllewin. Rhagwelir y bydd angen 18 mis i newid y systemau presennol ag RMS newydd ac mae'r llu yn gweithio tuag at lansio'r system yn 'fyw' ym mis Medi 2022. Adroddir ar gynnydd o fewn strwythur llywodraethu'r heddlu.

Er mwyn gwella ymateb yr heddlu i adroddiadau am Gam-drin Domestig, sy'n faes a nodwyd gan AHGTAEM fel un sydd angen ei wella, lansiwyd Desg Bregusrwydd o fewn Canolfan Reoli'r

Heddlu. O ganlyniad i waith y tîm, gwelwyd cynnydd aruthrol o ran nodi Digwyddiadau Cam-drin Domestig ynghyd â gwelliant sylweddol o ran cofnodi troseddau'n gywir a thrwy hynny mae cywirdeb data ar y troseddau wedi gwella. Mae'r dull hwn wedi sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu hadnabod, eu diogelu a'u cyfeirio'n briodol ar gyfer derbyn y cymorth angenrheidiol. Hefyd, sicrhaodd fod gan y sefydliad ddealltwriaeth well o'r galw o ran Cam-drin Domestig, a gyfrannodd at ein hymateb.

Yn deillio o'r cynnydd uchod mewn troseddau a nodwyd, oedd nifer yr atgyfeiriadau i'r Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth (MARAC) (+150%) a oedd yn amharu ar amseroldeb y gwasanaeth a ddarperid i ddioddefwyr. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, lansiwyd Uned Asesu Risg Eilaidd (SRAU) i gynnal asesiad risg eilaidd, amlasiantaeth ar yr holl achosion o Gam-drin Domestig o fewn cyfnod o 24-48 awr a sicrhau bod atgyfeiriadau at MARAC yn briodol ac yn prosesu ceisiadau Cyfraith Claire yn amserol. Mae hyn wedi darparu cynnydd sylweddol yn amseroldeb yr achosion sy'n cael eu hystyried ac wedi gwella'r gefnogaeth a dderbynnir gan ddioddefwyr y tu hwnt i ymateb cychwynnol yr heddlu.

Mae cyflwyno hyrwyddwyr Cam-drin Domestig rhanbarthol i gefnogi swyddogion heddlu ymateb a chymdogaeth wrth iddynt ymchwilio i ddigwyddiadau Cam-drin Domestig wedi darparu haen ychwanegol o gefnogaeth. Ym mis Chwefror 2021 cylchredwyd fideo hyfforddi i gynorthwyo swyddogion i ddeall pwysigrwydd ceisio erlyniadau dan arweiniad tystiolaeth a bydd yn cael ei ail-gyflwyno a'i wreiddio yn ystod hyfforddiant y gwanwyn. At hynny, mae cyflwyno adolygiadau Arolygydd ar gyfer pob achos a gaewyd o dan "Canlyniad 16" yn sicrhau bod y posibilrwydd o erlyniad dan arweiniad tystiolaeth yn cael yr ystyriaeth lawnaf ym mhob achos.

Mae Uniondeb Data Trosedd yn faes pryder allweddol i Heddlu Dyfed-Powys. Fe'i nodwyd fel "Achos Pryder wedi'i Gyflymu" gan AHGTAEM ym mis Mai 2021. Yn flaenorol, nododd arolygiad(au) PEEL yn 2016 a 2018 hefyd Uniondeb Data Trosedd fel maes sy'n Achos Pryder/Angen Gwella. Mae archwilio cynyddol wedi nodi mai ein meysydd pryder allweddol yw nodi troseddau mewn adroddiadau o ddigwyddiadau fel Ymddygiad Gwrthgymdeithasol; N100 Nodiadau o dreisio a adroddwyd, troseddau a guddiwyd o fewn troseddau fel troseddau ymddygiadol heb eu cofnodi pan adroddir amdanynt fel rhan o adroddiad Cam-drin Domestig; a dosbarthiad cywir wrth gwblhau troseddau. At hynny, mae adolygiad mewnol parhaus o gydymffurfiad â chod ymarfer y dioddefwr a safonau ymchwiliadau a goruchwyliaeth hefyd wedi tynnu sylw at rai meysydd sy'n achosi pryder. O ganlyniad, mae'r angen am ymyrraeth gyfannol i fynd i'r afael â phob maes wedi'i gydnabod ac mae gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â mwyafrif y meysydd annigonol. Bydd y prosiect O'r Dechrau i'r Diwedd yn newid yn sylweddol y broses ar gyfer cofnodi, ymchwilio a chwblhau troseddau, gan gyflwyno haenau ychwanegol o archwilio a sicrhau ansawdd. Yn y tymor byr tra bo manylion O'r Dechrau i'r Diwedd yn cael eu pennu, bydd mwy o archwilio yn digwydd yn y Tîm Archwilio Troseddau i sicrhau bod troseddau o fewn digwyddiadau yn cael eu nodi a'u cofnodi. Mae'r prosiect O'r Dechrau i'r Ddiwedd wedi'i amserlennu i ddarparu ffordd well o weithio trwy swyddogaethau'n sy'n dod yn fwy canolog o fis Tachwedd 2021.

## D. Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth ac unigolion ynddo

Mae lles ein gweithlu wedi bod o'r pwys mwyaf ac yn flaenoriaeth allweddol, yn enwedig yng ngoleuni'r addasiadau a'r cyfyngiadau a ddaeth yn sgil pandemig COVID-19. Mae swyddogion a staff wedi parhau i ddarparu safonau uchel o wasanaeth i'n cymunedau mewn cyfnod o ansicrwydd byd-eang. Mae llawer wedi gwneud hynny wrth reoli eu pryderon a'u hofnau eu hunain, gofalu am deulu ac anwyliaid, a chydbwyso gofynion proffesiynol a phersonol sy'n cystadlu â'i gilydd. Mae lles meddwl wrth wraidd ffocws y Prif Swyddogion a'r Comisiynydd yn ogystal â sicrhau cefnogaeth i'n gweithlu.

Ym mis Ebrill 2020, roedd yr Heddlu’n falch iawn o dderbyn Gwobr Aur Buddsoddwyr mewn Pobl, rhywbeth y mae llai na 7% o'r sefydliadau sy'n gwneud cais yn ei dderbyn. Roedd hwn yn gyflawniad sylweddol i'r sefydliad gan nad oedd wedi cyrraedd y meini prawf sgorio ryw dair blynedd ynghynt. WRth dderbyn y Wobr, roedd y Prif Swyddogion yn cydnabod ymdrechion enfawr a wnaed gan y gweithlu i symud y sefydliad yn ei flaen yn ogystal â'r gwaith a wnaed yn strategol i ddod â'r heddlu i safle o ymddiriedaeth a hyder.

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl wedi diffinio strwythurau a rolau o fewn y sefydliadau er mwyn sicrhau arweinyddiaeth effeithiol. Caiff hyn ei gefnogi gan y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol sy'n nodi'r rolau a'r cyfrifoldebau ac sy'n hollbwysig er mwyn cyflawni'r strategaeth a'r cynlluniau sydd ar waith.

Cyflwynwyd y Proffil Asesu Datblygiad (DAP) yn lle'r system berfformiad flaenorol nad oedd yn diwallu anghenion y sefydliad mwyach. Cafodd ei lansio'n ffurfiol ym mis Ebrill 2019 ac mae wedi’i wreiddio’n llawn ledled y sefydliad gan adrodd yn rheolaidd am gerrig milltir allweddol fel adolygiadau dros dro a chwblhau’n derfynol i’r Bwrdd Pobl. Defnyddiwyd y DAP mewn byrddau dyrchafu ac mae dyheadau i ddefnyddio'r DAP yn ehangach wrth symud ymlaen e.e. ar gyfer cyfleoedd recriwtio a datblygu. Mae sefydlu proses effeithlon ac effeithiol i unigolion gofnodi eu tystiolaeth o waith ac i'r heddlu allu defnyddio hyn yn fudd sefydliadol a dim ond gwella y bydd hyn dros amser gyda swyddogaeth a gwerth ychwanegol.

Mae Rhaglen Arweinyddiaeth Weddnewidiol y Sefydliad wedi parhau i gefnogi newid mewn diwylliant tuag at arddull arweinyddiaeth sy’n rhoi pwyslais ar hyfforddi a choetsio, gan annog staff goruchwylio a swyddogion i deimlo cymhelliant, ymgysylltiad a grym i wneud gwahaniaeth. Roedd 15 cwrs wedi'u cynllunio i'w cyflwyno ar gyfer 2020, ond oherwydd effaith pandemig COVID-19, dim ond 5 gafodd eu cyflwyno. Gohiriwyd pob cwrs nad oedd yn hanfodol rhwng Mawrth 2020 a Hydref 2020. O hynny ymlaen roedd yn rhaid addasu pob ystafell ddosbarth i sicrhau diogelwch yr holl gynrychiolwyr. Yn fwy diweddar, mae'r cwrs wedi'i gyflwyno rhiwthwir ac wedi'i gwtogi i 3 diwrnod o 5 diwrnod. Mae wedi'i addasu ychydig i gynnwys hunanofal a lles mewn ymateb i'r effaith ar ein gweithlu a achosir gan bandemig COVID-19. Mae 15 cwrs ar y gweill ar gyfer 2021. Mae'r Rhaglen Arweinyddiaeth Weddnewidiol wedi'i darparu o fewn yr heddlu ers mis Medi 2017. Hyd yma mae 238 o staff a Swyddogion yr Heddlu wedi'u hyfforddi.

Drwy ddadansoddi galw'n well, cynllunio’r gweithlu'n strategol a rhagweld y dyfodol, bydd modd recriwtio a hyfforddi staff fel bod capasiti'r heddlu'n parhau i fod yn briodol ac yn gynaliadwy i ateb y galw yn y dyfodol. Er mwyn monitro olyniaeth, sgiliau a galluoedd y gweithlu yn weithredol, mae Bwrdd Adnoddau'r Heddlu wedi'i sefydlu. Mae Bwrdd Llywodraethu dan gadeiryddiaeth ACC yn canolbwyntio ar sicrhau bod gan yr heddlu'r gallu a'r capasiti i ateb y galw presennol a’r galw yn y dyfodol. Mae cyfarfod y Bwrdd yn cael ei lywio gan gynllun y gweithlu ac yn ei dro, mae'n llywio cynllun y gweithlu. Mae'r ymagwedd at FMS yn cefnogi hyn ymhellach ac yn dwyn ynghyd yr asesiad o alw, gwaith cynllunio'r gweithlu, gwaith pennu cyllidebau a'r strategaeth ystadau er mwyn sicrhau cynllunio strategol cadarn.

Mae'n werth nodi, ar 1 Chwefror 2020, bod Diwygiadau Cam 3 i drefn gwyno a chamymddwyn yr heddlu o dan Ddeddf Plismona a Throseddu 2017, wedi dod i rym. Yn ogystal â symleiddio'r system gwynion, mae'r newidiadau'n golygu y bydd gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu fwy o rôl i gynyddu annibyniaeth a gwella'r broses o ymdrin â chwynion. O 1 Chwefror 2020, os yw cwyn wedi'i chofnodi o dan Atodlen 3 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 a bod unigolyn yn anhapus â chanlyniad ei gŵyn neu’r modd yr ymdriniwyd â hi, gall gyflwyno cais am adolygiad i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys. Bydd yr adolygiad yn ystyried a yw canlyniad y gŵyn neu’r modd yr

ymdriniwyd â hi yn rhesymol ac yn gymesur. Er mwyn helpu i gynnal adolygiadau o'r fath, ar y cyd â Gogledd Cymru a Gwent, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi cyflogi cwmni allanol i ystyried unrhyw adolygiadau yn y lle cyntaf, a fydd wedyn yn gwneud argymhellion i'w hystyried. Derbyniwyd 57 adolygiad dilys rhwng 1 Chwefror 2020 a 30 Ebrill 2021, a chadarnhawyd 7 ohonynt a chadarnhawyd 5 yn rhannol. Nododd 17 adolygiad, lle cawsant eu cadarnhau ai peidio, gyfleoedd ar gyfer dysgu sefydliadol.

Ers cyflwyno Diwygiadau Cam 3 a'r newidiadau cysylltiedig wrth drin cwynion, mae'r Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) wedi bod yn datblygu fframwaith perfformiad newydd. Mae'r gwaith hwn yn dal i fynd rhagddo ac nid yw'r IOPC wedi cynhyrchu unrhyw ffigurau cenedlaethol eto mewn perthynas â pherfformiad heddluoedd yng Nghymru a Lloegr. Mae'r IOPC wedi nodi anawsterau wrth geisio codi'r data perthnasol o'r system PSD Centurion. O ganlyniad, mae ychydig o ansicrwydd o hyd ynghylch yr hyn y mae'r fframwaith newydd wedi'i gyflawni yn genedlaethol.

Cynhelir cyfarfodydd misol rhwng yr Adran Safonau Proffesiynol a'r SCHTh, sy'n rhoi cyfle i drafod materion penodol sy'n ymwneud â chwynion ac sy'n cynnig cyfle i graffu ar weithgaredd yr Heddlu ar ran Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

### E. Rheoli Risgiau a Pherfformiad drwy Reolaeth Fewnol Gadarn a Threfniadau Rheoli Ariannol Cyhoeddus Cadarn

Mae diwylliant rheoli risg wedi'i wreiddio ar bob lefel yn y ddau sefydliad, gyda swyddogion a staff yn rheoli risg yn effeithiol fel rhan o'u busnes o ddydd i ddydd. Mae dull dwy haen o reoli risg yn yr Heddlu a SCHTh. Yn gyntaf, y lefel adrannol / leol lle mae risgiau'n ymwneud â'r gweithgareddau gweithredol o ddydd i ddydd sy'n benodol i'r ardal honno ac yn cael eu rheoli gyda dull busnes fel arfer. Lle bo angen, dylid uwchgyfeirio risgiau ardal leol i lefel risg strategol a'u rhoi ar Gofrestrau Risg Gorfforaethol yr Heddlu a SCHTh. Gall adnabod risg ddeillio o blismona gweithredol, y SCHTh, fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yr Heddlu, gweithgaredd archwilio ac arolygu mewnol ac allanol, prosiectau partneriaeth a chydweithredol a phrosesau darparu gwasanaethau. Mae gan bob heddwas ac aelod o staff yn y Sefydliadau gyfrifoldeb i nodi a rhoi gwybod am risgiau gyda phrosesau cadarn ar waith i sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi a'u monitro trwy'r gofrestr risg gorfforaethol.

Mae trefniadau dwyochrog ar waith rhwng yr Heddlu a SCHTh i drafod ar y cyd unrhyw risgiau a nodwyd a allai fod yn berthnasol i'r Gorfforaeth Undyn arall. Os bydd y naill sefydliad neu'r llall yn gwrthod cais i roi risg ar y ddwy gofrestr gorfforaethol, gellir trafod y maes risg yn y Bwrdd Plismona. Yr unig wahaniaeth yn y modd yr ymdrinnir â risgiau ym mhob Gorfforaeth Undyn yw o ran y sgoriau risg, a fydd yn cael eu pennu'n annibynnol yng nghyd-destun cofrestrau'r Heddlu a SCHTh.

Mae ystyried risg yn eitem sefydlog ar yr agenda ar bob bwrdd ar draws yr heddlu, ac fe'u hadolygir yn rheolaidd yn y Bwrdd Cyllid a Strategaeth a'r Bwrdd Plismona. Mae'r Cydbwyllgor Archwilio yn goruchwylio trefniadau rheoli risg ac yn darparu cyngor ac arweiniad yn rheolaidd.

Mae trefniadau sicrwydd Heddlu Dyfed-Powys yn cynnwys y tair llinell o amddiffyn. Y cyntaf yw cyfrifoldeb goruchwyliol; yr ail yw prosesau hapsamplu a gwiriadau sicrhau ansawdd a gynhelir gan reolwyr a'r gwasanaeth archwilio mewnol; a'r trydydd yw sicrwydd annibynnol drwy brosesau craffu yn y byrddau llywodraethu, swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, a'r tîm archwilio allanol ac arolygiaethau eraill.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol a'i nod yw rheoli risg i lefel resymol a rhagweladwy. Ni all ddileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Dim ond sicrwydd rhesymol, nid sicrwydd llwyr, o effeithiolrwydd y gall ei gynnig. Caiff

canfyddiadau'r adolygiad blynyddol o'r system rheolaeth fewnol eu hystyried gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, a chânt eu hadolygu'n annibynnol gan y Cydbwyllgor Archwilio.

Mae hyfforddiant arwain ar reoli ariannol wedi'i ddarparu i'r holl reolwyr nad ydynt yn rheolwyr cyllid er mwyn gwella'r trefniadau ar gyfer rheoli cyllidebau'n gadarn, gan sicrhau y caiff penderfyniadau cost effeithiol eu gwneud ar y lefel fwyaf lleol. Roedd y cam gweithredu'n rhan o becyn o fesurau i wella arferion rheoli ariannol ar draws yr heddlu. Gellid dadlau bod y dull hwn, ar y cyd ag adroddiadau cyllidebol misol newydd, wedi caniatáu mwy o reolaeth dros gostau a rheolaeth fwy effeithiol ar y gyllideb.

Mae trefniadau llywodraethu yn helpu i fonitro perfformiad a rheolaeth ariannol mewn ffordd amserol a phenodol ar wahanol lefelau yn y sefydliadau. Wrth gyflawni ei gyfrifoldebau statudol, mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif yn gyhoeddus am berfformiad yr Heddlu yng nghyfarfodydd chwarterol Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu, lle mae'n cynnig her adeiladol ac yn annog trafodaeth am berfformiad gweithredol.

Caiff data adnoddau dynol a data ariannol eu hadrodd i gyfarfodydd misol y Bwrdd Plismona lle gall Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu sicrhau bod perfformiad y sefydliad yn foddhaol, a dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif lle mae angen gwella.

Yn ychwanegol at y trefniadau hyn, mae Panel yr Heddlu a Throseddu yn dwyn Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i gyfrif bob chwarter am y ffordd y mae'n cyflawni ei gyfrifoldebau statudol. Mae'r heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi gweithio'n agos i sicrhau bod y cynhyrchion a ddatblygir er mwyn gwasanaethu pob un o Fyrddau'r Comisiynydd yn addas at y diben ac yn rhoi digon o wybodaeth iddo ef a'r Prif Gwnstabl i ddeall perfformiad sefydliadol a gweithredol yr heddlu.

Yn ystod 2020, mae'r Heddlu wedi wynebu ôl-groniad o waith Diogelu Data. Roedd hyn yn peri pryder gan fod rhai o'r ceisiadau am wybodaeth a dderbynnir gan yr Uned Datgelu, sy'n delio â gwaith o'r fath, yn amodol ar amserlenni deddfwriaethol. Maent yn cynnwys ceisiadau Mynediad Pwnc, materion diogelu, CAFCASS a Gorchmynion Llys (sy'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd y Llysoedd) ac ati. Mae'r ôl-groniad wedi codi o ganlyniad i nifer o ffactorau. Er mwyn lliniaru'r sefyllfa, sefydlwyd cynllun gweithredu. Mae'r cynllun gweithredu yn cynnwys adolygu prosesau ac ystyried a fyddai'n fwy priodol ymdrin â rhai ceisiadau mewn mannau eraill ayyb. Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd mewn perthynas â'r Cynllun hwn i'r Bwrdd Plismona ac mae'r Rheolwr Gwybodaeth/Swyddog Diogelu Data wedi adrodd bob pythefnos i'r DCC/Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO).

Ym Mwrdd Plismona Ionawr 2021, roedd y Rheolwr Gwybodaeth/Swyddog Diogelu Data yn gallu rhoi gwybod am well darlun gyda'r ôl-groniad o waith wedi gostwng yn sylweddol. Mae ffocws uchel y Rheolwyr yn parhau ynghylch y galw a dyrannu achosion yn seiliedig ar fygythiad, risg a niwed yn yr Uned Datgelu. Mae'r adroddiadau i'r Bwrdd Plismona a'r DCC/SIRO yn parhau.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu holl bolisïau'r Heddlu i sicrhau eu bod yn gyfredol, yn hygyrch ac wedi'u hysgrifennu modd cyson. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i ddiweddaru Cynllun Cyhoeddi'r Heddlu. Bydd rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys adolygu meysydd pwnc sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd gyda'r bwriad o gyhoeddi mwy o wybodaeth yr Heddlu yn rhagweithiol. Bydd hyn yn cynorthwyo i sicrhau ethos o fod yn agored ac yn dryloyw.

Mae'r gwaith yn parhau gan staff Rheoli Cofnodion wrth baratoi cofnodion yr Heddlu i'w trosglwyddo i Niche. Mae'r gwaith hwn nid yn unig yn cynorthwyo swyddogion gweithredol ond hefyd yn mynd tuag at sicrhau cydymffurfiad â deddfwriaeth diogelu data'r DU.

At hynny, fel rhan o'r rhaglen Archwilio Mewnol, derbyniwyd pump adroddiad yn ystod y cyfnod a gafodd sicrwydd Cyfyngedig. Roedd y rhain yn ymwneud ag Asedau Sefydlog (yn benodol gwirio, tracio a lleoli asedau sefydlog), Rheoli Ystadau (yn bennaf ynglŷn â threfniadau llywodraethu), Rheoli Contract (yn benodol yr oediadau i sefydlu safle ym Mhen-bre ar gyfer yr Adran Gŵn a llywodraethu perthynol), Cymdogaethau (yn ymwneud â rheoli eiddo, arddangosion a diogelwch y rhain), a Iechyd a Diogelwch (yn bennaf ynglŷn â pholisi, gweithdrefnau ac asesiadau risg sydd angen eu hadolygu a'u gwella). Mae mwyafrif o'r argymhellion wedi'u derbyn ac yn cael eu gweithredu neu mae gwaith ar droed i wella arferion. Bydd y Grŵp Llywodraethu Archwilio yn parhau monitro a chraffu ar gynnydd gyda chynrychiolwyr o'r Heddlu, OPCC ac aelodau annibynnol.

Maes pryder blaenorol fel y nodwyd mewn fersiynau blaenorol o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y cyd a hefyd drwy weithgarwch arolygu'r AHGTAEM oedd bod lle i wella ein dealltwriaeth o fuddiannau busnes. Ystyriwyd y byddai hyn yn dwyn ynghyd yr enghreifftiau o arferion da mewn cynlluniau gwireddu busnes ac ymgorffori'r rhain drwy'r sefydliad cyfan, gan sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn seiliedig ar wybodaeth gywir a chadarn. I'r perwyl hwnnw, llofnodwyd AFI AHGTAEM mewn perthynas â dadansoddiad buddiannau o wahanol raglenni gwaith a'u heffaith yn ddiweddar ar ôl penodi Swyddog Buddiannau Busnes a mabwysiadu dull cydgysylltiedig o wireddu buddiannau ar draws yr heddlu.

## F. Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl yn sicrhau bod penderfynwyr sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau yn atebol iddynt drwy'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith yn y ddau sefydliad. Mae gwefannau'r ddau ohonynt yn cynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i'r cyhoedd a rhanddeiliaid, yn unol â'r ddeddfwriaeth. Am yr drydedd flwyddyn yn olynol, mae'r Comisiynydd wedi cael Nod Ansawdd Tryloywder gan Comparing Police and Crime Commissioners (CoPaCC), sef sefydliad cenedlaethol sy'n monitro trefniadau llywodraethu heddluoedd i gydnabod hyd a lled y wybodaeth a geir ar y wefan.

Caiff penderfyniadau a wneir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu eu cyhoeddi ar ei wefan mewn ffordd amserol ac fe'u cyflwynir yn gyhoeddus i Banel yr Heddlu a Throseddu fel y gall graffu arnynt bob chwarter.

Mae'r Cydbwyllgor Archwilio yn rhoi cyngor ar y rhaglen flynyddol o waith archwilio mewnol ac yn llunio adroddiad blynyddol sy'n crynhoi prif ganfyddiadau a chanlyniadau'r holl waith archwilio. Caiff argymhellion o ran gwella gwasanaethau eu rhoi ar waith a chyflwynir adroddiadau arnynt i'r Pwyllgor. Aethpwyd i'r afael â phryderon blaenorol mewn perthynas â pha mor gyflym y caiff argymhellion Archwilio Mewnol eu datblygu trwy sefydlu'r Grŵp Llywodraethu Archwilio ar y cyd. Sefydlwyd y Grŵp yn 2020, ac mae'n sicrhau bod gweithgaredd Archwilio Mewnol yn cael ei oruchwylio a bod cynnydd yn erbyn argymhellion yn cael ei adrodd. Mae cyfarfodydd chwarterol y Grŵp Llywodraethu Archwilio yn dod ag atebolrwydd i arweinwyr busnes sy'n gyfrifol am symud gweithredoedd ymlaen, gan sicrhau bod gwelliant yn cael ei wneud o ganlyniad i archwilio mewnol a bod meysydd risg yn cael eu nodi, eu rheoli a'u hystyried o ran rhaglenni archwilio mewnol pellach.

Mae gweithgarwch arolygu ac archwilio gan gyrff craffu allanol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru a AHGTAEM yn parhau i sbarduno gwelliannau o ran busnes. Caiff argymhellion eu hystyried a'u rhoi ar waith lle y bo'n briodol. Caiff allbynnau AHGTAEM eu monitro drwy gyfarfodydd gydag arweinwyr busnes. Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae sawl AFI a nifer o argymhellion wedi cael eu gollwng gan AHGTAEM yn dilyn gweithredu'r dull hwn. Rhwng 1 Ebrill 2019 a 30 Ebrill 2021, mae

14 AFI a 29 o Argymhellion wedi'u cymeradwyo gan AHGTAEM a gwnaed cynnydd sylweddol hefyd mewn perthynas â nifer o rai eraill. Yn olaf, mae'r Cydbwyllgor Archwilio wedi dod â gwerth ychwanegol wrth gyflawni eu cyfrifoldeb o graffu annibynnol a rhoi barn ar adroddiadau a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, Argymhellion AHGTAEM ac ar Nodi a Rheoli Risgiau.

**Adolygu Effeithiolrwydd**

Mae'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd, o leiaf bob blwyddyn, yn gyfrifol am gynnal adolygiad o effeithiolrwydd eu fframwaith llywodraethu, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Caiff yr adolygiad o effeithiolrwydd ei lywio gan waith y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol, uwch-reolwyr o fewn y sefydliadau sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, adroddiad blynyddol y pennaeth archwilio mewnol a hefyd gan sylwadau a wneir gan yr archwilydd allanol ac asiantaethau ac arolygiaethau adolygu eraill. Mae'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol yn bennaf cyfrifol am adolygu trefniadau llywodraethu, gyda chamau gweithredu yn cael eu hadolygu gan y Cydbwyllgor Archwilio. Mae Cadeirydd y Cydbwyllgor Archwilio yn aelod o'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol.

Cyfarfu'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol bedair gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er mwyn coladu tystiolaeth ac asesu cynnydd yn erbyn matrics tystiolaeth a gynlluniwyd i ddangos cydymffurfiaeth Gwasanaethau Plismona â'r Egwyddorion Craidd. Y matrics hwn yw'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn.

Yn y cyfarfod diweddaraf ym mis Mai 2021, cyfarfu'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol i adolygu trefniadau llywodraethu ac yn ystod y cyfarfod hwn rhoddwyd cydnabyddiaeth i'r cynnydd sylweddol y mae'r heddlu wedi'i wneud yn erbyn yr AFI a'r Argymhellion a ddeilliodd o weithgaredd Arolygu AHGTAEM yn ogystal â chyflawni safonau plismona uchel yn barhaus yn ystod pandemig byd-eang. Nododd y Grŵp nifer o feysydd pryder sy'n cael eu hadlewyrchu yn y matrics tystiolaeth yn ogystal â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn a manylir arnynt fel camau gweithredu ar gyfer 2021/22.

Yn unol â'r rheoliadau, mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl, gan ddilyn cyngor y JAC, wedi adolygu effeithiolrwydd y gwasanaeth archwilio mewnol. Mae'r gwasanaeth wedi cydymffurfio â holl Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS).

Prif rôl Archwilwyr Mewnol yw rhoi sicrwydd i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ynglŷn ag effeithiolrwydd y rheolaethau sydd ar waith i reoli risgiau. I'r perwyl hwn, mae'r archwilydd mewnol yn cyflwyno barn flynyddol ar effeithiolrwydd y rheolaethau a adolygwyd gan y tîm archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn. Mae'r farn flynyddol hon, a nodir yn adroddiad blynyddol yr Archwilydd Mewnol, yn un o'r ffynonellau allweddol o dystiolaeth sy'n ategu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2020/21 fel a ganlyn:

*“Mae TIAA yn fodlon bod gwaith archwilio mewnol digonol wedi'i wneud i'm galluogi i ddod i gasgliad cadarnhaol o ran digonolrwydd ac effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl. Yn fy marn i, mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl brosesau trefnu, rheoli a llywodraethu digonol ac effeithiol ar waith i reoli'r gwaith o gyflawni eu hamcanion ar gyfer y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn.*

*Seilir y farn hon ar y materion a ddaeth i sylw TIAA yn ystod yr adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn yn unig ac nid yw'n farn ar bob elfen o'r prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu na'r hyfywedd ariannol parhaus nac eich gallu i fodloni rhwymedigaethau ariannol y mae'n rhaid i Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a Phrif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys ei gael o'i wahanol ffynonellau sicrwydd.”*

Rhoddodd Swyddfa Archwilio Cymru farnau archwilio diamod o ran cyfrifon 2019/20 i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ac roedd yn fodlon bod gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drefniadau priodol ar waith yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau gofal, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau. Mae Archwilio Cymru wedi cynnal archwiliad interim a byddant yn cynnal archwiliad o'r Datganiadau ym mis Mehefin 2021. Darperir y farn gyffredinol unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau.

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl wedi cydymffurfio â'r gofyniad statudol newydd i gau cyfrifon yn derfynol erbyn diwedd mis Gorffennaf er gwaethaf effaith pandemig COVID-19 ar wasanaethau cyhoeddus. Daeth Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (diwygio) 2021 i rym ar 31 Mawrth 2021 ac maent yn ymestyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd yn statudol i 30 Medi am y ddwy flynedd nesaf. Yn flaenorol, mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi paratoi'n ddigonol ar gyfer terfyn amser ar 31 Gorffennaf a chyflawni hynny ac er mwyn cydbwyso llwyth gwaith cau cyfrifon â gofynion eraill, maent am barhau i sicrhau bod adroddiadau yn barod erbyn diwedd Gorffennaf. Mae adrodd ar 30 Medi yn parhau i fod yn opsiwn wrth gefn i fynd i'r afael ag unrhyw fater arwyddocaol sy'n codi.

Isod, ceir crynodeb o'r camau sydd wedi'u cwblhau neu eu cyflawni, fel y'u rhestrwyd yn y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2017/18, 2018/19 a 2019/20:

| | Camau Gweithredu 17/18 | Cynnydd |
|---|---|---|
| 1.1 | Ystyried egwyddorion datblygu cynaliadwy ar gyfer pob datblygiad allweddol fel rhan o broses drws ffrynt newydd ar gyfer syniadau, achosion busnes a chynllunio ar gyfer y dyfodol. | Cwblhawyd: Roedd hyn yn cydnabod yr Argymhelliad a wnaed gan AHGTAEM. Mae cynnydd amlwg wrth sefydlu mecanweithiau a phrosesau llywodraethu priodol wedi arwain at HMIC yn cymeradwyo AFI10096 - Dylai'r heddlu adolygu ei fuddsoddiadau, fel y rheini yn ei adeiladau a'i seilwaith, i asesu eu heffaith. (llofnodwyd Awst 2020) |
| | **Camau Gweithredu 19/20** | |
| 3.1 | Y gallu a'r capasiti i roi mesurau gwrthlygredd ar waith yn effeithiol a monitro systemau'n llawn i nodi achosion o dorri rheolau a chamddefnydd yn rhagweithiol. | Cwblhawyd: Yn ddiweddar, mae AHGTAEM wedi cwblhau arolygiad cynhwysfawr o'r Uned Gwrth-lygredd. Daethpwyd i'r casgliad bod yr uned yn monitro'r systemau yn llawn ac yn rhagweithiol i nodi unrhyw achosion o dorri rheolau a chamddefnydd. Roedd AHGTAEM hefyd yn fodlon bod digon o allu a chapasiti yn yr uned ar hyn o bryd. |
| 3.4 | Gwell dealltwriaeth o'r galw presennol ac o'r galw yn y dyfodol i gefnogi cynllunio ar gyfer y dyfodol a llywio strategaeth sefydliadol | Cwblhawyd: Dangosodd cyflwyniad diweddaraf Datganiad Rheoli'r Heddlu ddealltwriaeth well o lawer o'r galw i'n sefydliad, o ran y presennol a'r hyn a ragwelir. Cyfunwyd y gronfa dystiolaeth a arweiniwyd gan ddata â barn broffesiynol i lywio offeryn cynllunio strategol cadarn, a oedd yn ei dro yn llywio cynllunio ariannol a chynllunio'r gweithlu, mater yr oedd AHGTAEM yn cymeradwyo'r Heddlu am ei gyflawni. |
| 3.8 | Gwell dealltwriaeth o fuddiannau busnes | Cwblhawyd: Mae Swyddog Buddiannau Busnes wedi sicrhau bod modd cydgysylltu, nodi a chofnodi buddiannau busnes yn ganolog sy'n arbennig o gyson â FMS a chynllunio strategol. Llofnodwyd AFI AHGTAEM mewn perthynas â hyn ym mis Rhagfyr 2020. |
| | **Camau Gweithredu 20/21** | |
| 4.1 | Monitro ymateb gweithredol i bandemig COVID-19 yn lleol gan ganolbwyntio'n benodol ar yr effaith ar ddarparu gwasanaethau a'r costau cysylltiedig. | Cwblhawyd: Mae Grŵp Aur Ymgyrch Talla yn adrodd yn rheolaidd i Brif Swyddogion gan sicrhau bod materion sy'n peri pryder yn cael eu codi a chan dynnu sylw at arfer da. Ceir craffu ofalus ar ddiogelwch ariannol o ran ymateb yr heddlu i bandemig COVID-19 mewn amrywiaeth o gyfarfodydd a rhoddir sicrwydd. Mae penderfyniadau a wneir mewn perthynas ag ymateb yn cael eu harwain gan ddata oherwydd datblygu dangosfyrddau sy'n cyflwyno gwybodaeth amser real ar alw ac adnoddau. |
| 4.3 | Monitro'r strategaeth a'r dull a gymerir i ailgyflwyno a | Cwblhawyd: Mae'r DCC yn cadeirio'r Bwrdd Newid a Thrawsnewid ac mae'n ystyried prosiectau strategol sy'n |

| | | |
|---|---|---|
| | gweithredu prosiectau strategol parhaus a newydd fel y'u pennir ar y Cynllun Cyfalaf | cael eu cyflwyno trwy'r broses model 5 achos gan ddefnyddio ffurflen cynnig prosiect. At hynny, mae'r adolygiad diweddar o drefniadau llywodraethu ar gyfer Ystadau wedi sicrhau mecanweithiau priodol ar gyfer cynigion gan sicrhau eu bod yn cael eu sgorio a'u profi cyn cyrraedd y Cynllun Cyfalaf. Mae yna Grwpiau ychwanegol sydd hefyd yn llywio'r Cynllun Cyfalaf fel y Grŵp Adeiladu Cyfalaf a Grŵp Defnyddwyr Fflyd y Strategaeth y mae pob un ohonynt yn adrodd yn gadarn i gyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol. |
| 4.5 | Cynnal adolygiad o drefniadau llywodraethu, gan sicrhau synergedd rhwng y strwythur llywodraethu “busnes fel arfer” a strwythur llywodraethu Ymgyrch Talla yn ogystal â chynyddu'r cyfleoedd i ddod â mwy o effeithlonrwydd, llif cyfathrebu ac awdurdodi yn unol â'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol. | Cwblhawyd: cynhaliwyd adolygiad cyfannol o'r strwythur a'r trefniadau llywodraethu i ddod ag effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd i'n trefniadau llywodraethu, gan sicrhau tryloywder ac ymreolaeth ar gyfer penderfyniadau ar y lefel gywir ac yn unol â'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol. Cymerodd y mireinio a wnaed ar drefniadau llywodraethu y dysgu a’r arfer gorau o ymateb Llywodraethu Ymgyrch Talla. Cytunwyd ar y strwythur terfynol ym Mwrdd Gweithredol yr Heddlu ar 5 Mawrth ac fe'i cefnogwyd gan sesiwn ddatblygu i'r holl Gadeiryddion a mynychwyr craidd i nodi cyfrifoldebau a disgwyliadau aelodau cyfarfodydd llywodraethu. |
| 4.6 | *Purdah* ar gyfer etholiadau 2021 Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu - rheoli perthnasoedd a sicrhau tegwch a thegwch. | Cwblhawyd: Mae'r broses wedi'i sefydlu'n llawn a gwahoddwyd Swyddogion Statudol SCHTh gan y PARO i ddarparu sesiynau briffio i ymgeiswyr ym mis Chwefror 2021. Mae Ymgyrch Aukland i oruchwylio prosesau cynnal yr etholiadau cyhoeddus yn cael ei reoli gan T/ACC Cockwell. |

Isod, ceir crynodeb o'r camau sy’n parhau i fynd rhagddynt yn y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2019/20 a 2020/21:

| | **Camau Gweithredu 19/20** | |
|---|---|---|
| 3.2 | Hygyrchedd a thryloywder nifer o brosesau AD | Yn mynd rhagddo: Bydd templed polisi heddlu newydd yn alinio cynnwys polisi ag amcanion sefydliadol, a fydd yn ei dro yn arwain at ddull cyson o wneud penderfyniadau. Mae gwaith ar y gweill i ddiweddaru'r holl bolisïau presennol ac i greu dogfennau arweiniol newydd i gyd-fynd â'r polisïau. Mae defnyddio staff Gwasanatehau Pobl i ddelio â phandemig COVID-19 wedi gohirio’r gwaith o ail-ysgrifennu polisïau a phrosesau allweddol presennol yn y fformat newydd. Fodd bynnag, mae gwaith bellach ar y gweill i ddiweddaru polisïau Tegwch yn y Gwaith a Rheoli Presenoldeb erbyn |

| | | |
|---|---|---|
| | | Hydref 2021. Mae'r Polisi Gweithio Doethach yn barod i'w lansio ar ôl pandemig COVID-19 ac mae wedi'i ddrafftio gan ddefnyddio'r templed newydd ynghyd ag unrhyw bolisïau newydd a gyflwynwyd wrth symud ymlaen.<br><br>Rhagwelir, oherwydd y defnydd o adnoddau Gwasanaethau Pobl i gefnogi prosiectau strategol allweddol y llu yn ystod 2021, y bydd gwaith ar ddiweddaru'r holl bolisïau AD wedi ei gwblhau erbyn Gwanwyn 2022.<br><br>Er mwyn sicrhau bod polisïau presennol yn adlewyrchu deddfwriaeth gyflogaeth gyfredol, bydd cytundebau ar y cyd a, lle bo hynny'n berthnasol yn unol â diweddariadau canllawiau cyfredol ACAS, yn cael eu gwneud yn y fformat cyfredol a'u lanlwytho i fewnrwyd yr heddlu. |
| 3.3 | Cydlynu gweithgaredd ymgysylltu rhwng Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r heddlu | Yn mynd rhagddo: Mae'r Grŵp Ymgysylltu â Chymunedau yn parhau i gwrdd i sicrhau bod cydgysylltiad ymgysylltu cymunedol rhwng yr heddlu a SCHTh yn digwydd. Er mwyn gwella gwaith y grŵp hwn ymhellach, dylid adrodd yn glir ar wybodaeth, pryderon ac arfer da o fewn y strwythur llywodraethu ar y cyd. |
| 3.5 | Dull mwy strwythuredig a chyson o ddysgu o ddatrys problemau, camgymeriadau a'r gwersi a ddysgwyd. | Yn mynd rhagddo: Mae gweithgaredd datrys problemau, yn bennaf, yn cael ei ddal yn MAVIS a POPs (systemau mewnol sy'n rheoli ASB a phroblemau mwy cymhleth, yn y drefn honno). Mae'r Model OSARA (dull a fabwysiadwyd gan yr heddlu) yn sail i'r ddwy system.<br><br>Mae adolygiad rheolaidd o'r holl gofnodion a chynlluniau yn sicrhau bod y model yn cael ei ddefnyddio a bod yr holl gyfleoedd ar gyfer ymyrraeth yn cael eu hystyried a'u nodi. Mae cwblhau cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i Sarjantiaid NPT roi rhesymeg a datgan bod meini prawf penodol wedi'u bodloni, gan nodi cyfleoedd ar gyfer dysgu a dal arfer gorau.<br><br>Mae Cydlynydd Datrys Problemau yn adolygu'r holl gynlluniau a grëwyd. Rhennir arfer gorau yn eang trwy amrywiol sianeli.<br><br>Mae rhaglen o hyfforddiant i adnewyddu sgiliau NPT ac i ddatblygu'r dulliau a ddefnyddir mewn plismona Ymateb ar y gweill. Bydd hyfforddiant hefyd yn cael ei gynnig i bartneriaid yn ystod Haf 2021. |
| 3.6 | Llywodraethu a rheolaeth ariannol ar drefniadau cydweithredu. | Yn mynd rhagddo: Gwnaed cynnydd sylweddol gyda chynllun gweithredu manwl wedi'i ddatblygu a'i adrodd i JAC. Bydd gweithrediad y camau yn cael eu goruchwylio |

| | | |
|---|---|---|
| | | trwy Fwrdd Rheoli Cydweithrediad Cymru Gyfan a Grŵp Cyllid ac Adnoddau Heddlu Cymru. |
| 3.10 | Gwerthuso gwasanaethau a gomisiynwyd | Yn mynd rhagddo: Ymgymerwyd â gweithgaredd gwerthuso pellach yn ystod 2020/21, ond mae cyfyngiadau COVID wedi effeithio arno. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod proses wedi'i hymgorffori'n llawn ar waith sy'n sicrhau bod dealltwriaeth glir o effaith ac enillion ar fuddsoddi gwasanaethau o'r fath. Mae hyn yn cefnogi'r gwaith a wneir ymhellach trwy Fwrdd Comisiynu SCHTh sy'n darparu lefel uwch o graffu ar wasanaethau a gomisiynir. |
| | **Camau Gweithredu 20/21** | |
| 4.2 | Sefydlu a monitro cynllun adfer er mwyn nodi dulliau newydd a gwell ar gyfer darparu gwasanaethau'n sefydliadol ac yn weithredol ac er mwyn deall y gwersi a ddysgwyd o'n hymateb i bandemig COVID-19. | Yn mynd rhagddo: Cymerwyd cyfle unigryw i ail-lunio'r ffordd y mae'r Heddlu'n rheoli ac yn cyflawni newid. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i elfen adferiad COVID y sefydliad,<br><br>er bod cydnabyddiaeth yn cael ei rhoi i'r ffaith y bydd adferiad yn cymryd amser.<br><br>Uchelgais gyfredol yr Heddlu yw defnyddio'r dysgu o'r newidiadau a orfodwyd ar y sefydliad yn ystod pandemig COVID-19 a gwella ansawdd y gwasanaeth y mae dioddefwyr a'n cymunedau yn ei brofi, gan ganolbwyntio'n gyfartal ar brofiad a lles y gweithlu.<br><br>Yn allweddol i lwyddiant bydd strwythur sefydliadol a fydd yn cefnogi ac yn cyflawni Adfer, Newid a Thrawsnewid yn gyson i safon ragorol yn y tymor canolig a'r tymor hir. Bydd hyn yn gofyn am strwythur rheoli newid pwrpasol sy'n ymgorffori ehangder llawn cyfrifoldebau ac adrannau proffesiynol yn yr Heddlu. Y bwriad yw y bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy ddefnyddio'r model 'Adfer, Newid a Thrawsnewid' newydd. Datblygwyd Strategaeth ategol ac mae ar gael ar gais.<br><br>Mae cynllun cyflawni clir wedi'i ddatblygu a bydd cam adfer Ymgyrch Talla yn cyd-fynd â'r gwaith hwn dros y 6-12 mis nesaf. Bydd cynlluniau datblygu busnes yn cyd-fynd â blaenoriaethau ac amcanion cyffredinol, gan sicrhau bod cyfrifoldeb yn cael ei gynnal ar bob lefel o'r sefydliad. |
| 4.4 | Nodi'r broses y mae'r Adran Gwella Busnes a Rheoli Gwybodaeth yn ei defnyddio i gyflawni ei swyddogaethau archwilio sydd â'r nod o ysgogi gwelliant o ran uniondeb data. | Yn mynd rhagddo: gwnaed gwaith i fapio'r amrywiol archwiliadau a gynhaliwyd sy'n llywio ein dealltwriaeth o uniondeb data. Y camau nesaf fydd ystyried a yw'r swyddogaethau hyn yn parhau i gael eu cyflawni fel y |

| | | |
|---|---|---|
| | Sicrhau, lle nodir bylchau gan archwiliadau Arolygiaeth Cwnstabliaeth ei Mawrhydi, gweithgarwch craffu dwys yr Heddlu a Datganiad Rheoli'r Heddlu, bod y rhain yn cael eu monitro ac yr ymdrinnir â hwy gan ddefnyddio'r dulliau priodol. | maent, neu a oes cydgysylltu canolog neu'n wir archwilio canolog. |

Camau nesaf

| | Camau Gweithredu 21/22 | Perchennog |
|---|---|---|
| 5.1 | Rhaid i broses gael ei phennu ar gyfer adolygu, mireinio, cymeradwyo a gweithredu polisïau'r heddlu. Rhaid iddi ddogfennu'n glir y cyfrifoldebau am berchnogaeth, awdurdodi ac ymgynghori. | Dirprwy Brif Gwnstabl |
| 5.2 | Rhaid cynnal adolygiad cyfannol o holl bolisïau'r heddlu i bennu'r rhai y mae angen eu hadolygu yn ogystal â galluogi'r llu i nodi bylchau mewn meysydd polisi. Mae hyn yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:<br>Polisi chwythu'r chwiban<br>Polisi caffael<br>Polisi gwrth-dwyll<br>Codi tâl am wasanaethau heddlu arbennig | Dirprwy Brif Gwnstabl |
| 5.3 | Datblygu Protocol Rhannu Gwybodaeth rhwng yr Heddlu a SCHTh sy'n sail i'r egwyddorion a nodir yn y Gorchymyn Protocol Plismona | Dirprwy Brif Gwnstabl/Pennaeth Staff |
| 5.4 | Datblygu egwyddorion Fframwaith Sicrwydd Bwrdd sy'n cefnogi wrth nodi risgiau llywodraethu corfforaethol, a thrwy hynny hysbysu'r AGS, Datganiad Rheoli'r Heddlu ac unrhyw ddogfennaeth gysylltiedig arall. | Prif Uwch-arolygydd Llywodraethu a Newid |
| 5.5 | Sicrhau bod y prosesau sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r achosion pryder yr adroddir amdanynt o ran Uniondeb Data Trosedd yn lliniaru'r | Prif Gwnstabl Cynorthwyol |

| | | |
|---|---|---|
| | risgiau a nodwyd ac yn gwella uniondeb data yn sylweddol. | |
| 5.6 | Sefydlu ac ymgorffori dull cadarn o Newid a Rheoli Rhaglenni yn yr Heddlu gan sicrhau bod llywodraethu priodol ar waith. | Prif Uwch-arolygydd Llywodraethu a Newid |

**Barn**

Ni all unrhyw ddatganiad rheolaeth fewnol roi sicrwydd absoliwt yn erbyn colled berthnasol; bwriad y datganiad hwn yw rhoi sicrwydd rhesymol.

Ar ôl adolygu'r ffynonellau sicrwydd a nodir yn y datganiad hwn, rydym yn fodlon bod trefniadau llywodraethu boddhaol ar waith gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl, gan gynnwys systemau priodol ym maes rheolaeth fewnol a rheoli risgiau sy'n helpu i sicrhau y caiff swyddogaethau eu cyflawni'n effeithiol.

**Casgliad**

Mae'r adolygiad o drefniadau llywodraethu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl dros y flwyddyn ddiwethaf wedi nodi nifer o feysydd o fewn y Gwasanaethau Plismona a fyddai, o'u cyflawni, yn dangos gwell atebolrwydd, tryloywder a threfniadau gweithio effeithiol, yn ogystal ag atgyfnerthu ymhellach y trefniadau llywodraethu sydd ar waith.

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn ymrwymedig i broses o wella trefniadau llywodraethu'n barhaus a byddant yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd. Nodir y rhain o fewn y camau a restrwyd uchod a byddant yn parhau i gael eu monitro drwy gydol 2021/22 gan eu bod yn parhau i fod yn ddilys ac o bwys. Bydd y camau a gaiff eu cymryd a'u rhoi ar waith yn cael eu monitro fel rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.

| **Llofnodwyd** | **Llofnodwyd** |
|---|---|
| **Dafydd Llywelyn**<br><br>Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu | **Claire Parmenter**<br><br>Prif Gwnstabl Dros Dro |
| **Dyddiad** | **Dyddiad** |

| **Llofnodwyd** | **Llofnodwyd** | **Llofnodwyd** |
|---|---|---|
| **Edwin Harries**<br>Cyfarwyddwr Cyllid | **Beverley Peatling**<br>Prif Swyddog Ariannol, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu | **Carys Morgans**<br>Pennaeth Staff a Swyddog Monitro |
| **Dyddiad** | **Dyddiad** | **Dyddiad** |